# Cyllideb Ddrafft 2025 i 2026: tystiolaeth i'r Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Tystiolaeth ysgrifenedig gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Yr Economi, Ynni, a Chynllunio a’r Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol: Rhagfyr 2024

Tystiolaeth ysgrifenedig gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Yr Economi, Ynni, a Chynllunio: Rhagfyr 2024

Tystiolaeth ysgrifenedig gan y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig: Rhagfyr 2024

Llywodraeth Cymru

# Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

## Papur Tystiolaeth ar Gyllideb Ddrafft 2025-26 – Prif Grŵp Gwariant (MEG) yr Economi, Ynni a Chynllunio

15/01/2025

Mae'r papur hwn yn rhoi gwybodaeth am gynigion cyllideb yr Economi, Ynni a Chynllunio, yn benodol y cyllidebau Cyflogadwyedd, Prentisiaethau, Partneriaeth Gymdeithasol a Sgiliau fel yr amlinellir yng Nghyllideb Ddrafft 2025-26 a gyhoeddwyd ar 10 Rhagfyr.  Mae hefyd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am feysydd sydd o ddiddordeb penodol i'r Pwyllgor.

Mae cyllideb y rhaglenni Cyflogadwyedd yn darparu rhaglenni i roi'r hyn sydd ei angen ar bobl i ddechrau, cynnal a dychwelyd i gyflogaeth mewn marchnad lafur sy'n newid drwy'r amser. Bydd yn sicrhau bod cymorth cyflogadwyedd ar gael er mwyn i bobl allu ffynnu a gwireddu eu potensial mewn economi ddigidol a sero net. Mae'r rhaglenni'n darparu'r Warant i Bobl Ifanc – un o ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu i roi cymorth i bobl 16-24 oed gael mynediad at waith, addysg, hyfforddiant neu hunangyflogaeth ac sy'n cyflawni yn erbyn blaenoriaethau'r Prif Weinidog ar gyfer Swyddi a thwf Gwyrdd a rhoi cyfle i bob teulu. Mae cyflogaeth ddiogel a chynaliadwy sy'n talu'n dda yn gynnig llwybr allan o dlodi a gwarchod rhag tlodi, nid yn unig i'r unigolyn, ond i'w ddibynyddion ac i'r gymuned drwyddi draw.

Fel rhan o'r gyllideb hon, rydym wedi buddsoddi yn y rhaglenni hyn sy'n cefnogi ein hymrwymiadau i adeiladu ar lwyddiant Cronfa Ddysgu Undebau Cymru; cefnogi cynigion TUC Cymru i aelodau o undebau fod yn Gynrychiolwyr Gwyrdd yn y gweithle a chryfhau Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol. Mae'n hwyluso ymateb uniongyrchol i helpu busnesau unigol i dyfu drwy ddatblygu'r gweithlu ac mae'n darparu atebion ehangach, sy'n canolbwyntio ar y sector ac sy'n cael eu harwain gan gyflogwyr, i ymateb i anghenion sgiliau a nodwyd.

fel meysydd blaenoriaeth digidol a sero net Llywodraeth Cymru, sy'n bwysig i economi Cymru. Rwyf wedi datblygu fframwaith strategol ar gyfer dyfodol ein prif raglen brentisiaethau, gan ganolbwyntio ar fynd i'r afael â'r heriau y mae unigolion a chyflogwyr yn eu hwynebu oherwydd effaith y pandemig, yr argyfwng costau byw a newidiadau economaidd. Mae'r Datganiad yn nodi tri amcan a chamau gweithredu cysylltiedig, pob un yn cyd-fynd â'n Cenhadaeth Economaidd ddiwygiedig ac yn cefnogi ein Cynllun Cyflogadwyedd a Sgiliau. Rydym yn gwybod bod gweithredu trawslywodraethol ar draws amryw o feysydd polisi yn hanfodol i sicrhau ein bod yn gallu cryfhau ein heconomi mewn ffordd sy'n manteisio ar egwyddorion llesiant ac yn gwneud Cymru'n lle gwych i fyw a gweithio ynddo. Byddaf yn gweithio'n agos gyda Medr i gyflawni yn erbyn y Datganiad, gan sicrhau ein bod yn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i bobl Cymru.

Yn unol â blaenoriaethau'r Prif Weinidog o ran rhoi cyfle i bob teulu, rydym yn parhau i fuddsoddi yn ein cefnogaeth i'n gwasanaeth Gyrfa Cymru. Drwy arweiniad gyrfaoedd a chymorth cyflogadwyedd proffesiynol a diduedd, mae Gyrfa Cymru a'u gwasanaeth Cymru'n Gweithio yn cefnogi ac yn arwain unigolion i ddod yn ymwybodol, i gael eu hysbrydoli, ac i lwyddo o'r ysgol gynradd a thrwy gydol eu hoes fel oedolion, gyda'u llwybrau gyrfa a'u teithiau. Mae Gyrfa Cymru nawr yn cynnig cyfweliad cyfarwyddyd gyrfa i bob person ifanc cyn iddynt adael addysg cyfnod allweddol 4 i sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r holl opsiynau fydd ar gael iddynt yn y dyfodol.

# Cynnwys

**Tryloywder Cyflwyniad y Gyllideb ....................................................... 4**

**1. Sylwadau ar Gamau Gweithredu a Manylion Dyraniadau Llinellau Gwariant yn y Gyllideb (BEL) ................................................ 5**

**2. Meysydd Penodol ............................................................................ 6**

Sgiliau a Chyflogadwyedd ............................................................................ 6

Dysgu Seiliedig ar Waith ............................................................................ 11

Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol/Ymgysylltu â Chyflogwyr ........................ 12

Partneriaeth Gymdeithasol a gwaith teg ........................................................ 12

**3. Crynodeb ........................................................................................ 14**

**4. Atodiadau ....................................................................................... 15**

Atodiad A – Sylwadau ar y Lefel Gweithredu ar gyfer unrhyw BEL sy'n berthnasol i'r Pwyllgor. ......................................................................... 15

# Tryloywder Cyflwyniad y Gyllideb

Mae'r tabl isod yn rhoi trosolwg o'r cynlluniau dangosol ar gyfer y cynlluniau Prentisiaethau, Cyflogaeth a Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol fel y'u cyhoeddwyd yng Nghyllideb Ddrafft 2025-26. Mae hyn yn cadarnhau cynnydd o £7.380m mewn adnoddau cyllidol (refeniw) ac adnoddau anghyllidol (nad yw'n arian parod) o £0.930m o'i gymharu â llinell sylfaen ddiwygiedig 2025-26. Nid yw cyllidebau Cyfalaf a Gwariant a Reolir yn Flynyddol wedi newid.

| | | | £'000 | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Action** | **BEL No.** | **BEL Description** | **Plans as per 2024-25 Final Budget Restated** | **Baseline Adjustments for 2025-26** | **2025-26 Revised Baseline** | **Changes** | **2025-26 Draft Budget December 2024** |
| Apprenticeships | 4762 | Apprenticeships | 143,898 | 4 | 143,902 | 0 | 143,902 |
| Employment and Skills | 4464 | Employability Including Young Persons Guarantee | 102,101 | 448 | 102,549 | 7,308 | 109,857 |
| Employment and Skills | 4464 | Employability Including Young Persons Guarantee - Non cash | 1,400 | 0 | 1,400 | 930 | 2,330 |
| Social Partnership | 1693 | Social Partnerships | 892 | 8 | 900 | 0 | 900 |
| | | **TOTAL RESOURCE BUDGET** | **248,291** | **460** | **248,751** | **8,238** | **256,989** |
| Employability Including Young Persons Guarantee | 4464 | Employability Including Young Persons Guarantee | 2,000 | 0 | 2,000 | 0 | 2,000 |
| | | **TOTAL CAPITAL BUDGET** | **2,000** | **0** | **2,000** | **0** | **2,000** |
| Employment and Skills | 4483 | Employability Including Young Persons Guarantee - AME | 12,000 | 0 | 12,000 | 0 | 12,000 |
| | | **TOTAL RESOURCE AME BUDGET** | **12,000** | **0** | **12,000** | **0** | **12,000** |

Y llinell sylfaen a ddefnyddir ar gyfer Cyllideb Ddrafft 2025-26 yw Cyllideb Derfynol 2024-25 (a ailddatganwyd ym mis Medi 2024) wedi'i addasu ar gyfer addasiadau llinell sylfaen rheolaidd ar gyfer 2024-25 i gefnogi dyfarniad cyflog y sector cyhoeddus 2024-25 a chynnydd mewn cyfraniadau pensiwn o fis Ebrill 2024 ymlaen oherwydd newid mewn cyfradd sy'n cael ei alw'n Gyfraniadau Pensiwn wedi'u Haddasu ar sail Profiad Blaenorol (SCAPE).

Rhoddir crynodeb yn **Atodiad A** o'r newidiadau hyn i linellau cyllideb sy'n berthnasol i'r pwyllgor hwn.

# 1. Sylwadau ar Gamau Gweithredu a Manylion Dyraniadau Llinellau Gwariant yn y Gyllideb (BEL)

Rhoddir dadansoddiad yn **adran 1** o'r newidiadau i'r cyllidebau sy'n berthnasol i'r Pwyllgor ar gyfer MEG yr Economi, Ynni a Chynllunio yn ôl maes gwariant, Cam Gweithredu a BEL ar gyfer 2025-26. Darparwyd sylwebaeth sy'n egluro'r newidiadau i bob Cam Gweithredu yn y MEG yn **Atodiad A** hefyd. Darparwyd esboniad naratif tryloyw i egluro'r cynnydd a'r gostyngiadau, lle nad ydynt wedi cael sylw yn y papur tystiolaeth. Dim ond i'r cyllidebau sydd wedi'u gwarantu fel rhan o'r pwyllgor hwn y mae hyn yn berthnasol.

# 2. Meysydd Penodol

Mae'r adran hon yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am feysydd penodol, yn unol â chais y Pwyllgor.

## Sgiliau a Chyflogadwyedd

*Cyfanswm y cyllid y bwriedir ei ddefnyddio i gyĄwyno r Warant i Bobl Ifanc yn 979293–*

Y Warant i Bobl Ifanc yw'r prif ymrwymiad yn Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru i ddarparu cymorth i'r rheini rhwng 16 a 24 oed sy'n byw yng Nghymru, i gael lle mewn addysg neu hyfforddiant, i'w helpu i gael gwaith neu i fod yn hunangyflogedig.

Ers lansio'r Warant ym mis Tachwedd 2021, mae dros 42,000 o bobl ifanc wedi dechrau ar raglenni cyflogadwyedd a sgiliau yn unig. Mae dros 5,000 o bobl ifanc wedi symud ymlaen i gyflogaeth ac mae dros 650 wedi dechrau eu busnesau eu hunain.

Dyma'r prif raglenni a chynlluniau a nodir o fewn cwmpas y Warant i Bobl Ifanc:

| Gwarant i Bobl Ifanc | | |
|---|---|---|
| Rhaglen/prosiect | Y gyllideb sydd ei hangen 2025/2026 | Sylwadau |
| Twf Swyddi Cymru + | £32m | Prif raglen ar gyfer cyflwyno'r Warant i Bobl Ifanc |
| Ysbrydoli Rhagoriaeth Sgiliau yng Nghymru | £1.26m | Mae'n cynnwys gweithgarwch craidd yn ogystal â chyllid i gynnal cystadleuaeth Genedlaethol y DU yng Nghymru ym mis Tachwedd 2025 |
| Entrepreneuriaeth Ieuenctid | £1.39m | Rhaglen gyflawni allweddol tuag at yr ymrwymiad yn y Warant i Bobl Ifanc i fod yn hunangyflogedig |

Mae cyllid i gyfrannu at gyflawni'r Warant i Bobl Ifanc yn 2025-26 ar draws y MEG Addysg a'r MEG Economi, Ynni a Chynllunio (tua £1bn), gan gynnwys y gyllideb sylweddol a ddyrannir i Medr. Dylid nodi hefyd bod rhai rhaglenni'n cael eu

harwain gan y galw, eu bod ar gael i bobl o bob oed ac mae rhai'n cael eu hariannu dros flynyddoedd academaidd yn hytrach na blynyddoedd ariannol.

*Lefel y cyllid y bwriedir ei ddefnyddio i gyĄwyno Cyfrifon Dysgu Personol yn 9 7 9 2?9 3–*

Bellach, mae Medr yn gyfrifol am y dyraniadau cyllideb ar gyfer Cyrsiau Rhan-amser a ddarperir gan Golegau Addysg Bellach, gan gynnwys Cyfrifon Dysgu Personol (PLA). Y Gweinidog Addysg Bellach ac Uwch sy'n gyfrifol am bolisi Medr.

*Manylion unrhyw gyllid sgiliau a chyĄogadwyedd penodol sy n cael ei gynnig i gefnogi r rheini y mae penderfyniad Tata i atal y gwaith sylfaenol o gynhyrchu dur ym Mhort Talbot yn effeithio arnynt–*

Y gyllideb arfaethedig ar gyfer rhaglen ReAct+ yn 2025-26 yw £7.425m, ac rydym yn bwriadu cael digon o gyllideb i reoli'r gwaith o drosglwyddo'r galw gan y rheini y mae dileu swyddi o Tata Steel UK a'r gadwyn gyflenwi yn effeithio arnynt i 2025-2026.

*Manylion unrhyw gyllid penodol ar gyfer uwchsgilio ac ailsgilio gweithwyr yn y sectorau sy n symud i sero net–*

Fel y nodwyd uchod, ym mlwyddyn ariannol 2025-26, bydd Llywodraeth Cymru'n darparu cyllid craidd gwerth £143.498m i Medr a fydd yn cwmpasu amrywiaeth o feysydd gwariant. Un o'r rhain yw darparu cyrsiau rhan-amser, sy'n cynnwys ein prif raglen Cyfrif Dysgu Personol i helpu pobl gyflogedig i uwchsgilio ac ailsgilio. Mae rhan o'r rhaglen hon yn cynnwys 'Cyfrif Dysgu Personol Gwyrdd' i lenwi bylchau sgiliau sero net mewn gwasanaethau adeiladu/gwaith adeiladu, ynni, gweithgynhyrchu a pheirianneg ac yn ehangach. Mae'r cap ar gyflogau wedi cael ei ddileu ar gyfer yr elfen hon er mwyn i fwy o bobl allu cael gafael ar y sgiliau a'r cymwysterau sero net gwerthfawr hyn.

Mae Llywodraeth Cymru wedi gweithredu Rhaglen Sgiliau Hyblyg ers 2016. Mae'r Rhaglen yn grant hyfforddi, sydd ar gael i bob cyflogwr yng Nghymru, sy'n dymuno prynu cyrsiau hyfforddi i gwrdd ag amcanion uwchsgilio a'r posibilrwydd o greu a llenwi mwy o swyddi gwyrdd. Bydd Llywodraeth Cymru'n cyfrannu 50% tuag at y costau hyfforddi. Mae'n cynnwys rhaglenni penodol i gefnogi bylchau sgiliau yn y Sector Peirianneg a Gweithgynhyrchu yn ogystal â datblygu sgiliau i helpu i fynd i'r afael â chyfleoedd Sero Net newydd. Ym mis Tachwedd, fe aethom ati i lansio cronfa Sgiliau Coedwigaeth a Phren newydd yn y Rhaglen Sgiliau Hyblyg. Mae'n rhan o'n hymdrechion i ddiogelu gweithlu'r sectorau at y dyfodol a darparu llwybr i yrfa ym maes coedwigaeth. Rydym wedi buddsoddi £7.531m yn y gyllideb hon i gefnogi'r Rhaglen Sgiliau Hyblyg.

Cynlluniwyd y rhaglen ReAct+ i gefnogi pobl 20 oed a hŷn yr effeithiwyd ar eu gallu i ddod o hyd i waith newydd mewn cyfnod mor fyr â phosibl ar ôl i'w swyddi gael eu dileu. Gall y rhaglen ddarparu grant hyfforddiant galwedigaethol gwerth hyd

at £1,500 i helpu cyfranogwyr i ennill y sgiliau y mae cyflogwyr sy'n recriwtio yn chwilio amdanynt. Gall y rhaglen hefyd gynnig cefnogaeth o hyd at £200 tuag at gostau sy'n gysylltiedig â hyfforddiant fel teithio a llety a hyd at £2,100 tuag at gostau gofal. Gellir defnyddio'r grant i uwchsgilio neu i ailhyfforddi ar gyfer gwaith mewn sectorau newydd neu rai sy'n dod i'r amlwg. Mae'r rhaglen yn seiliedig ar wybodaeth gadarn am y farchnad lafur ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol. Yn ddiweddar, mae'r rhaglen wedi ariannu cyrsiau mewn gosod seilwaith gwefru cerbydau trydan, argraffu olion traed carbon a chynaliadwyedd amgylcheddol. Mae'r rhaglen hefyd yn cynnig cymorth o hyd at £4,000 tuag at gyflogau i gyflogwyr sy'n recriwtio person anabl cymwys. £7.425m yw'r dyraniad cyllideb drafft ar gyfer ReAct+ yn 2025-26.

*Rhestr gyfunol o'r holl raglenni cyflogadwyedd a ariennir gan y Llinell Wariant yn y Gyllideb, gan gynnwys: Cleientiaid / buddiolwyr arfaethedig pob rhaglen; A ydyn nhw'n rhan o gynllun 'ymbarél' mwy, h.y. y Warant i Bobl Ifanc? Rhestr yn manylu ar y prif ddarparwyr ar gyfer pob un o'r rhaglenni, gan gynnwys gwerthoedd eu contractau ar gyfer 2025-26.*

## Twf Swyddi Cymru a Mwy

Lansiwyd Twf Swyddi Cymru a Mwy ym mis Ebrill 2022, ac mae'n rhaglen flaenllaw o dan y Warant i Bobl Ifanc. Mae Twf Swyddi Cymru a Mwy yn darparu pecyn cymorth cyfannol sydd wedi'i deilwra i bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, neu sydd mewn perygl o hynny.

Buddsoddwyd £32m yn y gyllideb hon a fydd yn cael ei ddyrannu i ddarparwyr i gyflwyno'r rhaglen, fel y nodir isod. Mae'r rhaglen yn canolbwyntio ar bobl ifanc 16-19 oed nad ydynt yn barod am swydd eto, gan eu helpu i gyrraedd y cam hwnnw, yn ogystal â phobl ifanc sydd angen cymorth ychwanegol i'w helpu i oresgyn rhwystrau rhag cael swydd a hyfforddiant, gan gynnwys iechyd meddwl a llesiant.

Mae Twf Swyddi Cymru a Mwy yn cael ei gontractio drwy dendr; mae'r Contractwyr canlynol wedi cael contractau o dan gytundeb Fframwaith ym mhob Lot Ranbarthol:

| Rhanbarth | Contractiwr |
|---|---|
| Gogledd Cymru | Consortiwm Grŵp Llandrillo-Menai (GLLM) |
| | Coleg Cambria |
| | ACT Ltd |
| De-orllewin a Chanolbarth Cymru | Coleg Sir Benfro |
| | ITEC Training Solutions |
| | ACT Ltd |

| | |
|---|---|
| Canol De Cymru | ACT Ltd |
| | ITEC Training Solutions |
| De-ddwyrain Cymru | ACT Ltd |
| | ITEC Training Solutions |

Cymunedau am Waith a Mwy

Fel rhan o'r gyllideb hon, dyrannwyd £16.834m i'r rhaglen Cymunedau am Waith a Mwy. Mae'r rhaglen yn darparu cynllun mentora a hyfforddiant dwys yn y gymuned i unigolion. Ers mis Ebrill 2018, mae wedi helpu cyfanswm o dros 63,000 o unigolion sydd â rhwystrau cymhleth at waith, ac mae dros 28,000 ohonynt wedi cael eu cyflogi am fwy na 16 awr yr wythnos. Mae'n cael ei ddarparu drwy bob un o'r 22 Awdurdod Lleol.

ReAct +

Rhaglen a ariennir gan grant yw ReAct+, ac rydym wedi neilltuo cyllideb o £7.425m iddi yn y gyllideb hon. Lansiwyd ReAct+, y rhaglen gyflogadwyedd ar gyfer oedolion, ar 6 Mehefin 2022. Mae'n cynnig cymorth wedi'i bersonoli i oedolion di-waith 20 oed a hŷn; does dim terfyn oedran uchaf. Mae cymorth ar gael i gyfranogwyr yr effeithiwyd arnynt yn sgil dileu eu swydd. Mae hefyd yn helpu cyn-droseddwyr sy'n bwrw eu dedfryd yn y gymuned.

Mae'r rhaglen yn darparu grantiau hyfforddiant galwedigaethol, cefnogaeth i gyflogwyr sy'n recriwtio person anabl cymwys a chefnogaeth ar gyfer costau sy'n gysylltiedig â hyfforddiant megis teithio a gofal plant. Nid yw Llywodraeth Cymru'n contractio gydag unrhyw ddarparwyr hyfforddiant ac mae cyfranogwyr yn nodi'r darparwr hyfforddiant mwyaf priodol ar ôl iddynt gael cyngor ac arweiniad diduedd gan gynghorydd Cymru'n Gweithio.

Ysbrydoli Rhagoriaeth Sgiliau yng Nghymru

Mae gan Ysbrydoli Rhagoriaeth Sgiliau yng Nghymru gyllideb o £1.260m yn 2025-26 ac mae'n darparu rhaglen o weithgarwch sy'n cryfhau dealltwriaeth, ymwybyddiaeth a darpariaeth addysg a hyfforddiant galwedigaethol a llwybrau gyrfa a fydd yn cael effaith gadarnhaol ar fusnesau yng Nghymru. Cyflawnir hyn drwy gefnogi addysg a darpariaeth galwedigaethol drwy Gystadlaethau Sgiliau i helpu i annog pobl ifanc i ragori ym myd gwaith. Mae Ysbrydoli Rhagoriaeth Sgiliau yng Nghymru yn gyfrannwr allweddol tuag at y Warant i Bobl Ifanc, gan gefnogi pobl ifanc i ddewis llwybr sydd fwyaf addas i'w hanghenion a'u hamgylchiadau boed hynny drwy addysg, cyflogaeth, hyfforddiant neu drwy sefydlu eu busnes eu hunain. Mae hefyd yn cefnogi nodau polisi ehangach fel swyddi gwyrdd ac ysbrydoli a chefnogi'r genhedlaeth nesaf o brentisiaid a

dysgwyr galwedigaethol. Mae Cymru'n cymryd rhan mewn cystadlaethau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol ac ym mis Tachwedd 2025 byddwn yn cynnal y Rownd Derfynol Genedlaethol am y tro cyntaf.

Drwy'r rhaglen, mae tua 1,400 o bobl ifanc yn cael eu cefnogi drwy gystadlaethau lleol yng Nghymru ac yn helpu cystadleuwyr i symud ymlaen i'r Rowndiau Terfynol Cenedlaethol a ariennir gan Lywodraeth y DU a Rownd Derfynol Ryngwladol WorldSkills.

### Y Rhaglen Sgiliau Hyblyg

Mae'r Rhaglen Sgiliau Hyblyg yn rhaglen a ariennir gan grant, a neilltuwyd cyllideb ddangosol o £7.531m iddi fel rhan o'r gyllideb hon. Gall y Rhaglen, drwy gyfraniad o 50%, helpu gyda chostau cymwys sy'n ymwneud â darparu hyfforddiant mewnol ac allanol a deunyddiau hyfforddi sydd wedi'u hanelu at bob cyflogwr yn y sector preifat a'r trydydd sector yng Nghymru.

Mae dwy elfen wahanol i'r Rhaglen:

- Mae Rhaglen Datblygu Busnes y Rhaglen Sgiliau Hyblyg mewn sefyllfa i gefnogi prosiectau datblygu busnes sylweddol sy'n cael eu harwain gan gyflogwyr, ac y mae disgwyl iddynt arwain at ehangu busnesau a buddsoddiad mawr sy'n arwain at greu swyddi o ansawdd da.

- Pwrpas Prosiectau Partneriaeth y Rhaglen Sgiliau Hyblyg yw helpu i sbarduno economi sgiliau ehangach Cymru, gan ganolbwyntio ar y sgiliau blaenoriaeth a nodwyd gan gyflogwyr yng Nghymru a chan gyrff sy'n cynrychioli diwydiant. Ar hyn o bryd, mae'r elfen Prosiectau Partneriaeth yn cynnwys 7 prosiect ar wahân: Sgiliau Sero Net, Coedwigaeth a Choed; Uwch Sgiliau Digidol; Uwch Beirianneg a Gweithgynhyrchu; y Sector Creadigol; Allforio; Twristiaeth a Lletygarwch.

Nid yw Llywodraeth Cymru yn contractio unrhyw ddarparwyr hyfforddiant, ac mae'n rhoi cyfle i gyfranogwyr enwi'r darparwr hyfforddiant mwyaf priodol.

### Cronfa Ddysgu Undebau Cymru

Mae Cronfa Ddysgu Undebau Cymru (WULF) wedi bod ar waith ers 25 mlynedd, gan ddarparu hyfforddiant i weithleoedd sy'n cydnabod undebau llafur drwy undebau sydd wedi sicrhau cyllid i gymryd rhan yn y rhaglen. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn darparu grant i TUC Cymru sy'n eu galluogi i ymgymryd â rhaglen waith sy'n cefnogi nifer o flaenoriaethau Llywodraeth Cymru gan gynnwys Gwaith Teg a Sero Net ac sy'n cefnogi rhaglen addysg i gynrychiolwyr undebau.

Ar gyfer blwyddyn ariannol 2024-25, gwnaed toriad o £1m i'r gyllideb ar gyfer y ddau grant. Yn 2025-26, rydym wedi dyrannu £0.250m ychwanegol fel rhan o'r gyllideb hon a fydd yn cael ei ailgyflwyno i gyllideb WULF a chynnydd o £0.250m ar gyfer TUC Cymru, a fydd yn cael ei gynnwys yn y BEL Cyflogadwyedd a Sgiliau, gan gynnwys BEL y Warant i Bobl Ifanc.

Cyfanswm y gyllideb ar gyfer y ddau grant gyda'i gilydd fydd £3,339,352.

## Dysgu Seiliedig ar Waith

### Y canlyniad gwirioneddol yn 2023-24 a'r rhagolwg o ran 2024-25 ar gyfer y rhaglen brentisiaethau

Canlyniad gwirioneddol 2023-24 i'r rhaglen Prentisiaethau oedd £186.94m (gan gynnwys £40.44m o Gronfa Gymdeithasol Ewrop). Y rhagolwg disgwyliedig i'r rhaglen hon yn 2024-25 yw £140.72m.

### Manylion unrhyw drosglwyddiadau o Gam Gweithredu Dysgu Seiliedig ar Waith 2025-26 i ariannu Gradd-brentisiaethau, gan gynnwys trosglwyddiadau a ragwelir yng nghyllideb atodol gyntaf 2025-26

Nid oes unrhyw drosglwyddiadau'n cael eu rhoi ar waith fel rhan o gyllideb ddrafft 2025-26 i gefnogi Gradd-brentisiaethau. Gan fod Medr bellach yn ei le, mae hyn yn cael ei ariannu'n uniongyrchol i Medr. Fodd bynnag, rhagwelir y bydd Medr yn parhau i gynnig dyraniad o'r cyllid y mae'n ei dderbyn o'r gyllideb Brentisiaethau o £4.111m i gefnogi prentisiaethau lefel Gradd.

### Manylion unrhyw gyllid a ddefnyddiwyd yn 2024-25 a rhagolwg o'r cyllid a fydd yn cael ei ddefnyddio yn 2025-26 i ddatblygu fframweithiau prentisiaeth newydd ac adolygu'r fframweithiau prentisiaeth presennol.

Erbyn hyn, mae Medr yn gyfrifol am ddatblygu fframweithiau prentisiaeth newydd a diwygiedig.

I sicrhau bod y ddarpariaeth prentisiaethau'n dal yn gyfredol ac yn berthnasol i anghenion cyflogwyr yng Nghymru, dyrannwyd £0.200m drwy gyllid Medr ar gyfer 2025-26. Mae hyn er mwyn datblygu ac adolygu'r Fframwaith. Bydd Medr yn cyhoeddi ei gylch adolygu Fframwaith cyn bo hir a fydd yn rhoi manylion am y fframweithiau penodol a fydd yn cael eu datblygu ar gyfer y flwyddyn ariannol hon.

### Manylion yr holl gyfyngiadau rheoli galw a chamau gweithredu sydd ar waith i reoli'r galw am brentisiaethau, neu a gaiff eu cyflwyno ar gyfer y rhaglen brentisiaeth yn ystod 2025-26

Erbyn hyn, mae Medr yn gyfrifol am reoli'r galw o ran darpariaeth gan ddarparwyr. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn cwrdd â chydweithwyr yn Medr bob mis i adolygu proffiliau gwariant. Mae Medr yn datblygu ei bolisi dyrannu ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf er mwyn bodloni Datganiad Polisi Prentisiaethau Llywodraeth Cymru. Bydd Medr yn rhoi blaenoriaeth i greu prentisiaethau cynhwysol o fewn sectorau blaenoriaeth Llywodraeth Cymru, yn edrych ar gyfleoedd i bobl ifanc 16-24 oed a grwpiau difreintiedig

ymgymryd â phrentisiaeth ac yn sicrhau bod prentisiaethau'n darparu digon o gynnydd i wella canlyniadau'r farchnad lafur. Mae Medr wedi datblygu rhaglen waith i adolygu'r holl fframweithiau prentisiaeth i sicrhau eu bod yn diwallu anghenion yr economi ac anghenion dysgwyr.

## Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol/Ymgysylltu â Chyflogwyr

Manylion y cyllid sydd i'w ddarparu i bob Partneriaeth Sgiliau Ranbarthol ac at ba ddiben

Rydym yn parhau i weithio gyda'r pedair Partneriaeth Sgiliau Ranbarthol i nodi blaenoriaethau sgiliau rhanbarthol ac is-ranbarthol. Mae Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol yn elfen ganolog o'r dirwedd sgiliau ranbarthol, gan ddarparu gwybodaeth am y farchnad lafur i Lywodraeth Cymru. Maent yn gweithio'n agos gyda chyflogwyr i nodi blaenoriaethau cyflogaeth a sgiliau. Yn ogystal, maent yn darparu ffocws ychwanegol ar feysydd polisi allweddol fel Sgiliau Digidol, Cymru Sero Net, y Gymraeg, Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ynghyd â blaenoriaethau strategol ar gyfer y sector addysg bellach a darparu prentisiaethau.

Ar ben hynny, rhoddwyd dyraniad cyllideb dangosol ychwanegol o £0.080m i'r Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol ym mlwyddyn ariannol 2025-26 (£0.020m i bob Partneriaeth) i ymgysylltu â'u partneriaid cyflenwi er mwyn helpu Llywodraeth Cymru i ddeall y farchnad bresennol o ran prosiectau a rhaglenni i gynorthwyo pobl ifanc, a sut gall prosiectau gyfrannu at y Warant i Bobl Ifanc.

## Partneriaeth Gymdeithasol a gwaith teg

Manylion dyraniadau sy'n ymwneud â gweithredu'r Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru), ac a yw'r rhain wedi newid o'r hyn a ragwelwyd yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol a gyhoeddwyd i lywio'r gwaith o graffu ar y Bil

Roedd yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn darparu dadansoddiad o'r costau dangosol sy'n gysylltiedig â gweithredu Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023 ("y Ddeddf"). Hyd yma, mae Rhan 1 (ac eithrio adrannau 9 a 10) a Rhan 2 wedi cael eu gweithredu.

Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol (CPG)

Ar gyfer blwyddyn ariannol 2023-24, gwariodd Llywodraeth Cymru £0.010m yn llai ar gostau pontio gan ein bod wedi cynnal gwefan y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol (presenoldeb digidol) ar lwyfan llyw.cymru yn hytrach na datblygu gwefan allanol.

Ar gyfer blwyddyn ariannol 2024-25, bydd y costau cylchol ychydig yn uwch na'r disgwyl gan y bydd pum cyfarfod yn cael eu cynnal yn lle'r tri sydd wedi'u costio yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Fodd bynnag, bydd hyn yn cael ei wrthbwyso gan y ffaith nad yw'r is-grwpiau a ragwelir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi cael eu sefydlu'n llawn eto.

Ar gyfer 2025-26, mae'r costau'n debygol o fod yn weddol gyson â'r rheini a nodir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol er bod hyn yn dibynnu ar faint o is-grwpiau y mae'r Cyngor yn dewis eu sefydlu.

### Dyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol

Mae costau gweithredu a gweinyddu'n cynnwys ymgysylltu â phartneriaid cymdeithasol ac mae'r costau staff eraill yn cyd-fynd â'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

Gostyngwyd y costau sy'n gysylltiedig â chynhyrchu canllawiau a chodi ymwybyddiaeth o'r Ddeddf mewn ymateb i bwysau ar y Gyllideb. Er ein bod wedi blaenoriaethu cyllid ar gyfer gweithgarwch a fydd yn sicrhau gweithrediad effeithiol, gwnaed arbedion drwy ail-lunio ein darpariaeth hyfforddiant, cynnal llai o ddigwyddiadau rhanbarthol ond rhai mwy i leihau costau a chynhyrchu adnoddau a deunyddiau yn fewnol. Rydym wedi parhau i flaenoriaethu cyllid ar gyfer gweithgareddau a fydd yn sicrhau gweithrediad effeithiol, gan gynnwys datblygu canllawiau a chyngor ar y dyletswyddau caffael; cyflwyno sesiynau hyfforddi a gweminarau ar bartneriaethau cymdeithasol a datblygu astudiaethau achos, offer ac adnoddau.

### Manylion ynghylch sut bydd y dyraniadau yn y gyllideb ddrafft yn cefnogi mentrau gwaith teg ac yn cefnogi mwy i dalu'r Cyflog Byw Gwirioneddol

Dyrannwyd £0.040m yn y BEL Partneriaeth Gymdeithasol ar gyfer 2025-26 i roi cyllid grant i Cynnal Cymru fel y partner Cyflog Byw Gwirioneddol achrededig yng Nghymru. Mae'r cyllid hwn yn rhoi hwb i'w gallu ac yn cefnogi eu gallu i ymgysylltu â chyflogwyr, cynyddu nifer y cyflogwyr achrededig yng Nghymru a hyrwyddo manteision cyffredinol y Cyflog Byw Gwirioneddol.

### Manylion unrhyw ddyraniadau a wnaed i gefnogi'r gwaith o roi'r strategaeth Gweithio o Bell ar waith.

Gweithio o Bell a dau ymrwymiad cysylltiedig y Rhaglen Lywodraethu i (a) datblygu canolfannau gweithio o bell mewn cymunedau a (b) ceisio cyflawni targed o 30% ar gyfer gweithio o bell.

O ystyried y dewisiadau anodd rydym wedi'u gwneud yn y gyllideb hon, nid oes hyblygrwydd ariannol yn y BEL Partneriaethau Cymdeithasol i ddarparu dyraniad penodol ar gyfer y gwaith hwn.

Fodd bynnag, ar lefel ymarferol, llwyddwyd i gyflawni ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu. Rydym wedi sefydlu rhwydwaith o ganolfannau gweithio o bell, wedi cyhoeddi canllawiau ac astudiaethau achos gweithio o bell, ac rydym yn monitro'r targed o 30% (gweler Dod o hyd i'ch canolfan gweithio o bell leol | LLYW.CYMRU; Astudiaethau achos gweithio o bell | LLYW.CYMRU; Cefnogi gweithio llwyddiannus o bell | Busnes Cymru; Mesurau allweddol M5 | Trafnidiaeth Cymru).

Mae'n amlwg bod angen gwaith parhaus i gynnal hyn i gyd ac, yn benodol, ehangu'r canolfannau, parhau i ymgysylltu â phartneriaid i ddylanwadu ar ymddygiad, a rhannu arferion da

# 3. Crynodeb

Cyflwynir dyraniadau'r Gyllideb Ddrafft Cyflogadwyedd, Prentisiaethau, Partneriaeth Gymdeithasol a Sgiliau ar gyfer 2025-26 i'r Pwyllgor eu hystyried.

# 4. Atodiadau

## Atodiad A – Sylwadau ar y Lefel Gweithredu ar gyfer unrhyw BEL sy'n berthnasol i'r Pwyllgor.

Adnoddau

Cam Gweithredu Prentisiaethau

Diogelwyd y gyllideb camau gweithredu Prentisiaethau a'r gyllideb ar gyfer 2025-26 yw £144m.

BEL Prentisiaethau

Mae'r gyllideb refeniw yn cefnogi'r gwaith o ddarparu'r rhaglen prentisiaethau. Mae prentisiaethau yn rhaglen statws cyflogedig sy'n darparu hyfforddiant uwchsgilio, trosglwyddadwy drwy rwydwaith o ddarparwyr Addysg Bellach a hyfforddiant preifat. Mae prentisiaethau yn Rhaglen i bobl o bob oed sy'n rhoi blaenoriaeth i ddysgwyr rhwng 16 a 24 oed, pobl sy'n newydd i fyd gwaith, a darpariaeth yn y sectorau hynny sy'n dod â'r budd mwyaf i economi Cymru, fel STEM, iechyd a gofal cymdeithasol, ac sy'n cefnogi ein huchelgais sero net.

Cam Gweithredu Cyflogaeth a Sgiliau

Bu cynnydd net o £8.238m yn y cam gweithredu ar gyfer 2025-26, gan roi cyllid gwerth cyfanswm o £112.2m ar gyfer y cam gweithredu, o'i gymharu â'r llinell sylfaen ddiwygiedig ar gyfer 2025-26. Mae'r cynnydd hwn yn ymwneud â £6.5m ychwanegol i gefnogi'r rhaglen sgiliau hyblyg, £0.250m ar gyfer Cronfa Ddysgu Undebau Cymru (WULF), £0.527m i gefnogi rownd nesaf dyfarniadau cyflog y sector cyhoeddus ar gyfer Gyrfa Cymru a gofyniad ychwanegol gwerth £0.930m nad yw'n arian parod ar gyfer lesoedd y rhoddwyd cyfrif amdanynt o dan IFRS 16 ac addasiadau cyfrifyddu ar gyfer dibrisiant asedau sefydlog yn Gyrfa Cymru.

BEL Cyflogadwyedd, gan gynnwys y Warant i Bobl Ifanc

Mae cyllideb y rhaglenni Cyflogadwyedd yn darparu rhaglenni i roi'r hyn sydd ei angen ar bobl i ddechrau, cynnal a dychwelyd i gyflogaeth mewn marchnad lafur sy'n newid drwy'r amser. Bydd yn sicrhau bod cymorth cyflogadwyedd ar gael er mwyn i bobl allu ffynnu a chyflawni eu potensial mewn economi ddigidol a sero net. Mae'r rhaglenni'n darparu ymrwymiad Gwarant i Bobl Ifanc y Rhaglen Lywodraethu i roi cymorth i bobl 16-24 oed gael mynediad at waith, addysg, hyfforddiant neu hunangyflogaeth ac sy'n cyflawni yn erbyn blaenoriaethau'r Prif Weinidog ar gyfer Swyddi a thwf Gwyrdd a rhoi cyfle i bob teulu. Mae cyflogaeth ddiogel a chynaliadwy sy'n talu'n dda yn rhoi llwybr allan o dlodi ac yn gwarchod

rhag tlodi, nid yn unig i'r unigolyn, ond i'w ddibynyddion ac i'r gymuned drwyddi draw. Mae hefyd yn cyflawni ymrwymiadau'r Cynllun Cyflogadwyedd a Sgiliau a'r diweddariad diweddar i Gynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol.

Mae'r gyllideb hefyd yn cefnogi'r ymrwymiadau i adeiladu ar lwyddiant Cronfa Ddysgu Undebau Cymru; cefnogi cynigion TUC Cymru i aelodau o undebau fod yn Gynrychiolwyr Gwyrdd yn y gweithle a chryfhau Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol. Mae'n hwyluso ymateb uniongyrchol i helpu busnesau unigol i dyfu drwy ddatblygu'r gweithlu ac mae'n darparu atebion ehangach, sy'n canolbwyntio ar y sector ac yn cael eu harwain gan gyflogwyr, i ymateb i anghenion sgiliau a nodwyd ym meysydd blaenoriaeth Llywodraeth Cymru, fel sero net a thechnoleg ddigidol, sy'n bwysig i economi Cymru.

Mae'r BEL hefyd yn rhoi cyllid i Gyrfa Cymru sy'n darparu gwasanaeth gwybodaeth, cyngor ac arweiniad gyrfaoedd a chyflogadwyedd cenedlaethol, diduedd a dwyieithog i bobl o bob oed yng Nghymru. Mae Gyrfa Cymru yn is-gwmni o dan berchnogaeth lwyr Llywodraeth Cymru. Mae'r cwmni'n cyflawni swyddogaethau Gweinidogion Cymru drwy ddarparu gwasanaeth gyrfaoedd, addysg a chyfarwyddyd cynhwysfawr i unigolion a sefydliadau, gan gysylltu addysg a busnes. Maen nhw'n gweithio gyda phob ysgol uwchradd, ysgolion arbennig, unedau atgyfeirio disgyblion a cholegau i gefnogi pobl ifanc i fod yn fwy effeithiol wrth gynllunio a rheoli eu gyrfaoedd mewn marchnad swyddi gymhleth sy'n newid yn gyson. Mae ein gwasanaeth Cymru'n Gweithio, sy'n cael ei ddarparu gan Gyrfa Cymru, yn darparu cyngor, arweiniad a hyfforddiant personol diduedd ar yrfaoedd a chyflogadwyedd i'r rheini sy'n 16 oed a hŷn, gan gynnwys y rheini sydd yn yr ystâd carchardai diogel ac sy'n ceisio noddfa. Mae Cymru'n Gweithio yn fodel hyblyg cenedlaethol sy'n gallu addasu i anghenion cwsmeriaid a heriau economaidd, ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol. Hefyd, dyma'r unig gymorth gyrfaoedd a chyflogadwyedd sydd ar gael i'r rheini sydd mewn cyflogaeth ledled Cymru, gan gynnwys contractau dim oriau.

Mae'r BEL hefyd yn darparu cyllid ar gyfer Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol sy'n cefnogi ymrwymiadau cyflogadwyedd a sgiliau trawsbynciol y Rhaglen Lywodraethu drwy sicrhau bod y ddarpariaeth sgiliau'n adlewyrchu anghenion cyflogwyr. Y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol yw sail fframweithiau prentisiaethau a chymwysterau galwedigaethol yng Nghymru. Mae'r Strategaeth Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol yn cefnogi'r cysyniad o ddysgu gydol oes a symudedd parhaus y gweithlu ar draws sectorau, rhanbarthau a chenhedloedd. Mae'r Safonau'n cefnogi'r blaenoriaethau a nodir yn y Genhadaeth Economaidd. Mae'r Safonau'n ymateb i newidiadau galwedigaethol a chymdeithasol; drwy ddadansoddi Gwybodaeth am y Farchnad Lafur mae'r system Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol yn nodi galwedigaethau sy'n dod i'r amlwg, rhai sydd â galw amdanynt a rhai sy'n dirywio, a newidiadau galwedigaethol sy'n digwydd oherwydd arferion gweithio, technolegau a deddfwriaeth newydd.

### BEL Cyflogadwyedd gan gynnwys y Warant i Bobl Ifanc – Nad yw'n arian parod

Mae'r BEL hwn yn cefnogi'r gyllideb dibrisiant flynyddol nad yw'n arian parod ar gyfer Gyrfa Cymru, sydd wedi cynyddu £0.930m i £2.3m yn 2025-26.

### Cam Gweithredu Partneriaeth Gymdeithasol

Ni fu unrhyw newid i gyllideb sylfaenol 2025-26 fel rhan o'r gyllideb ddrafft. Mae'r gyllideb yn parhau i fod yn £0.900m o'i gymharu â llinell sylfaen ddiwygiedig 2025-26.

### BEL Partneriaethau Cymdeithasol

Mae'r BEL Partneriaeth Gymdeithasol yn ariannu amryw o fentrau sy'n hyrwyddo ac yn gwreiddio'r ffordd o weithio mewn partneriaeth gymdeithasol, yn cefnogi uchelgeisiau Gweinidogion Cymru i wneud Cymru'n wlad o waith teg, a helpu Llywodraeth Cymru i chwarae ei rhan wrth fynd i'r afael â chaethwasiaeth fodern. Mae'r BEL hefyd yn cael ei ddefnyddio i wella capasiti ar draws Partneriaeth Gymdeithasol a Gwaith Teg, drwy roi cyllid rhaglen ar gyfer rhai swyddi a hefyd secondiadau sy'n cael eu recriwtio gan bartneriaid cymdeithasol.

## Cyfalaf

### Cam Gweithredu Cyflogadwyedd gan gynnwys y Warant i Bobl Ifanc

Ni fu unrhyw newid i'r gyllideb derfynol a ailddatganwyd ym mis Medi 2024. Mae'r buddsoddiad cyfalaf blynyddol o £2m yn cefnogi gweithgarwch Gyrfa Cymru i'r strategaeth TG ac ystadau gyd-fynd â Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040. Bydd datblygiad amgylcheddol strategol a chynaliadwyedd yn cael eu cynnwys yn y strategaeth ofodol newydd gan ganolbwyntio ar y meysydd twf cenedlaethol a rhanbarthol drwy fabwysiadu'r dull gweithredu 'Canol trefi yn gyntaf'.

## Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME)

Nid yw cyllideb Gwariant a Reolir yn Flynyddol o £12m wedi newid ac mae'n darparu yswiriant ar gyfer ffioedd sydd y tu hwnt i reolaeth y portffolio. Nod y £12m a ddyrannwyd yw cefnogi amrywiadau prisio pensiynau ar gyfer Gyrfa Cymru. Cytunir ar y gyllideb hon gyda'r Trysorlys bob blwyddyn ac fe'i cyllidir yn llawn. Mae ffigurau'r Gyllideb Ddrafft Gwariant a Reolir yn Flynyddol yn adlewyrchu'r rhagolygon a gyflwynwyd i'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ym mis Medi 2024.

Llywodraeth Cymru

# Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

## Papur Tystiolaeth ar Gyllideb Ddrafft 2025-26 – Prif Grŵp Gwariant yr Economi, Ynni a Chynllunio

15/01/2025

www.llyw.cymru

Mae'r papur hwn yn rhoi gwybodaeth am gynigion cyllideb yr Economi, Ynni a Chynllunio, sy'n berthnasol i'r Pwyllgor hwn, fel yr amlinellir yng Nghyllideb Ddrafft 2025-26 a gyhoeddwyd ar 10 Rhagfyr.  Mae hefyd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am feysydd sydd o ddiddordeb penodol i'r Pwyllgor. Mae'r Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol yn craffu ar y gweithgarwch Diwylliant, y Celfyddydau a Chwaraeon ar 16 Ionawr ac mae'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith yn craffu ar y gweithgarwch Effeithlonrwydd Ynni, Cynllunio a Phorthladdoedd ar 8 Ionawr. Yn ogystal, mae'r cyllidebau ar gyfer Prentisiaethau, Cyflogaeth, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol wedi'u cynnwys yn y dystiolaeth a ddarparwyd i'r Pwyllgor hwn gan y Gweinidog dros Ddiwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol, felly nid yw'r dystiolaeth hon yn cynnwys y cyllidebau hyn i osgoi dyblygu.

## Cynnwys

**Cyflwyno'r Gyllideb ....... 4**

**Dadansoddiad o Gyllideb Ddrafft 2025-26 ....... 4**

Sylfaen Dystiolaeth ar gyfer Penderfyniadau ynghylch y Gyllideb ....... 6

Disgrifiad o Bolisïau a Rhaglenni yn ôl Llinell Wariant yn y Gyllideb ....... 7

Y Broses ar gyfer Monitro Cyllidebau ....... 7

Adroddiadau Gwerthuso ....... 7

Dyraniadau'r Gyllideb – Pedair Blaenoriaeth mewn Cenhadaeth Economaidd ....... 11

Effaith Cynnydd mewn Costau Byw a Chostau Gwneud Busnes ....... 11

Goblygiadau sy'n ymwneud â'r Cyfnod Pontio o'r UE ....... 13

Rhoi'r Ddeddfwriaeth ar Waith ....... 14

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ....... 14

Cydraddoldeb, Cynaliadwyedd a'r Gymraeg – Asesiadau Effaith ar y Gymraeg ....... 15

Effaith Amddifadedd a Thlodi ....... 16

Newidiadau Demograffig – Poblogaeth sy'n Heneiddio ....... 17

**Gwariant Ataliol ....... 17**

**Llinellau Gwariant Unigol yn y Gyllideb ....... 19**

**Meysydd Penodol ....... 19**

Yr Economi ....... 19

Ymchwil, Datblygu ac Arloesi ....... 34

Masnach ....... 36

**Atodiadau ....... 38**

Atodiad A – Llinellau Gwariant y Gyllideb – Prif Grŵp Gwariant yr Economi, Ynni a Chynllunio ....... 38

Atodiad B – Sylwadau ar Gamau Gweithredu – MEG yr Economi, Ynni a Chynllunio ........ 47

# Cyflwyno'r Gyllideb

## Dadansoddiad o Gyllideb Ddrafft 2025-26

Mae'r tabl isod yn rhoi trosolwg o gynlluniau Prif Grŵp Gwariant (MEG) yr Economi a gyhoeddwyd yng Nghyllideb ddrafft 2025-26 ar 10 Rhagfyr. Mae hyn yn cadarnhau cynnydd o £37.793m mewn adnoddau cyllidol (refeniw gan gynnwys arian parod) a chyfalaf cyffredinol o £137.955m o'i gymharu â llinell sylfaen ddiwygiedig 2025-26.

| 2025-26 | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| MEG yr Economi, Ynni a Chynllunio - Crynodeb | Cynlluniau yn unol â Chyllideb Derfynol 2024-25 a Ailddatganwyd Medi 2024 | Addasiadau i'r Llinell Sylfaen | Llinell sylfaen ddiwygiedig 2025-26 | Newidiadau | Cyllideb Ddrafft (Rhagfyr 2024) |
| | £000oedd | | | | |
| Adnodd cyllidol (refeniw) | 454,031 | 1,845 | 455,876 | 37,793 | 493,669 |
| Cyfalaf | 231,314 | -25,615 | 205,699 | 137,955 | 343,654 |
| Cyfanswm yr Adnoddau a'r Cyfalaf | 685,345 | -23770 | 661,575 | 175,748 | 837,323 |
| Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME) | 58,525 | 0 | 58,525 | 8,000 | 66,525 |
| Cyfanswm AME | 58,525 | 0 | 58,525 | 8,000 | 66,525 |
| Cyfanswm – MEG yr Economi, Ynni a Chynllunio | 743,870 | -23,770 | 720,100 | 183,748 | 903,848 |

Y llinell sylfaen a ddefnyddir ar gyfer Cyllideb Ddrafft 2025-26 yw Cyllideb Derfynol 2024-25 (a ailddatganwyd ym mis Medi 2024). Addaswyd y llinell sylfaen ar gyfer addasiadau llinell sylfaen rheolaidd ar gyfer blwyddyn ariannol 2024-25 i gefnogi

dyfarniad cyflog y sector cyhoeddus 2024-25 a chynnydd mewn cyfraniadau pensiwn o fis Ebrill 2024 ymlaen oherwydd newid mewn cyfradd sy'n cael ei alw'n Gyfraniadau Pensiwn wedi'u Haddasu ar sail Profiad Blaenorol (SCAPE). Yn ogystal â'r cyflog, mae addasiadau sylfaenol pellach yn gysylltiedig â chyllid anghylchol ar gyfer Cyfalaf Trafodiadau Ariannol (FT).

*Adnoddau cyllidol , refeniw gan gynnwys refeniw nad yw n arian parod«*

Caiff cyllid refeniw rheolaidd ychwanegol o £19m ei ddyrannu i MEG yr Economi, Ynni a Chynllunio ym mlwyddyn ariannol 2025-26. Dyrannwyd £18.8m ychwanegol o'r cronfeydd canolog ar gyfer 2025-26 ar gyfer arian nad yw'n arian parod, sy'n cynnwys costau dibrisiant sy'n gysylltiedig â lesoedd y rhoddir cyfrif amdanynt o dan IFRS16, a fabwysiadwyd o 1 Ebrill 2022 ymlaen. Hyd yma, ffurfiolwyd y trosglwyddiadau hyn fel rhan o gyllideb atodol.

*Cyfalaf*

Fel rhan o'r gyllideb hon, bu cynnydd net o £137.955m yn y cyfalaf i MEG yr Economi, Ynni a Chynllunio yn 2025-26, a bydd £88.5m o hyn yn parhau i gefnogi ein gweithgarwch bargeinion dinesig a thwf. Buddsoddwyd £33m arall er mwyn targedu ein blaenoriaethau allweddol o ran sicrhau swyddi a thwf gwyrdd.

Dyrannwyd £29.5m o gyllid cyfalaf o gronfeydd canolog i gefnogi ein prosiect Morglawdd Caergybi gwerth £20m, a £9.5m ar gyfer prosiectau Banc Datblygu Cymru. Cafwyd gostyngiad o £13m sy'n adlewyrchu'r proffiliau ad-dalu y cytunwyd arnynt mewn perthynas â benthyciadau a roddwyd mewn blynyddoedd blaenorol.

*Gwariant a Reolir yn Flynyddol ?AME*

Mae cyllideb Gwariant a Reolir yn Flynyddol wedi cynyddu £8m o'i gymharu â llinell sylfaen ddiwygiedig 2025-26. Mae'r gyllideb Gwariant a Reolir yn Flynyddol yn talu am gostau sydd y tu hwnt i reolaeth y portffolio, fel amhariadau yn y portffolio eiddo, amrywiadau ym mhrisiadau pensiynau ar gyfer Amgueddfa Cymru, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Chwaraeon Cymru a Gyrfa Cymru. Cytunir ar y gyllideb hon gyda'r Trysorlys bob blwyddyn ac fe'i cyllidir yn llawn. Mae ffigurau'r Gyllideb ddrafft Gwariant a Reolir yn Flynyddol yn adlewyrchu'r rhagolygon a gyflwynwyd i'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ym mis Medi 2024.

Ar gais y Pwyllgor, darperir dadansoddiad o Gyllideb Ddrafft 2025-26 yn ôl Maes Rhaglen Wariant, Cam Gweithredu a Llinell Wariant yn y Gyllideb, gan gynnwys cymhariaeth 2024-25 yn Atodiad A.

## Sylfaen Dystiolaeth ar gyfer Penderfyniadau ynghylch y Gyllideb

Rydym wedi dyrannu ein hadnoddau o fewn y gyllideb hon i sicrhau ein bod yn cyflawni yn erbyn blaenoriaethau'r Prif Weinidog i gefnogi swyddi a thwf gwyrdd, gan gynnwys gwella'r system gynllunio.

Ym mis Tachwedd 2023, fe wnaethom lansio ein Cenhadaeth Economaidd ar ei newydd wedd. Mae angen i ni ymateb i heriau tarfu byd-eang, chwyddiant, cyfraddau llog a chostau ynni, ac mae ein Cenhadaeth Economaidd newydd yn nodi pedair blaenoriaeth a fydd yn siapio sut gall Cymru ymateb i ansicrwydd a manteisio ar gyfleoedd newydd:

- **Trawsnewid cyfiawn a Ffyniant Gwyrdd** – Gwireddu'r cyfleoedd economaidd Sero Net enfawr ac ymgysylltu â busnesau a phobl i symud tuag at drawsnewid cyfiawn.
- **Llwyfan ar gyfer pobl ifanc, gwaith teg, sgiliau a llwyddiant** – Cefnogi pobl ifanc i gael dyfodol uchelgeisiol yng Nghymru. Rhoi blaenoriaeth i'w sgiliau a'u creadigrwydd.
- **Partneriaethau cryfach ar gyfer rhanbarthau cryfach a'n heconomi bob dydd** – Gweithio gyda'r rhanbarthau i gytuno ar set lai o flaenoriaethau ar gyfer twf, swyddi lleol a buddsoddiad mawr. Cydweithio newydd i hybu'r achos dros fuddsoddi gan y DU mewn prosiectau sy'n denu llawer o fuddsoddiadau ac yn cefnogi swyddi teg sy'n cydnabod undebau llafur mewn meysydd fel Niwclear, Gwynt ar y Môr a Thechnoleg.
- **Buddsoddi ar gyfer Twf** - Byddwn yn gweithio mewn partneriaeth i ganolbwyntio ar ein cryfderau cydnabyddedig i hybu buddsoddiad a thwf sy'n gwobrwyo gwaith teg a gweithredu ar gyfer y tymor hir. Bydd ein Strategaeth Arloesi newydd sy'n seiliedig ar genhadaeth yn targedu buddsoddi newydd mewn tirwedd ôl-UE, gan gefnogi masnacheiddio, ymchwil a datblygu ac entrepreneuriaeth.

Bydd y blaenoriaethau hyn yn siapio sut rydym yn ystyried buddsoddiad, polisïau a rhaglenni ar draws yr economi. Mae cynigion y gyllideb ar gyfer portffolio'r Economi, Ynni a Chynllunio wedi'u halinio i gefnogi'r strategaeth newydd hon.

Rydym wedi ymrwymo i gynnal cyfres o ymarferion trylwyr yn 2025, a fydd yn ceisio edrych ar gyfleoedd i gyflawni yn erbyn themâu penodol ar draws y blaenoriaethau, gan ddefnyddio dull llywodraeth gyfan a phartneriaeth.

I'r perwyl hwnnw, rydym wedi buddsoddi £6.531m o gyllid refeniw ychwanegol yn 2025-26 i gefnogi ein Rhaglen Sgiliau Hyblyg, dull allweddol o uwchsgilio gweithwyr a chynyddu cynhyrchiant a throsiant busnesau, yn enwedig mewn sectorau sy'n gysylltiedig â datgarboneiddio. Roedd yr adroddiad gwerthuso ar gyfer y Rhaglen Sgiliau Hyblyg, a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf, yn ei ddisgrifio fel 'rhaglen enghreifftiol a dylai Llywodraeth Cymru geisio efelychu'r math hwn o

ddull gweithredu yn ehangach ar draws ei rhaglenni cyllido eraill sydd wedi'u cynllunio i gefnogi anghenion busnesau yng Nghymru'.

## Disgrifiad o Bolisïau a Rhaglenni yn ôl Llinell Wariant yn y Gyllideb

Darparwyd sylwebaeth sy'n egluro'r newidiadau i bob Cam Gweithredu a llinell wariant yn y gyllideb o fewn y MEG, sy'n berthnasol i'r Pwyllgor hwn, yn Atodiad B hefyd. Darparwyd esboniad naratif tryloyw i egluro'r cynnydd a'r gostyngiadau, lle nad ydynt wedi cael sylw yn y papur tystiolaeth. Dim ond i'r cyllidebau sy'n cael eu craffu arnynt fel rhan o'r pwyllgor hwn y mae hyn yn berthnasol. Nid yw cyllidebau Prentisiaethau, Cyflogadwyedd, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol wedi cael eu cynnwys gan fod y meysydd hyn wedi cael eu cyflwyno yn y dystiolaeth a ddarparwyd gan y Gweinidog dros Ddiwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol ar gyfer y Pwyllgor hwn.

## Y Broses ar gyfer Monitro Cyllidebau

Bydd pob cyllideb yn dal i gael ei monitro a'i herio'n fisol yn ystod blwyddyn ariannol 2024-25, er mwyn ystyried y rhagolygon diweddaraf a symudiadau cyllideb yn ôl yr angen. Rwyf yn cael y newyddion ariannol diweddaraf yn rheolaidd ynghylch y rhagolygon ar gyfer fy mhortffolio i sicrhau bod cyllidebau'n aros ar y trywydd iawn i gyflawni fy mlaenoriaethau. Rydym yn parhau i fonitro'n agos iawn i sicrhau bod cyllid yn cael ei fuddsoddi lle mae mwyaf ei angen, gan gefnogi ein blaenoriaethau.

Mae elfennau sylweddol o weithgarwch a wneir yn y MEG yr Economi, Ynni a Chynllunio yn dibynnu ar ffactorau allanol, sy'n amrywio o facro-economeg i'r galw a hyd yn oed y tywydd. Rhaid i'n gwasanaethau, fel Busnes Cymru, addasu i newidiadau yn yr economi, a gall newidiadau yn y galw am raglen effeithio ar gynlluniau fel ein darpariaeth yn y rhaglenni Cyflogaeth a Sgiliau, yn enwedig yng nghyd-destun cynllunio cyllideb flynyddol. Mae hyn yn golygu bod cynllunio ac ailflaenoriaethu effeithiol yn hanfodol. Wrth gwrs, mae hyn yn golygu y gall ffactorau sydd y tu hwnt i reolaeth Llywodraeth Cymru effeithio ar wariant, ond mae fy swyddogion yn monitro cynlluniau'n agos i gytuno ar opsiynau a chynigion ar gyfer camau unioni er mwyn rheoli gwariant net ar lefelau'r gyllideb.

## Adroddiadau Gwerthuso

*Manylion unrhyw adroddiadau-adolygiadau gwerthuso rhaglenni neu bolisi sydd wedi llywio newidiadau i r gyllideb ddrafft i helpu i sicrhau gwerth am arian*

Mae tystiolaeth o amrywiaeth eang o ffynonellau yn sail i'n penderfyniadau ariannol, fel ymchwil a gyhoeddwyd, gwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid, ystadegau

a gwerthusiadau polisi blaenorol. Mae hyn yn rhan annatod o'r broses o wneud penderfyniadau, er enghraifft:

- Ochr yn ochr â'r Adroddiad Gwerthuso Rhaglen Sgiliau Hyblyg uchod, yn gynharach eleni fe wnaethom gynnal ymgynghoriad Sgiliau Sector Sero Net ac, yn yr haf, fe wnaethom gyhoeddi crynodeb o'r ymatebion ochr yn ochr â Chrynodebau Sgiliau Sector Allyriadau a'r Mapiau Sgiliau Sector Allyriadau drafft. Mae'r rhain yn cryfhau ein dealltwriaeth o'r sefyllfa sgiliau bresennol a'r heriau sgiliau ar gyfer pob sector allyriadau yng Nghymru ac yn darparu sylfaen dystiolaeth newydd ar gyfer Llywodraeth Cymru a Medr.

- Cynhyrchir amrywiaeth ehangach o wybodaeth sy'n ymwneud â chyflogadwyedd a sgiliau. Mae'r rhain yn cynnwys yr Arolwg Sgiliau Cyflogwyr, sydd ar hyn o bryd yn ei gylch dadansoddi ac adrodd ar gyfer arolwg 2022, gydag arolwg 2024 yn mynd rhagddi ar hyn o bryd. Mae hyn yn rhoi gwybodaeth fanwl am y gofynion o ran sgiliau y mae cyflogwyr yn eu hwynebu a sut y maent yn mynd i'r afael â'r gofynion hynny. Cynhyrchwyd crynodeb Cymru o'r rhagamcanion cyflogaeth Hanfodion Sgiliau 2035, gan roi barn ar ble mae data'n awgrymu y bydd y galw mwyaf ar y farchnad lafur yn y dyfodol. Bydd hwn yn cael ei gyhoeddi ddechrau 2025 ac mae gwaith yn mynd rhagddo i ddadansoddi sut mae hyn yn cysylltu â gofynion sgiliau o'r Arolwg Sgiliau Cyflogwyr, gan dynnu sylw at y meysydd lle bydd y galw mwyaf yn y dyfodol. Mae swyddogion yn edrych ar sut y gellid bwrw ymlaen ag archwiliad sgiliau ehangach i Gymru yn 2025-26 a fyddai'n adeiladu ar y dadansoddiad hwn ac yn cyflwyno rhagor o dystiolaeth i bennu blaenoriaethau Cymru o ran sgiliau.

- Cyhoeddwyd adolygiad cyflym o dystiolaeth ar gefnogi pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant i wireddu eu nodau ym mis Ionawr 2024, gan ddarparu tystiolaeth i gefnogi'r gwaith o ddatblygu polisïau, yn enwedig y Warant i Bobl Ifanc. Mae'r gwaith maes ar yr archwiliad diweddaraf (tudalen 23) o Astudiaeth Carfan y Mileniwm yn tynnu at ei derfyn a bydd yn cyhoeddi adroddiad ddiwedd 2025, gan roi golwg hydredol ar y prif bwyntiau trosglwyddo y mae pobl ifanc yn eu gwneud yn eu bywydau, gan gynnwys y rheini sy'n ymwneud ag addysg a chyflogaeth.

- Rydym wedi cyhoeddi'r camau rydym wedi'u cymryd mewn ymateb i gam un y Sgwrs Genedlaethol ar y Warant i Bobl Ifanc (cyfres o arolygon a grwpiau ffocws gyda phobl ifanc 16-24 oed am eu profiadau addysg a chyflogaeth, a gynhaliwyd mewn tri cham rhwng 2022 a 2023) ar ein gwefan. Mae'r camau gweithredu'n cynnwys ymestyn yr ystod oedran cymwys i gofrestru ar gyfer rhaglen Twf Swyddi Cymru+ i 19 oed a dyblu cyfradd y Lwfans Hyfforddi i £60; lwfans prydau bwyd am ddim newydd; a chaniatáu hawlio 100% o gostau teithio dros dro (os ydych chi'n ymgymryd â hyfforddiant). Bydd yr adroddiadau ar gamau dau a thri yn cael eu cyhoeddi yn y flwyddyn newydd.

- Mae gwerthusiad cychwynnol newydd gael ei gwblhau ar raglen Twf Swyddi Cymru+ sy'n dangos bod 89% o bobl ifanc wedi dweud bod y cymorth a roddwyd gan y rhaglen wedi bodloni neu ragori ar eu disgwyliadau, wedi cefnogi eu datblygiad gyrfa a bod eu hanghenion unigol wedi cael eu hystyried gan arwain at weithgareddau hyfforddi a datblygu wedi'u teilwra. Dywedodd 97% o'r bobl ifanc fod rhaglen Twf Swyddi Cymru+ wedi gwella eu rhagolygon gwaith, gyda 91% o bobl ifanc yn dweud bod y rhaglen wedi gwella eu rhagolygon o ran cyflogau yn y dyfodol.

- Yn ogystal â'r gwerthusiadau uchod o'r rhaglen, mae gwerthusiad proses yn cael ei gynnal ar y Warant i Bobl Ifanc, a disgwylir iddo adrodd yn ôl yn ystod gwanwyn 2025.

- Mae Ysgol Busnes Caerdydd wedi cynnal astudiaeth effaith o wasanaeth Busnes Cymru:

Craidd a thwf Busnes Cymru (lefelau 1-4):

- Gallai'r swyddi ychwanegol sydd wedi cael eu creu/gweithgarwch fod yn gysylltiedig ag amcangyfrif o £380m o werth ychwanegol gros y flwyddyn.
- Gellir cysylltu pob £1 a fuddsoddir ag oddeutu £10 o gynnydd net yn y gwerth ychwanegol gros bob blwyddyn.
- Amcangyfrifir y byddai 7,234 o'r 14,471 o swyddi sydd wedi cael eu creu, hynny yw tua hanner y canlyniadau cyflogaeth, wedi gallu digwydd heb ymyriad Busnes Cymru o bosibl. Amcangyfrifir bod y swyddi net (ychwanegol) yn gysylltiedig ag oddeutu £380m o werth ychwanegol gros.
- Amcangyfrifir mai £0.256m yw'r gost fesul swydd sy'n cael ei chreu. Ar ôl ystyried ychwanegedd, £0.513m yw'r gost fesul swydd net sy'n cael ei chreu.
- Gallai cyfanswm y gweithgarwch o dan raglenni craidd a thwf Busnes Cymru fod yn gysylltiedig â £646m o werth ychwanegol gros.
- Mae'r gyfradd goroesi pedair blynedd yn 67% o'i chymharu â 33% ar gyfer sampl gyfatebol o fusnesau a oedd heb gael cymorth.

Rhaglen Cyflymu Twf Busnes Cymru:

- Mae'r cyfanswm o 9,755 o swyddi gros wedi'u creu yn golygu tua 5,332 o swyddi net – hynny yw, mae'n bosibl y gallai tua 45% o'r canlyniadau cyflogaeth fod wedi digwydd heb ymyriad Rhaglen Cyflymu Twf Busnes Cymru. Amcangyfrifir bod y swyddi net hyn yn gysylltiedig ag oddeutu £410m o werth ychwanegol gros.
- Amcangyfrifir mai £0.233m yw'r gost fesul swydd gros sy'n cael ei chreu. Ar ôl ystyried ychwanegedd, amcangyfrifir mai £0.426m yw'r gost net fesul swydd sy'n cael ei chreu.

- Amcangyfrifir bod y gweithgarwch/swyddi ychwanegol sydd wedi cael eu creu yn dod i £410m o werth ychwanegol gros y flwyddyn.
- Gellir cysylltu pob £1 a fuddsoddir ag oddeutu £18 o gynnydd net yn y gwerth ychwanegol gros bob blwyddyn.
- £377m o fuddsoddiad busnes yn gysylltiedig â throsiant rhagamcanol o £5.99bn.
- Mae'r gyfradd goroesi pedair blynedd ymysg busnesau sydd wedi cael cymorth gan y Rhaglen Cyflymu Twf yn 77.4% o'i chymharu â 32.7% ar gyfer sampl gyfatebol o fusnesau a oedd heb gael cymorth.

- Mewn perthynas â'r **Cynllun Gweithredu Allforio**, rydym wedi comisiynu gwerthusiad allanol i asesu effeithiolrwydd y Cynllun o safbwynt ei nodau, ei weithrediad, a'i effaith ar ddyheadau allforio Cymru. Disgwylir i'r adroddiad hwn gael ei gyhoeddi erbyn haf 2025. Cyhoeddwyd y Cynllun Gweithredu Allforio ym mis Rhagfyr 2020 a, rhwng dechrau'r flwyddyn ariannol ganlynol ym mis Ebrill 2021 a diwedd mis Hydref 2024, o ganlyniad uniongyrchol i ymyriadau'r rhaglen, mae Tîm Allforio Llywodraeth Cymru wedi adrodd ar yr allbynnau canlynol:
- 4,303 o gyfarfodydd un-i-un rhwng Cynghorwyr Masnach Ryngwladol arbenigol Llywodraeth Cymru a busnesau yng Nghymru.
- Sicrhawyd £309m o werthiant allforio o ganlyniad uniongyrchol i gymorth allforio Llywodraeth Cymru.
- Nodwyd gwerth bron i £700m o gyfleoedd allforio gan fusnesau Cymru.
- Cyflwynwyd 63 o deithiau masnach tramor, gan gefnogi 540 o gynadleddwyr.
- Cyflwynwyd 327 o brosiectau rhaglenni allforio, a oedd yn cwmpasu'r rhaglenni ymchwil i'r farchnad allforio Datblygu Masnach Ryngwladol a Chyfleoedd Masnach Ryngwladol.
- Darparwyd 437 o grantiau Ymweliadau Tramor i Ddatblygu Busnes i fusnesau bach a chanolig yng Nghymru er mwyn iddynt ymweld â marchnadoedd rhyngwladol a sioeau masnach a'u harchwilio.
- 65 o ddigwyddiadau allforio yng Nghymru a oedd yn darparu cymorth i fusnesau ac wedi cefnogi 1,917 o gynrychiolwyr i feithrin eu gallu i allforio. Mae hyn yn cynnwys 5 Cynhadledd Archwilio Allforio Cymru yng Ngogledd a De Cymru, gan weithio'n agos gyda phartneriaid ar draws Ecosystem Allforio Cymru.
- Darparwyd 4 carfan o'r Rhaglen Allforwyr Newydd, gan gefnogi 54 o fusnesau drwy'r rhaglen.
- Darparwyd 5 Clwstwr Allforio gyda 224 o gwmnïau'n aelodau ohonynt ar draws sectorau blaenoriaethau allforio yng Nghymru.

## Dyraniadau'r Gyllideb – Pedair Blaenoriaeth mewn Cenhadaeth Economaidd

*Sut mae dyraniadau cyllideb drafft yn berthnasol i bob un o bedair blaenoriaeth y Genhadaeth Economaidd} blaenoriaethau ar gyfer economi gryfach*

Mae'r Rhaglen Lywodraethu yn ymrwymo i adeiladu 'economi sy'n seiliedig ar egwyddorion gwaith teg, cynaliadwyedd a diwydiannau a gwasanaethau'r dyfodol a chreu 100,000 o brentisiaethau i bobl o bob oed' ac mae'n gwneud 'ymrwymiad parhaus i ddysgu gydol oes'. Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (SGC) yw'r sail i gymwysterau galwedigaethol a fframweithiau prentisiaethau yng Nghymru. Mae'r Safonau'n cyd-fynd â blaenoriaethau'r Prif Weinidog. Mae'r Safonau'n cefnogi'r blaenoriaethau a nodir yn y Genhadaeth Economaidd. Mae'r Safonau'n ymateb i newidiadau galwedigaethol a chymdeithasol; drwy ddadansoddi Gwybodaeth am y Farchnad Lafur mae'r system Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol yn nodi galwedigaethau sy'n dod i'r amlwg, rhai sydd â galw amdanynt a rhai sy'n dirywio, a newidiadau galwedigaethol sy'n digwydd oherwydd arferion gweithio, technolegau a deddfwriaeth newydd.

## Effaith Cynnydd mewn Costau Byw a Chostau Gwneud Busnes

*Goblygiadau r cynnydd mewn costau byw a chostau gwneud busnes ar raglenni a dyraniadau cyllideb*

Mae'r argyfwng costau byw wedi deillio o ddatblygu economaidd macro a micro cyflym, dwys, sy'n cael ei yrru gan chwyddiant, ac mae'r effeithiau wedi cael eu teimlo gan unigolion, aelwydydd a chymunedau, yn enwedig y rheini sydd ag incwm isel ers diwedd 2021.

Mae'r argyfwng costau byw sy'n parhau yn dal i roi pwysau ar ein rhwydwaith darparwyr prentisiaethau sydd wedi dweud bod costau darparu yn cynyddu'n unol â chwyddiant.

Ym mlwyddyn gontract 2022/23, mewn ymateb i'r argyfwng costau byw, rhoddwyd cynnydd o 5% ar waith o ran costau fframwaith ar gyfer Prentisiaethau – mesur a gafodd groeso mawr gan y rhwydwaith. Yn 2023/24 rhoddwyd cynnydd pellach o 5% ar waith i gostau fframwaith, i gydnabod yr argyfwng costau byw parhaus, yn unol â chynnydd tebyg yn y sector ôl-16. Roedd hyn yn berthnasol i'r gwaith o ddarparu prentisiaethau rhwng Lefelau 2 a 5 o ddechrau blwyddyn contract 2023/24 (1 Awst 2023). Ar gyfer 2024/25, rhoddwyd cynnydd pellach o 3.5% ar waith am yr un rhesymau er gwaethaf pwysau parhaus ar y gyllideb. Bydd hyn yn helpu i roi sefydlogrwydd i'r rhwydwaith gan ei alluogi i fod yn fwy cadarn drwy gefnogi'r gwaith o gadw staff a chynorthwyo ei allu i gyflawni'r contract. Rydym yn buddsoddi £144m i gefnogi ein rhaglen brentisiaethau yn y gyllideb hon.

Bydd Medr yn monitro’r pwysau parhaus sy’n gysylltiedig â chost darparu’r gwasanaeth prentisiaethau ac yn cael eu goruchwylio gan Lywodraeth Cymru hyd at 2025/26. Bydd unrhyw gynnydd pellach i gostau fframwaith yn effeithio ar nifer y prentisiaid sy’n gallu cael mynediad at y ddarpariaeth. Byddwn yn gweithio gyda’r sector prentisiaethau a Medr wrth i sefyllfa 2025/26 ddod i’r amlwg gyda’r nod o gynnal cynnyrch prentisiaeth o safon.

O ystyried effaith costau byw ar fusnesau bach a chanolig ar draws Cymru, mae Busnes Cymru yn cefnogi’r rheini sy’n wynebu ansicrwydd oherwydd yr argyfwng costau byw drwy gyfuniad o gymorth busnes ar-lein, dros y ffôn, 1-i-lawer ac 1-i-1, a hynny’n cael ei deilwra yn ôl anghenion y cleient a gwahanol ranbarthau Cymru, yn dibynnu ar ofynion lleol. Mae’r gwasanaeth cynghori’n ymdrin â phob agwedd i helpu gyda materion costau byw, yn cynnwys meysydd fel ynni a gwastraff hyd at fesurau effeithlonrwydd dŵr. Rydym yn buddsoddi £22.4m o gyllid refeniw yn y gyllideb hon i gefnogi ein rhaglen Busnes Cymru.

Dangosodd yr argyfwng ynni ar draws ein heconomi i ni pa mor bwysig yw cael ffynhonnell ynni ddibynadwy, fforddiadwy a glân. Mae ein cyllideb yn darparu cyllid i gefnogi cyflymiad mewn ynni adnewyddadwy drwy ariannu Trydan Gwyrdd Cymru ac Ynni Cymru. Bydd y cyllid hwn yn rhoi cefnogaeth uniongyrchol i fwy o ynni adnewyddadwy yng Nghymru a fydd yn cefnogi’r economi ac aelwydydd fel ei gilydd.

Wrth ddarparu gweithgarwch dramor, mae costau (gan gynnwys costau teithio, ffioedd cyfranogi ar gyfer digwyddiadau, costau llety ac ati) i gyd wedi cynyddu oherwydd pwysau chwyddiant. Mewn termau real, mae hyn yn effeithio ar lefel y gweithgarwch y gellir ei gyflawni a’r cymorth busnes sydd ar gael.

Mae'r gostyngiad yn nifer y myfyrwyr rhyngwladol a'r lefel uwch o gyllid ffioedd dysgu y mae'r rhain yn ei gynhyrchu ar gyfer prifysgolion (a'r traws-gymhorthdal ar gyfer ymchwil, datblygu ac arloesi) yn cael effaith ar lefel y gweithgarwch ymchwil y gall prifysgolion ei gynnal. Mae hyn yn cael ei waethygu gan gostau cynyddol eraill i gyflogwr yn y sector Addysg Uwch (e.e. cyfraniadau Yswiriant Gwladol cyflogwyr, setliadau cyflog uwch) sydd wedi golygu bod sefydliadau Addysg Uwch yn wynebu diffygion yn y gyllideb a fydd yn anochel yn arwain at golli swyddi a llai o weithgarwch ymchwil, datblygu ac arloesi.

O ganlyniad i’r argyfwng costau byw, rydym yn gweld lefelau cynyddol o dlodi mewn teuluoedd sy’n gweithio. Fodd bynnag, cyflogaeth yw’r ffactor pwysicaf o hyd o ran helpu unigolion i gymryd camau i symud allan o dlodi. Mae’n anochel y bydd effaith barhaus y cynnydd mewn costau byw a cholli incwm yr UE yn effeithio ar weithgareddau a chanlyniadau rhaglenni. Rydym yn rheoli’r pwysau hyn drwy newid ffocws neu ailstrwythuro gweithgareddau yn y tymor byr ac yn cynnal adolygiad sylfaenol o’n rhaglenni cyflogadwyedd fel rhan o’r rhaglen Un Model

Gweithredu a nodir yn y cynllun ar gyfer **cyflogadwyedd a sgiliau**. Rydym yn buddsoddi £109.8m yn ein rhaglenni cyflogaeth a sgiliau fel rhan o'r gyllideb hon, gan gydnabod pwysigrwydd sgiliau o ran darparu swyddi a thwf gwyrdd.

## Goblygiadau sy'n ymwneud â'r Cyfnod Pontio o'r UE

*Unrhyw oblygiadau i r Gyllideb Ddrafft sy n ymwneud â r cyfnod pontio o r UE ar ôl i r DU adael yr UE–*

Ar ôl i'r DU adael yr UE, gweithredodd Llywodraeth flaenorol y DU Ddeddf Marchnad Fewnol y DU (2020) a defnyddio pwerau cymorth ariannol y Ddeddf i wario ar faterion datganoledig yng Nghymru heb ganiatâd Gweinidogion Cymru. Rhai enghreifftiau o hyn yw'r Gronfa Ffyniant Gyffredin (a gymerodd le Cronfeydd Strwythurol yr UE) a'r Gronfa Ffyniant Bro. Mae osgoi Llywodraeth Cymru ac, yn benodol, colli cyllid i gymryd lle rhai'r UE wedi cael effaith sylweddol ar gyflawni nifer o'n cynlluniau cenedlaethol i gefnogi twf a swyddi, gan gynnwys Prentisiaethau, Busnes Cymru a Banc Datblygu Cymru (gweler isod).

Cadarnhaodd Llywodraeth y DU yng Nghyllideb yr Hydref (cam cyntaf yr Adolygiad o Wariant) flwyddyn bontio ar gyfer y Gronfa Ffyniant Gyffredin yn 2025-26. Gan edrych ymhellach i'r dyfodol, byddwn yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth y DU a'n partneriaid ar ddull buddsoddi rhanbarthol newydd ar ôl 2026 (ail gam yr Adolygiad o Wariant) a fydd yn arwain at fuddsoddiadau mwy strategol yn y prif ffactorau sy'n sbarduno twf.

*Sut mae r Gweinidog yn rheoli unrhyw effaith negyddol ar gyllidebau o fewn y portffolio sy n deillio o ddod â r Cronfeydd Strwythurol i ben a/neu geisio manteisio ar unrhyw gyfleoedd a allai godi–*

Darparodd Cronfa Gymdeithasol Ewrop gyllid gwerth £206m i'r rhaglen brentisiaethau rhwng 2015 a 2023. Mae colli cyllid yr UE, heb unrhyw ddarpariaeth newydd wedi'i nodi yn ei le, wedi effeithio'n sylweddol ar y gwaith o ddarparu prentisiaethau o flwyddyn gontract 2024/25 ymlaen, a'r disgwyl yw y bydd llai o brentisiaid yn gallu ymuno â'r rhaglen.

Mae diwedd cyllid strwythurol wedi cael effaith sylweddol ar y ddarpariaeth Cyflogadwyedd. Mae rhaglenni Cyflogadwyedd, yn cynnwys Cymunedau am Waith a Mwy, Twf Swyddi Cymru+ a ReAct+, a'u rhaglenni blaenorol, wedi elwa'n sylweddol o gyllid Cronfa Gymdeithasol Ewrop o dan rownd rhaglenni 2014-20 gyda chyfanswm o £181m wedi'i gymeradwyo ar gyfer y gweithgareddau hyn o Gronfa Gymdeithasol Ewrop. Ar ôl i Gronfa Gymdeithasol Ewrop ddod i ben yn 23-24 a heb gyllid newydd yn ei le, mae hyn wedi arwain at her sylweddol o ran cymorth cyflogadwyedd a sgiliau o 24-25 ymlaen. Mae'r rhaglen Un Model

Gweithredu (SOM) yn ymwneud ag ymdopi â cholli Cronfa Gymdeithasol Ewrop yn ogystal â gwella effaith y rhaglenni a chynnig darpariaeth ddi-dor i ddefnyddwyr.

## Rhoi'r Ddeddfwriaeth ar Waith

*Sut mae r Gyllideb Ddrafft yn darparu ar gyfer rhoi deddfwriaeth a basiwyd yn y Senedd ar waith[yn ogystal ag unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol yn y DU–*

Mae'r BEL Partneriaethau Cymdeithasol yn darparu cyllideb o £0.889m i helpu i gefnogi'r gwaith o weithredu Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023, sy'n cyflawni ymrwymiad Rhaglen Lywodraethu i roi sail statudol i bartneriaeth gymdeithasol yng Nghymru. Mae'r Ddeddf yn darparu fframwaith i wella llesiant pobl Cymru drwy wella gwasanaethau cyhoeddus ar ffurf gwaith partneriaeth gymdeithasol, hyrwyddo gwaith teg a chaffael cyhoeddus cymdeithasol gyfrifol.

## Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

*Pa ystyriaeth a roddwyd i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau r Dyfodol ,Cymru«$_{978}$2 wrth benderfynu ar ddyraniadau r gyllideb drafft*

Cafodd ein Strategaeth Arloesi ei datblygu drwy ymgysylltu ar draws grwpiau o randdeiliaid, gan gynnwys plant a phobl ifanc yn unol ag Erthygl 12 Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, a'n dyletswydd i gynnwys dinasyddion yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.

Gall costau cymdeithasol ac economaidd diweithdra fod yn sylweddol i unigolion a hefyd i'r gymuned ehangach. O'r herwydd, mae dull gweithredu Llywodraeth Cymru ar gyfer ein rhaglenni cyflogadwyedd (Twf Swyddi Cymru a Mwy, Cymunedau am Waith a Mwy a ReAct+) yn adlewyrchu'r egwyddor datblygu cynaliadwy ganolog sydd wedi'i gwreiddio yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (WFG) ac mae'n gweithio i gyflawni gweledigaeth o Gymru ffyniannus drwy ddatblygu economi Gymreig sy'n lledaenu cyfleoedd ac yn mynd i'r afael ag anghydraddoldeb. Lle mae'r ddarpariaeth wedi'i chontractio, rydym hefyd yn sicrhau bod contractwyr yn amlinellu sut maent yn cyfrannu at y saith nod llesiant yn eu Strategaeth ar gyfer Dyfodol Llesiant, gan gynnwys 'Cymru gydnerth' a Chymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang'.

Mae ein dull o gynyddu ynni adnewyddadwy yng Nghymru yn cael ei yrru gan ein hymrwymiad i lesiant cenedlaethau'r dyfodol yng Nghymru. Drwy Trydan Gwyrdd Cymru, byddwn yn cyflawni ein hymrwymiadau sero net gyda mwy o berchnogaeth Gymreig ar brosiectau sy'n cadw budd ac incwm yng Nghymru i fuddsoddi mewn cenedlaethau'r presennol a chenedlaethau'r dyfodol.

## Cydraddoldeb, Cynaliadwyedd a'r Gymraeg – Asesiadau Effaith ar y Gymraeg

*Manylion ynghylch sut mae cydraddoldeb[cynaliadwyedd ac asesiadau effaith ar y Gymraeg wedi dylanwadu ar y gyllideb ddrafft*

Fel rhan o'r Gyllideb Ddrafft, rydym wedi mabwysiadu dull integredig o asesu effaith, yn ogystal ag ystyried effaith penderfyniadau a pholisïau ar lesiant cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol, fel y nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), sy'n dal yn sbardun pwysig sy'n llywio ein hystyriaethau ynghylch y Gyllideb.

Mae ein Cyllideb, drwy'r Asesiad Effaith Integredig Strategol, yn nodi tueddiadau allweddol, effeithiau strategol a chronnol ar lefel portffolio, ar draws amrywiaeth o feysydd, gan gynnwys rhoi ystyriaeth briodol ar draws y gofynion statudol. Mae hyn yn sicrhau bod penderfyniadau cyllidebol strategol yn lleihau'r effaith anghymesur ar unrhyw un grŵp neu faes penodol; gan helpu hefyd i nodi cyfleoedd i gynyddu effeithiau cadarnhaol a lleihau anghydraddoldebau ar draws ein cymdeithas. Mae Asesiad Effaith Integredig Strategol cadarn yn sicrhau bod pob punt sy'n cael ei buddsoddi yn cael yr effaith gadarnhaol fwyaf.

Nod ein rhaglenni cyflogadwyedd (Twf Swyddi Cymru a Mwy, Cymunedau am Waith a Mwy a ReAct+) yw sicrhau cydraddoldeb a hygyrchedd i bawb. Mae'n bwysig sicrhau bod y rheini sydd â nifer o rwystrau a/neu'r rheini sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig penodol yn cael mynediad cyfartal at ein rhaglenni cyflagodwyedd y rhaglen ond hefyd yn cael canlyniadau cyfartal yn sgil cymryd rhan yn y Rhaglen:

- Mae **Cymunedau am Waith a mwy** wedi gwneud nifer o ddarpariaethau i sicrhau cydraddoldeb i bawb megis cyllid rhwystrau a fydd yn cyfrannu at gostau sy'n gysylltiedig â mynychu hyfforddiant, cyfraniadau tuag at ofal, gan gynnwys costau gofal plant a chyfraniad tuag at offer arbennig i'r rhai sy'n anabl neu sydd â chyflwr iechyd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio er mwyn eu galluogi i gymryd rhan yn y rhaglen.

- Caiff atgyfeiriadau **Twf Swyddi Cymru a Mwy** eu monitro yn ôl oedran, rhyw, ethnigrwydd a statws anabledd, gan gynnwys data a dadansoddiadau gan asiantaethau cyfeirio sy'n ein galluogi i feincnodi cyfraddau cyfranogi yn erbyn cyfartaleddau lleol a chenedlaethol a chymryd camau cadarnhaol i wella cyfranogiad a chyrhaeddiad grwpiau a dangynrychiolir.

- Mae'r rhaglen **ReAct+** yn darparu cymorth ychwanegol i gael gwared ar rwystrau rhag hyfforddiant. Mae'r rheini sy'n cymryd rhan yn ReAct+ yn gallu cael hyd at £200 i helpu gyda chostau sy'n gysylltiedig â hyfforddiant, fel costau teithio a llety. Mae yna grant costau gofal o hyd at £0.002m i dalu

costau gofal sy'n codi yn ystod hyfforddiant. Mae'r rhaglen hefyd yn cynnig cymorth tuag at gyflog o hyd at £0.004m i gyflogwyr sy'n recriwtio person anabl cymwys. Mae'r rhaglen yn monitro nodweddion cyfranogwyr y rhaglen e.e. oedran, rhyw, ethnigrwydd ac anabledd ac rydym yn gweithio gyda rhanddeiliaid i nodi ffyrdd o wella mynediad at gymorth gan unigolion o grwpiau heb eu cynrychioli'n ddigonol.

- Mae ein rhaglenni'n cael eu darparu'n ddwyieithog, ac mae cyrsiau Cymraeg yn cael eu cynnig fel rhan o Cymunedau am Waith a Mwy a ReAct+. Mae contractwyr Twf Swyddi Cymru a Mwy hefyd yn cynhyrchu Polisi Iaith Gymraeg sy'n amlinellu sut maen nhw'n cyfrannu at hyrwyddo datblygiad y Gymraeg fel sgil yn y gweithle a'r defnydd o hyfforddiant Cymraeg a dwyieithog.

Mae'r strategaeth wedi cael ei datblygu ar ôl ymgysylltu'n helaeth ag amrywiaeth eang o randdeiliaid, yn ystod gwahanol gamau'r broses o ddatblygu. Bu ymgysylltu cynnar â rhanddeiliaid o bob rhan o'r sectorau cyhoeddus, preifat ac academaidd. Cyhoeddwyd contract i'r Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu a arweiniodd ar ymgysylltu â phlant a phobl ifanc, dinasyddion, cymunedau a'r trydydd sector. Yn ogystal ag ymgysylltu wedi'i dargedu, cynhaliwyd ymgynghoriad agored, a chynhaliwyd digwyddiadau agored ledled Cymru. Roedd holiadur cydraddoldeb ac amrywiaeth ar gael i bawb a gymerodd ran yn y gweithgaredd ymgysylltu ac ymgynghori. Yn ogystal ag ymgysylltu eang, mae grŵp cynghori allanol wedi bod yn gweithredu drwy gydol y broses gyda chynrychiolwyr o Brifysgolion Cymru, Diwydiant Cymru, swyddfa Comisiynydd y Gymraeg, Cyfoeth Naturiol Cymru a swyddfa'r Comisiynydd Pobl Hŷn.

## Effaith Amddifadedd a Thlodi

### *Sut mae r gyllideb ddrafft yn adlewyrchu ymrwymiad hirdymor Llywodraeth Cymru i fynd i leihau effaith amddifadedd a thlodi*

Mae ein **Strategaeth Arloesi Cymru** yn gosod y sylfaen ar gyfer dyfodol deinamig i Gymru lle, drwy gydweithio, gall arloesi a thechnolegau newydd arwain at well iechyd, swyddi gwell a chreu ffyniant i fusnesau, prifysgolion a'n cymunedau lleol. Wrth ddatblygu'r strategaeth, fe wnaethom ymgysylltu â'r gymuned a dinasyddion, gan sicrhau bod pobl o bob rhan o bob cymuned, ym mhob cwr o Gymru'n cael cyfle i rannu meddyliau, teimladau a syniadau mewn perthynas â'r strategaeth, a chynhaliwyd digwyddiadau wyneb yn wyneb yn ym mhob rhanbarth yng Nghymru.

Ein nod yw manteisio ar gyfleoedd, o ble bynnag y maent yn dod, i greu amgylchedd lle bydd gwybodaeth a syniadau'n cael eu cefnogi a'u masnacheiddio a bod amodau gwledig a threfol, ym mhob rhan o Gymru, yn cael eu gwella i bob dinesydd yng Nghymru yn gymdeithasol ac yn economaidd.

Nod ein **rhaglenni Cyflogadwyedd** (Twf Swyddi Cymru a Mwy, Cymunedau am Waith a Mwy a ReAct+) yw rhoi'r hyn sydd ei angen ar bobl i ddechrau, cynnal a dychwelyd i gyflogaeth mewn marchnad lafur sy'n newid drwy'r amser. Mae cyflogaeth ddiogel a chynaliadwy sy'n talu'n dda yn rhoi llwybr allan o dlodi ac yn gwarchod rhag tlodi, nid yn unig i'r unigolyn, ond i'w ddibynyddion ac i'r gymuned drwyddi draw. Rydym hefyd yn darparu cymorth penodol lle bo angen. Er enghraifft, mae Twf Swyddi Cymru a Mwy yn cynnig cymorth wedi'i dargedu i bobl ifanc a fydd o fudd i bawb sy'n cymryd rhan, ond yn enwedig y rheini sy'n byw mewn tlodi. Rydym yn cynnig lwfans hyfforddi o £60 yr wythnos (pro-rata i'r rheini sy'n mynychu'n rhan-amser) yn ogystal â lwfans bwyd dyddiol neu bryd o fwyd a ddarperir gan ein contractwyr.

## Newidiadau Demograffig – Poblogaeth sy'n Heneiddio

*Sut mae Llywodraeth Cymru wedi cynllunio ar gyfer newidiadau demografĀg wrth baratoi r gyllideb ddrafft[yn enwedig yr angen i gynllunio ar gyfer poblogaeth sy n heneiddio*

Nid oes terfyn oedran uchaf ar lawer o'r rhaglenni yn y maes Cyflogadwyedd a Sgiliau. Maen nhw'n parhau i brofi 50 a mwy o ymyriadau i alluogi'r garfan hon i aros yn y farchnad lafur neu i ailgysylltu â hi.

Yn yr un modd, rydym yn gweithredu rhaglen brentisiaethau i bobl o bob oed sy'n creu cyfleoedd i bobl ym mhob cwr o Gymru, o bob oed a chefndir, ddatblygu sgiliau trosglwyddadwy sy'n werthfawr yn y gweithle ac yn gwella eu bywydau. Ein nod yw cynnal o leiaf nifer y cyfleoedd i ddechrau prentisiaeth i bob oed a dargedwyd yn ystod tymor blaenorol y Senedd (100,000).

# Gwariant Ataliol

*Cyfran cyllideb yr Economi a ddyrannwyd i fesurau gwariant ataliol*

Mae'r cynigion hyn ar gyfer y gyllideb yn adlewyrchu fy ymrwymiad parhaus i warchod a blaenoriaethu buddsoddiadau sy'n cefnogi mesurau ataliol cyn belled a bo modd. Mae ein penderfyniadau gwario, lle bo hynny'n bosibl, wedi canolbwyntio ar gyllido'r galw yn ein rhaglenni, a hefyd wedi buddsoddi adnoddau fel rhan o'r gyllideb hon i geisio lliniaru ac atal problemau rhag digwydd.

*Manylion polisïau neu raglenni penodol sy n berthnasol i gylch gwaith y Pwyllgor hwn y bwriedir iddynt fod yn ataliol[a sut mae gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu trawsnewid yn ymarferol i sicrhau eu bod yn gynaliadwy yn y dyfodol*

Nod ein **rhaglenni cyflogadwyedd** (Twf Swyddi Cymru a Mwy, Cymunedau am Waith a Mwy a ReAct+) yw atal anweithgarwch economaidd a diweithdra hirdymor:

- Cydnabyddir yn eang y gall cyfnod o ddiweithdra parhaus gael effaith andwyol hirdymor ar ragolygon cyflogaeth ac enillion person ifanc, fel y gwelwyd ar ôl dirwasgiad 2008/09 pan gyrhaeddodd diweithdra ymhlith pobl ifanc rhwng 16 a 24 oed benllanw o 23.5% yn 2012. Ond gall yr ymyraeth gywir helpu i liniaru'r effeithiau hyn. Nod Twf Swyddi Cymru a Mwy yw mynd i'r afael â'r broblem hon drwy dargedu pobl ifanc NEET gyda chymorth wedi'i deilwra a fydd yn y pen draw'n gwella eu siawns o ddod o hyd i waith cynaliadwy ac yn lleihau tlodi plant ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

- Mae gan Cymunedau am Waith a Mwy fesurau ataliol cadarn ac mae'n helpu i dorri cylchoedd negyddol sy'n ymwneud â thlodi, anghydraddoldeb a diffyg cyfleoedd. Gall diweithdra ac anweithgarwch economaidd gael effaith niweidiol ar iechyd corfforol a meddyliol pobl. Mae'r rhaglen hefyd yn helpu i atal problemau sy'n ymwneud ag unigrwydd, iechyd a llesiant gwael drwy ddefnyddio'r model mentora; bydd gan gyfranogwyr fentor a fydd yn meithrin perthynas gadarnhaol â'r ymgeisydd ac yn eu cynghori ar faterion sy'n ymwneud â'u nodau a'u huchelgeisiau yn ogystal â darparu cymorth mwy cyfannol i'r cyfranogwr.

- Mae'r rhaglen ReAct+ yn cefnogi pobl 20 oed a hŷn yr effeithiwyd er eu gallu i ddod o hyd i waith newydd mewn cyfnod mor fyr â phosibl ar ôl i'w swyddi gael eu dileu, gan atal pobl rhag mynd ymlaen i fod yn ddi-waith yn y tymor hir. Gall ReAct+ hefyd gefnogi cyn-droseddwyr a throseddwyr sy'n bwrw dedfrydau cymunedol i ennill y sgiliau sydd eu hangen arnynt i ddod o hyd i waith a lleihau aildroseddu.

*Sut mae gwerth am arian rhaglenni o r fath yn cael ei werthuso[gan ganolbwyntio n benodol ar beth yw r mewnbynnau penodol a r canlyniadau a fwriedir*

Nod y rhaglen ReAct+ yw helpu pobl yr effeithiwyd arnynt yn sgil colli swyddi i ennill y sgiliau y mae cyflogwyr sy'n recriwtio yn chwilio amdanynt. Gall y rhaglen ddarparu grantiau hyfforddiant galwedigaethol gwerth hyd at £1,500. Mae cyfranogwyr y rhaglen yn cael eu hyfforddiant eu hunain yn dilyn cyngor ac arweiniad diduedd ar yrfaoedd gan gynghorydd Cymru'n Gweithio. Gwerth am arian yw un o'r ffactorau rydym yn ei ystyried wrth ystyried ceisiadau am grantiau

ac rydym yn ymwybodol o beth yw 'pris y farchnad' ar gyfer cyrsiau hyfforddi. Gall ReAct+ roi'r gorau i ariannu mathau penodol o hyfforddiant os na ellir dangos eu bod yn gwella rhagolygon cyflogaeth.

## Llinellau Gwariant Unigol yn y Gyllideb

Rhoddir crynodeb o linellau cyllideb sy'n berthnasol i'r pwyllgor hwn yn **Atodiad A** ac **Atodiad B**. Mae hyn yn cynnwys costau cyflawni'r polisïau hyn.

*Sut bydd y gwaith o gyflawni r polisi a i ganlyniadau cysylltiedig yn cael ei fonitro a i werthuso i ddangos gwerth am arian*

Mae gwerth am arian ac eglurder ynghylch sut rydym yn defnyddio ein hadnoddau'n effeithiol yn rhan ganolog o'r broses o gyflawni ein blaenoriaethau. Pan fydd gwariant yn cael ei gynllunio yn unol â blaenoriaethau, mae gennym brosesau cadarn ar waith i sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithiol ac i'r dibenion a fwriadwyd.

## Meysydd Penodol

### Yr Economi

Mae'r adran hon yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am feysydd penodol, yn unol â chais y Pwyllgor.

*Cymorth i helpu busnesau a gweithwyr o ganlyniad i r cynnydd mewn costau byw a chostau gwneud busnes*

Mae cymorth uniongyrchol ar gael i fusnesau sy'n wynebu ansicrwydd oherwydd yr argyfwng costau byw a dod dros effaith y pandemig drwy gyfuniad o gymorth ar-lein, dros y ffôn, a chymorth busnes 1-i-1, sydd wedi'i deilwra yn ôl anghenion y cleient a gwahanol ranbarthau Cymru, yn dibynnu ar ofynion lleol. Mae'r gwasanaeth ar gael i gynorthwyo busnesau sydd eisoes yn bodoli, busnesau newydd ac unigolion sy'n ystyried bod yn hunangyflogedig, ac mae modd cael mynediad ato'n ddigidol drwy **https://busnescymru.llyw.cymru**, sianeli cyfryngau cymdeithasol a llinell gymorth 03000 6 03000.

*Unrhyw ddyraniadau mewn perthynas â r Rhaglen Porthladdoedd Rhydd yng Nghymru*

Nid oes unrhyw ddyraniadau wedi cael eu darparu fel rhan o'r gyllideb hon ar gyfer Porthladdoedd Rhydd yng Nghymru.

Yn amodol ar gymeradwyo'r Achos Busnes Terfynol, a chytuno ar Femoranda Cyd-ddealltwriaeth rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, bydd Porthladdoedd Rhydd Cymru'n gymwys i gael cyllid cyfalaf sbarduno gwerth hyd at £25m yr un (hyd at gyfanswm o £50m). Rhagwelir y bydd rhywfaint o'r cyllid yn debygol o gael ei ddyfarnu yn 2025/26, yn amodol ar achosion busnes. Llywodraeth Cymru sy'n talu'r cyllid hwn i'r Porthladdoedd Rhydd ac mae Llywodraeth y DU yn eu had-dalu.

Mae'r rhaglen Porthladdoedd Rhydd yn cynnwys rhai costau sy'n cael eu talu gan Lywodraeth y DU ac eraill y mae disgwyl i Lywodraeth Cymru eu talu. Darparodd Llywodraeth y DU £0.600m yn 2023-24 a disgwylir iddi ddarparu cyllid capasiti gwerth £1.4m ar gyfer darpar Borthladdoedd Rhydd yn 2024-25. Mae'r cyllid hwn yn cael ei dalu i'r Porthladdoedd Rhydd gan Lywodraeth Cymru a'i ad-dalu gan Lywodraeth y DU. Disgwylir i drosglwyddiad 2024-25 gael ei ffurfioli fel rhan o ail broses y gyllideb atodol.

*Dyraniadau mewn perthynas â r posibilrwydd o greu parthau buddsoddi yng Nghymru*

Nid oes unrhyw ddyraniadau wedi cael eu gwneud fel rhan o'r gyllideb hon ar gyfer parthau buddsoddi.

Mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU wedi cytuno i sefydlu dau Barth Buddsoddi yng Nghymru: un yng Ngogledd Ddwyrain Cymru sy'n gwasanaethu ardal teithio i'r gwaith Sir y Fflint a Wrecsam; ac un yn Ne Ddwyrain Cymru sy'n gwasanaethu ardal teithio i'r gwaith Casnewydd a Chaerdydd. Y Cyd-bwyllgor Corfforedig perthnasol sy'n arwain y gwaith o ddatblygu cynigion y Parth Buddsoddi. Bydd yr achosion busnes sy'n cael eu datblygu gan y Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn cael eu hasesu ar y cyd gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru.

Bydd pob Parth Buddsoddi llwyddiannus yn gymwys i gael hyd at £160m o gyllid dros gyfnod o 10 mlynedd. Gellir defnyddio hyn i ariannu cymysgedd o ryddhad treth (a gadwyd yn ôl ac a ddatganolwyd) a chyllid hyblyg i ddatgloi buddsoddiad a mynd i'r afael â rhwystrau i dwf. Rhyddhad Ardrethi Annomestig (NDR) a rhyddhad Treth Trafodiadau Tir yw'r ddau ryddhad treth ddatganoledig sydd ar gael. Bydd yr Ardaloedd Buddsoddi hefyd yn gallu elwa o gadw hyd at 50% o Ardrethi Annomestig.

Bydd yr amlen ariannol gyffredinol o £160m yn cael ei hariannu'n uniongyrchol gan Lywodraeth y DU ac, os cytunir ar safleoedd treth, bydd yn cael ei defnyddio i ariannu'r rhyddhadau treth sydd wedi'u cadw yn ôl a'r rhai datganoledig (ond nid cadw ardrethi annomestig). Mae Llywodraeth Cymru'n disgwyl cael cyllid gan Lywodraeth y DU i dalu am gost rhyddhadau treth datganoledig ac i Lywodraeth Cymru ddarparu cyllid grant i'r Ardaloedd Buddsoddi yn unol â chynlluniau busnes y cytunwyd arnynt.

Mae Ardaloedd Buddsoddi Cymru ar gam cymharol gynnar yn y broses o ddatblygu eu hachosion busnes ac nid yw eu cynigion a'u costau wedi'u datblygu'n llawn eto. Rhagwelir y byddant yn cael eu sefydlu yn 2025/26 a byddant yn cael rhywfaint o gyllid yn y flwyddyn ariannol honno.

### *Dyraniadau i gefnogi datblygiad economaidd rhanbarthol[gan gynnwys y rhai a wnaed i ddatblygu a chyĄawni r fframweithiau economaidd rhanbarthol[y Cymoedd Technoleg[a rhaglen Arfor ₉ «*

### Fframweithiau Economaidd Rhanbarthol

Ym mis Rhagfyr 2021, fe wnaethom gyhoeddi'r fframweithiau economaidd rhanbarthol ar gyfer y pedwar rhanbarth yng Nghymru. Mae'r Fframweithiau Economaidd Rhanbarthol yn rhan hanfodol o'n hymrwymiad i fodel datblygu economaidd sy'n seiliedig ar leoedd, lle rydym yn adeiladu ar gryfderau penodol ein rhanbarthau ac yn gweithio gyda nhw. Lluniwyd y fframweithiau gyda phartneriaid ym mhob un o'r rhanbarthau, gan gynnwys awdurdodau lleol a chyrff rhanbarthol.

Maent yn seiliedig ar dystiolaeth a chytundeb, gyda blaenoriaethau clir sy'n cyd-fynd â'n fframwaith ar gyfer buddsoddi rhanbarthol, y genhadaeth economaidd ac, wrth gwrs, y rhaglen lywodraethu.

Mae'r dull aeddfed yma o weithredu yn hanfodol er mwyn creu gweledigaeth ar y cyd gydag amcanion cyffredin i sicrhau Cymru decach, wyrddach a mwy llewyrchus.

Yn ogystal â'r cyllid a dyranwyd yn uniongyrchol drwy fy MEG, mae'r Fframweithiau Economaidd Rhanbarthol yn darparu'r blaenoriaethau strategol ar gyfer buddsoddi rhanbarthol ar draws y Llywodraeth. Yn ogystal, dyranwyd cyllideb ranbarthol fechan o £0.450m ar gyfer blwyddyn ariannol 25-26 i gefnogi amrywiaeth o brosiectau sy'n cyd-fynd â blaenoriaethau'r Fframweithiau Economaidd Rhanbarthol.

### Y Cymoedd Technoleg

Dyraniad y gyllideb i'r Cymoedd Technoleg ar gyfer 25-26 yw gwerth £5m o gyfalaf a £1.76m o refeniw. Mae'r Cymoedd Technoleg yn ymrwymiad gan y Rhaglen Lywodraethu dros ddeng mlynedd (hyd at 2028) i greu 1,500 o swyddi cynaliadwy, cynyddu cyflogau wythnosol cyfartalog a gwerth ychwanegol gros sy'n canolbwyntio ar Flaenau Gwent, drwy fanteisio ar gyfleoedd sy'n deillio o'r pedwerydd chwyldro diwydiannol, annog mabwysiadu technolegau digidol, a datblygu technolegau datblygedig gwerth uchel sy'n cefnogi diwydiannau arloesol fel 5G, technoleg batris, ac ymchwil i gerbydau modurol. Mae effaith y buddsoddiad hwn yn cyrraedd holl ardaloedd Cymoedd y De.

Yn ôl y weledigaeth, erbyn 2027, bydd ardal Cymoedd y de yn cael ei chydnabod yn fyd-eang fel canolfan ar gyfer datblygu technolegau newydd sy'n cefnogi diwydiant arloesol. Cyflwynir y rhaglen drwy bortffolio o brosiectau sy'n tyfu'n organig dros amser. Mae'r rhaglen yn canolbwyntio ar greu amgylchedd deniadol i gwmnïau technoleg leoli a datblygu, gan gynnwys drwy fuddsoddi mewn adeiladau a pharatoi tir i bontio'r bwlch hyfywedd, a chreu gofod newydd i entrepreneuriaid a busnesau newydd.

Drwy fuddsoddi yn y tair colofn sef seilwaith, cymorth busnes a sgiliau, bydd y rhanbarth nid yn unig yn creu amgylchedd ffisegol lle gall cwmnïau gweithgynhyrchu uwch-dechnoleg ffynnu ond hefyd yn galluogi diwydiannau presennol i symud i ddatblygu.

Hyd yma, mae buddsoddiad y Cymoedd Technoleg wedi helpu i greu 298,000 troedfedd sgwâr o ofod llawr newydd ac wedi'i adnewyddu, gan greu 600 o swyddi posib drwy ei gwneud hi'n bosibl gwneud defnydd economaidd o hen dir a gweithio gyda chwmnïau sy'n bodoli eisoes i helpu i wella cynhyrchiant a sgiliau, a thyfu'r hyn a gynhyrchir ar hyn o bryd. Mae'n cefnogi gwydnwch, effeithlonrwydd a'r defnydd o dechnoleg mewn busnesau bach a chanolig eu maint ac yn codi ymwybyddiaeth o yrfaoedd sy'n gysylltiedig â STEM ac yn hyrwyddo'r nifer sy'n astudio pynciau STEM yn yr ysgol ac ôl-16. Bydd y ffigur hwn yn parhau i dyfu wrth i'r prosiectau sy'n cael eu datblygu ar hyn o bryd ddwyn ffrwyth. Rydym hefyd yn parhau i weithio gyda phartneriaid i ganfod a datblygu prosiectau newydd gan gynnwys edrych ar gyfleoedd pellach i ddatblygu eiddo.

Mae'r rhaglen yn cyflawni yn erbyn blaenoriaethau'r llywodraeth hon, gan gynnwys ein hymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu i adeiladu economi sy'n seiliedig ar egwyddorion gwaith teg, cynaliadwyedd a diwydiannau a gwasanaethau'r dyfodol.

Mae un o'n buddsoddiadau mwyaf drwy Raglen y Cymoedd Technoleg yn werth mwy na £16m ar gyfer sefydlu Campws Technoleg Thales yng Nglynebwy – partneriaeth rhwng Llywodraeth Cymru, y byd academaidd, busnes a Thales UK Ltd. Mae'r campws yn darparu cyfleusterau arloesol o'r radd flaenaf sy'n ymchwilio i atebion i seibergadernid seilwaith cenedlaethol critigol ac mae'n brosiect catalydd allweddol ar gyfer twf a datblygu economaidd yn Ne Cymru.

## ARFOR 2

Mae rhaglen ARFOR yn cynnwys nifer o ymyriadau strategol sy'n cefnogi'r cymunedau hynny yn y 4 awdurdod lleol lle mae nifer y siaradwyr Cymraeg ar ei uchaf ac mae'n cael ei ddarparu gan gymysgedd o wasanaethau wedi'u caffael ar draws y 4 awdurdod lleol yn ogystal ag elfen o ddarpariaeth uniongyrchol drwy bob awdurdod lleol. Mae'r rhaglen yn cynnwys nifer o elfennau, gan gynnwys cymorth i fusnesau drwy Cymunedau Mentrus, cymorth sy'n canolbwyntio ar bobl

ifanc o dan Llwyddo'n Lleol yn ogystal â Chronfa Her sy'n cefnogi amrywiaeth o brosiectau arloesol, a marchnata parhaus a gwerthusiad annibynnol o'r rhaglen i helpu i ddeall gwerth yr ymyriadau ar yr economi a chymunedau Cymraeg

Mae'r rhaglen yn cael ei chyflwyno ar hyn o bryd ac nid yw'r gwerthusiad parhaus wedi dod i ben eto. Mae trafodaethau'n cael eu cynnal gyda phartneriaid ynghylch dyfodol y rhaglen a'r cyfleoedd i brif ffrydio'r gwersi a ddysgwyd oddi wrthi.

*Unrhyw ddyraniadau i gefnogi r unigolion a r cymunedau yr effeithir arnynt gan benderfyniad Tata i atal y gwaith sylfaenol o wneud dur ym Mhort Talbot*

Y gyllideb arfaethedig ar gyfer rhaglen ReAct+ yn 2025-26 yw £7.425m, ac rydym yn bwriadu cael digon o gyllideb i reoli'r gwaith o drosglwyddo'r galw gan y rheini y mae dileu swyddi o Tata Steel UK a'r gadwyn gyflenwi yn effeithio arnynt i 2025-2026.

*Y dyraniadau ariannol sy n gysylltiedig â r economi sylfaenol*

Mae'r Gronfa Cefnogi Cwmnïau Lleol yn ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu a gyflwynwyd yn ystod tymor y Senedd hon. Ers ei chyflwyno, mae'r Gronfa wedi'i hanelu at gefnogi cwmnïau micro, bach a chanolig sydd â phencadlys yng Nghymru i helpu i oresgyn y problemau a'r rhwystrau y maent yn eu hwynebu, yn enwedig wrth gynnal busnes gyda'r sector cyhoeddus yng Nghymru.

Roedd dyraniad cyntaf y Gronfa ym mlwyddyn ariannol 2021/22 yn £1m ac yn 2022-23 tyfodd o tua1.4m i fod yn gyllideb gwerth £3m rhaglen yr Economi Sylfaenol. Cyfanswm y gyllideb Addysg Bellach ar gyfer 2025-26 yw £1.0m a dyrennir £0.5m i'r Gronfa ac mae gweddill y gyllideb wedi cefnogi'r gwaith o gyflawni gweithgareddau nad ydynt yn dod o dan y Gronfa, gan gynnwys y Rhwydweithiau Gallu a ddarperir drwy Cynnal Cymru; ariannu gwaith gwella caffael yn GIG Cymru; darparwyr gofal cymdeithasol micro; profiad gwaith mewn cyflawni prosiectau tai; a datblygu strategaeth ar gyfer cyrchu bwyd lleol yn y sector cyhoeddus.

Fel rhan o'n cyfraniad i gefnogi ymarfer ailflaenoriaethu ehangach Llywodraeth Cymru, fe wnaethom leihau ein cyllid pwrpasol tuag at raglen yr Economi Sylfaenol o £3m i £1.163m yn 2024-25. Roedd yr hyn sydd wedi'i ddileu'n ymwneud ag elfen y Gronfa Cefnogi Cwmnïau Lleol yn y rhaglen Addysg Bellach. Rydym wedi lliniaru'r gostyngiad drwy weithio gyda Busnes Cymru i brif ffrydio cymorth i fusnesau Addysg Bellach a gefnogir gan £0.5m o gyllid ychwanegol o'r gyllideb Addysg Bellach, gan sicrhau eu bod yn canolbwyntio ar sectorau blaenoriaeth ac yn dysgu gwersi blaenorol o'r rhaglen, a thrwy gefnogi prosiectau Addysg Bellach posibl i gael gafael ar ffynonellau cyllid amgen, fel cyllid Arloesi.

*Banc Datblygu Cymru ‹ gan gynnwys dyraniadau i r Cynllun Benthyciadau Busnes Gwyrdd[Cynllun CartreĀ Gwyrdd Cymru[a chymorth i fusnesau sy n eiddo i weithwyr*

Mae Banc Datblygu Cymru yn darparu cyfres o gronfeydd a gwasanaethau ar ran nifer o adrannau. Mae'n un o sefydliadau datblygu economaidd craidd Cymru. Mae'n darparu i fusnesau ac unigolion (cynlluniau gweithredu fel Cymorth i Brynu Cymru a Cymorth i Aros i'r olaf), mae'n cefnogi'r Llywodraeth drwy reoli nifer o fuddsoddiadau a benthyciadau cymhleth ac mae'n gyfrwng ar gyfer y Cynllun Model Buddsoddi Cydfuddiannol sy'n cefnogi'r gwaith o gyflawni prosiectau seilwaith cyfalaf allweddol ledled Cymru.

Yn 2023, lansiodd y Banc Datblygu Gynllun Benthyciadau Busnes Gwyrdd. Mae'r cynllun peilot gwerth £10m yn boblogaidd ymysg busnesau, ac mae £5.9m wedi'i fuddsoddi hyd yma. Bydd £4.5m arall yn cael ei fuddsoddi mewn Benthyciadau Busnes Gwyrdd i gefnogi busnesau bach a chanolig i annog buddsoddiad mewn gwelliannau effeithlonrwydd ynni a phrosiectau datgarboneiddio.

Yn 2025/26, er mwyn cefnogi microfusnesau sefydledig a busnesau newydd, mentrau bach a chanolig a mentrau cymdeithasol, rydym yn dyrannu £2m arall i Gronfa Micro-fenthyciadau Cymru. Rydym hefyd yn dyrannu £3m i barhau â'n cefnogaeth i fusnesau Cymru drwy ddarparu ffynhonnell amgen o gyllid amgen drwy angylion buddsoddi. Bydd y cyllid yn annog creu busnes newydd a thwf economaidd yng Nghymru.

Mae Banc Datblygu Cymru yn cyflawni ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu i (i) cynyddu'r defnydd o elfen ecwiti mewn cymorth busnes a (ii) cynyddu argaeledd cyfalaf tymor estynedig i fusnesau.

Ers dechrau tymor y Senedd hon yn 2021, mae Banc Datblygu Cymru wedi cynyddu'r defnydd o elfen ecwiti mewn cymorth busnes o £13.8m i gyfartaledd treigl 3 blynedd o £15.5m y flwyddyn ac mae wedi ehangu ei ddarpariaeth cyfalaf tymor estynedig (dyled) i fusnesau o £25.3m i gyfartaledd treigl 3 blynedd o £37.4m y flwyddyn.

Prif ganlyniadau ar gyfer blwyddyn ariannol 2023-24:

- Cyfanswm effaith o £175 miliwn ar economi Cymru
- Buddsoddiad uniongyrchol o £125m mewn busnesau yng Nghymru, buddsoddiad ychwanegol o £50m gan fanciau a buddsoddiad ar y cyd arall yn y sector preifat
- 491 o fuddsoddiadau
- 4,406 o swyddi wedi'u creu neu eu diogelu

Mae buddsoddiad Banc Datblygu Cymru wedi cynyddu'n gyson ers ei lansio yn 2017, gan gynyddu o £68m yn 2017-18 i £125m yn 2023/24.

Gan fod Banc Datblygu Cymru yn gweithredu offerynnau ariannol, benthyciadau a buddsoddiadau, mae'n cael cyfran fawr o'r arian y mae'n ei ddefnyddio yn ôl. Mae hyn yn golygu bod y gost gyflenwi net yn isel iawn o'i chymharu â llwybrau

eraill fel cyllid grant. Ar ben hynny, mae cyllid Banc Datblygu Cymru fel arfer yn denu cyllid sylweddol gan y sector preifat, gan wella gwerth cyffredinol y cynnig ymhellach. Ers lansio, gwnaed buddsoddiad ar y cyd o £531m yn y sector preifat. Mae ffigurau perfformiad ac effaith hyd yma'n cynnwys £778m o fuddsoddiadau uniongyrchol i 3,938 o fusnesau yng Nghymru, gan greu/diogelu 41,700 o swyddi.

Wedi i'r Swyddfa Ystadegau Gwladol ailddosbarthu'r banc i ddosbarthiad Llywodraeth Ganolog yn 2021, mae Llywodraeth Cymru yn ceisio canlyniad niwtral o ran y gyllideb gan Drysorlys Ei Mawrhydi. Mae'n cymryd amser i gyflawni'r canlyniad hwn, yn rhannol oherwydd gallu Trysorlys Ei Mawrhydi i ymgysylltu â Llywodraeth Cymru ar y mater hwn. Amlygodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg yr angen i fynd i'r afael â'r mater hwn a'i ddatrys, ac mae wedi cytuno i flaenoriaethu'r mater hwn yn ei drafodaethau gyda Phrif Ysgrifennydd newydd y Trysorlys.

*Dyraniad ariannol i Busnes Cymru*

£22.4m yw'r cyllid refeniw a ddyrannwyd fel rhan o gyllideb ddrafft 2025-26 i gefnogi Busnes Cymru. Bydd y dyraniad hwn yn cefnogi'r pum thema gwaith a gyflwynir gan yr is-adran Entrepreneuriaeth a Busnes Cymru, sef:

- Mae **gwasanaeth llinell gymorth a digidol** yn bwynt cyswllt cwbl ddwyieithog, hygyrch, sy'n cynnig ystod lawn o wybodaeth ac arweiniad i entrepreneuriaid a busnesau. Mae'n darparu gwybodaeth ac adnoddau diduedd wedi'u teilwra'n arbennig i helpu i ganfod cymorth busnes. Mae porth caffael GwerthwchiGymru yn hyrwyddo cyfleoedd i fusnesau gael gafael ar gontractau sector cyhoeddus a'u hennill.

- Mae cynllun **cefnogi entrepreneuriaid a dechrau busnes Busnes Cymru** yn ysbrydoli ac yn datblygu gallu entrepreneuriaid drwy hyrwyddo diwylliant o entrepreneuriaeth a dechrau busnes yng Nghymru. Mae'n estyn allan at bobl ifanc mewn addysg a'r rheini o dan 25 oed, oedolion sy'n ystyried dechrau eu busnes eu hunain, ac allgymorth wedi'i dargedu ar gyfer unigolion sy'n cael eu tangynrychioli mewn busnesau newydd a chymdeithas.

- Mae **cymorth datblygu a chynghori Busnes Cymru** yn meithrin hyder a gwydnwch y gymuned fusnes yng Nghymru drwy ddarparu cyngor a chefnogaeth bwrpasol, gan ganolbwyntio ar reoli cysylltiadau. Mae'r gwasanaeth yn darparu gwasanaethau cyngor a chymorth arbenigol mewn llu o feysydd gan helpu busnesau i greu cyfleoedd cyflogaeth, cael gafael ar gyllid, chwilio am farchnadoedd newydd a gwella arferion busnes a'u cynhyrchiant.

- Mae **Rhaglen Cyflymu Twf Busnes Cymru** yn darparu gwasanaethau cymorth busnes wedi'i deilwra, rheoli cysylltiadau a hyfforddiant arbenigol ar gyfer busnesau dethol cyn-refeniw a busnesau sefydledig sy'n gallu dangos y dyhead a'r potensial i sicrhau twf mawr. Darperir cymorth twf mawr gan hyfforddwyr a mentoriaid medrus iawn ac fe'i cefnogir gan gyfres o adnoddau twf mawr deinamig ar-lein.

- Mae **Busnes Cymdeithasol Cymru** yn darparu gwasanaeth arbenigol pwrpasol a chydweithredol ar gyfer mentrau cymdeithasol sy'n canolbwyntio ar gyflawni'r canlyniadau fel y'u hamlinellir yn y Weledigaeth a'r Cynllun Gweithredu deng mlynedd, "Trawsnewid Cymru drwy fentrau cymdeithasol". Mae hyn yn cynnwys cymorth busnes un i un i fusnesau cymdeithasol newydd a busnesau twf cymwys, cymorth pwrpasol ar gyfer perchnogaeth gan y gweithwyr a chymorth mentora cymheiriaid.

### *Y dyraniadau ariannol i gyflawni ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu i geisio dyblu nifer y busnesau sy'n eiddo i weithwyr*

Yn ein Rhaglen Lywodraethu, ymrwymodd Llywodraeth Cymru i ddyblu nifer y busnesau yng Nghymru sy'n eiddo i weithwyr erbyn 2026. Mae'r ymrwymiad hwn wedi cael ei gyflawni bellach; fodd bynnag rydym yn dal wedi ymrwymo i roi mwy o gefnogaeth i sicrhau bod cwmnïau yng Nghymru'n aros yn nwylo Cymry. £0.045m oedd dyraniad y gyllideb yn 2021-22, £0.05m yn 2022-23 a £0.065m yn 2023-24. Dyraniad y gyllideb ar gyfer 2025-26 yw £0.05m i barhau â'r gwaith hwn ac adeiladu arno.

Yn wreiddiol, roedd 37 ac mae hyn wedi tyfu i 87 yng Nghymru.

Gan weithio gyda Cwmpas, mae Llywodraeth Cymru'n cydweithio'n agos i hyrwyddo manteision a datblygu perchnogaeth gan weithwyr yng Nghymru, i sicrhau bod busnesau yng Nghymru'n ymwybodol o'r cyfleoedd a'r manteision posibl.

Mae gwasanaeth Busnes Cymdeithasol Cymru a Busnes Cymru a ddarperir gan Lywodraeth Cymru yn cynnig cyngor arbenigol i gefnogi pryniannau gan weithwyr, gyda chymorth pwrpasol wedi'i ariannu'n llawn ar gael i helpu perchnogion busnesau i benderfynu ai perchnogaeth gan y gweithwyr a chynlluniau cyfranddaliadau yw'r opsiwn iawn i'w busnes.

### *Y Banc Cymunedol*

Nid oes gan y Senedd y pwerau i 'Sefydlu' banc cymunedol. Rydym wedi gweithio gyda Cambria Cydfuddiannol Cyf (CCL) i annog gweithredwyr presennol i edrych ar y cynlluniau a'u datblygu i'r perwyl hwn. Darparwyd cyllid grant o £0.210m i Cambria ym mlwyddyn ariannol 2024-25 i'r perwyl hwn.

Yn 2023, camodd Cymdeithas Adeiladu Sir Fynwy yn ôl o'i hymrwymiad i ddarparu'r Banc Cymunedol. Ers hynny, mae Cambria wedi gweithio gyda sefydliad arall sydd â diddordeb mewn datblygu cynlluniau ar gyfer banc cymunedol ac mae wedi gwneud gwaith gwybodaeth am y farchnad i gefnogi hyn.

Rhaid i unrhyw sefydliad sy'n dymuno datblygu banc cymunedol yng Nghymru wneud hynny ar sail gwbl fasnachol a rhaid iddynt weithredu o fewn amgylchedd trwyddedu a rheoleiddio'r sector. Yn y pen draw, gweithredwyr yn y sector fydd yn gwneud penderfyniadau ar gyflawni, nid Llywodraeth Cymru.

Er bod nifer o sefydliadau wedi archwilio'r cysyniad o fanc cymunedol yn fanwl yn sgil ein gwaith, rydym hefyd yn cydnabod bod amodau'r farchnad wedi bod yn heriol yn ystod y blynyddoedd diwethaf a bod datblygiadau yn y sector ehangach yn parhau i siapio'r cyd-destun ar gyfer unrhyw fodelau darparu newydd.

Nid oes cyllideb wedi'i dyrannu fel rhan o gyllideb ddrafft 2025-26 i gefnogi rhagor o weithgarwch sy'n uniongyrchol gysylltiedig â chefnogi'r gwaith o greu Banc Cymunedol.

*Cymorth i sectorau gweithgynhyrchu allweddol fel y sector awyrofod[y sector modurol a r sector dur*

Mae ein Rhaglen Lywodraethu wedi ymrwymo i gefnogi sectorau sy'n strategol bwysig i Gymru a'r DU.

Rydym wedi darparu cyllid gwerth £0.819m i gefnogi gwaith Diwydiant Cymru, sy'n llais ar gyfer gweithgynhyrchu yng Nghymru ar draws sectorau allweddol yn cynnwys awyrofod, amddiffyn, gofod, seiber a modurol.

*Awyrofod ac Amddiffyn a Gofod*

Fforwm Awyrofod Cymru yw'r gymdeithas fasnach ar gyfer pob cwmni sy'n gweithredu yn y sectorau Awyrofod ac Amddiffyn a Gofod yng Nghymru. Fe'i sefydlwyd yn 2001 a hi yw llais y sector yng Nghymru. Mae'r cyllid rydym yn ei ddarparu i Diwydiant Cymru yn cynnwys cyllid craidd ar gyfer y Fforwm, ac mae hefyd wedi cael cyllid i greu rhwydwaith o gwmnïau sy'n gwneud gwaith atgyweirio a chynnal a chadw er mwyn iddynt allu masnachu ar y cyd a denu mwy o fasnach posibl nag y byddent yn gallu gwneud yn unigol.

Mae 11 o gwmnïau yn rhan o'r Hyb (Hydref 2023) a thros 50 o gwmnïau'n gwneud gwaith atgyweirio a chynnal a chadw yng Nghymru. Mae'r Fforwm yn rhoi cyfleoedd i gwmnïau gymryd rhan mewn sioeau masnach byd-eang, mewn rhaglenni cadwyn gyflenwi, mewn gweithgareddau gwella busnes ac mewn digwyddiadau rhwydweithio y mae'n eu cynnal ar gyfer ei 170 o aelodau.

Mae ein buddsoddiad yn AMRC Cymru yn cefnogi rhaglen Wing of Tomorrow Airbus fel gweithgarwch craidd ochr yn ochr â chyfleusterau mynediad agored ar gyfer y diwydiant ehangach. Mae ceisiadau llwyddiannus ar gyfer elfennau o raglen Buddugoliaethau Yfory fel SusWing a DAWN wedi dod â buddsoddiadau ATI mawr i Gymru.

Mae arbenigedd y gofod yng Nghymru yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, roboteg gofod a planedol, ffiseg cysawd yr haul, offer uwch, synwyryddion a chanfyddwyr, strwythurau a deunyddiau uwch, gyriant, dylunio a pheirianneg systemau lloeren/offeryniaeth, ffotofolteg y gofod, Offeryniaeth Arsylwi ar y Ddaear, cryogeneg, telegyfathrebu, ymchwil hydrogen, optoelectroneg ac atebion delweddu data.

Galluogodd cyllid Space Wales y gwaith o ddatblygu a chyhoeddi Strategaeth Gofod gyntaf Cymru ynghyd â gweithgarwch datblygu clwstwr a oruchwylir gan y Cyngor Arweinyddiaeth Gofod sydd newydd ei sefydlu. Mae cam nesaf y gweithgarwch yn cynnwys adnewyddu'r strategaeth a dangos pa gynnydd sydd wedi'i wneud.

*Modurol*

Mae'r cyllid y mae Llywodraeth Cymru yn ei ddarparu i Diwydiant Cymru yn cynnwys cyllid craidd ar gyfer Fforwm Modurol Cymru. Rydym yn elwa o ddiweddariadau amser real rheolaidd ar sefyllfa'r sector modurol o drafodaethau bwrdd crwn Fforwm Modurol Cymru sy'n parhau ers Brexit a'r pandemig. Rydym yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am effaith tarfu byd-eang ar nwyddau, yr argyfwng sglodion lled-ddargludyddion, effaith Brexit, yr argyfwng presennol o ran cost gwneud busnes, yr anawsterau o ran recriwtio a chadw staff a thensiynau geowleidyddol, costau deunyddiau uwch ac amseroedd paratoi hirach.

Rydym yn parhau i ariannu Fforwm Modurol Cymru i gefnogi'r sector a'r gadwyn gyflenwi ehangach yng Nghymru i newid i gerbydau carbon isel/di-garbon.

*Dur*

Fel y nodir yn Cymru Sero Net a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2021, roedd y sector diwydiant a busnes yn cyfrif am 38% o allyriadau Cymru yn 2019. O holl allyriadau'r sector diwydiant a busnes, daw 37% o'r diwydiant haearn a dur. Bydd y newid i gynhyrchu dur EAF ym Mhort Talbot yn cael effaith sylweddol ar allyriadau o'r diwydiant dur yng Nghymru.

Mae datgarboneiddio'r diwydiant dur yn parhau'n flaenoriaeth i'r sector. Mae sicrhau newid cyfiawn i ddyfodol carbon isel yn hanfodol ac oherwydd y cymysgedd o gyfrifoldebau yn ymwneud â busnes a diwydiant sydd wedi'u cadw

a'u datganoli, mae angen i ni weithio'n agos gyda Llywodraeth y DU i ddarparu'r cymysgedd cywir o bolisïau.

Mae effaith bosibl polisïau datgarboneiddio ar gystadleurwydd diwydiannol yn gofyn am system gymorth gytbwys ar draws y DU, a rhaid i hyn ystyried heriau daearyddol unigryw rhanbarthau diwydiannol Cymru. Mae ein llwybr tuag at Gymru sero net yn heriol, ond bydd yn cynnig cyfleoedd i gael twf cynaliadwy a busnesau cryfach.

*Y dyraniadau i gyflawni Croeso i Gymru: blaenoriaethau i'r economi ymwelwyr 2020-25, gan gynnwys Cronfa Buddsoddi mewn Twristiaeth Cymru a'r Gronfa Pethau Pwysig ac unrhyw ddyraniadau i ddatblygu olynydd*

Yn strategaeth twristiaeth Llywodraeth Cymru, Croeso i Gymru: Blaenoriaethau i'r economi ymwelwyr 2020-25, yr uchelgais yw cynyddu twristiaeth er budd Cymru – ee, twf economaidd sy'n dod â manteision i bobl a lleoedd Cymru, cynaliadwyedd amgylcheddol a llesiant cymdeithasol a diwylliannol.

Mae gweithgarwch arfaethedig yn 2025-26 yn cynnwys buddsoddi yn ein rhaglen farchnata, graddio, buddsoddi mewn sgiliau a'n rhaglen datblygu cyfalaf sy'n caniatáu i ni barhau i hyrwyddo cynnyrch craidd yn barhaus e.e. Llwybr Arfordir Cymru; cefnogi gweithgarwch ategol ar draws Digwyddiadau Cymru ac eraill a gweithio ar y cyd â rhanddeiliaid Llywodraeth Cymru fel Trafnidiaeth Cymru, Cadw a Thirweddau, Natur a Choedwigaeth.

Bydd £9.1m o refeniw a £6m o gyfalaf ym mlwyddyn ariannol 2025-26 yn cefnogi'r gwaith o gyflawni'r flaenoriaeth hon.

Mae Cronfa Buddsoddi mewn Twristiaeth Cymru, sy'n werth £50m, yn gyfuniad o grantiau a benthyciadau, a reolir gan Fanc Datblygu Cymru, a fydd yn parhau i helpu i ariannu buddsoddiad cyfalaf mewn prosiectau sy'n tyfu'r sector ac sy'n cael effaith gadarnhaol ar economi Cymru.

Mae'r gronfa'n dod â chyllid masnachol a grantiau ynghyd mewn un pecyn o gymorth ariannol i ddarparu buddsoddiad cyfalaf i'r sector a bydd yn helpu i ariannu buddsoddiad cyfalaf mewn prosiectau twristiaeth sydd â chyfle i greu effaith gadarnhaol ar dyfu'r sector ac economi Cymru. Bydd Cronfa Buddsoddi mewn Twristiaeth Cymru yn parhau i gefnogi prosiectau cyfalaf cymwys yn ystod 2025-26 a fydd yn gwella'r hyn sy'n cael ei gynnig i dwristiaid yng Nghymru drwy gefnogi ein strategaeth ar gyfer y sector.

Bydd cronfa Y Pethau Pwysig yn parhau ar gyfer 2025-27. Pwrpas y gronfa yw darparu gwelliannau mewn seilwaith sylfaenol ond hanfodol i ymwelwyr mewn cyrchfannau twristiaeth strategol ledled Cymru i sicrhau bod pob ymwelydd yn cael profiad cadarnhaol a chofiadwy drwy gydol pob agwedd ar eu harhosiad. Mae'r gronfa'n agored i awdurdodau lleol ac Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol.

### *Unrhyw ddyraniadau mewn perthynas â r leĀ ymwelwyr a chynigion deddfwriaethol ar lety twristiaeth*

Dyrannwyd gwerth £0.2m o refeniw a gwerth £0.7m o gyfalaf fel rhan o'r gyllideb hon i gefnogi'r gwaith o ddatblygu'r system gofrestru, sy'n cael ei harwain gan Awdurdod Cyllid Cymru (ACC) fel rhan o'r gwaith o gynllunio'r gwaith o weithredu'r Bil Ardoll Ymwelwyr.

Mae'r costau hyn yn cael eu rhannu â Thrysorlys Cymru ac maent yn seiliedig ar amcangyfrifon cost a ddarperir gan yr Awdurdod.

Mae gwaith yn mynd rhagddo ar y Bil Rheoleiddio Llety Ymwelwyr (SRLS) (Trwyddedu yn benodol). Bydd angen cyllid yn y dyfodol er mwyn rhoi'r Bil hwn ar waith.

Dylid nodi y bydd angen cyllid ychwanegol ar gyfer Rheoleiddio Llety Ymwelwyr yn y dyfodol, yn enwedig ar gyfer datblygu gwasanaeth digidol.

Mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg nawr yn arwain y Bil Llety Ymwelwyr (Cofrestr a Lefi) ac ati (Cymru) a'r Bil Rheoleiddio Llety Ymwelwyr drwy'r Senedd.

### *Cymorth i gyĄawni -Cydweithio er budd manwerthu} cynllun gweithredu Fforwm Manwerthu Cymru*

Lansiwyd y Cynllun Gweithredu Manwerthu ym mis Mai 2023 ac mae'n dwyn ynghyd nifer o gamau gweithredu i gefnogi'r sector manwerthu i symud ymlaen tuag at y Weledigaeth Manwerthu. Mae'r Cynllun Gweithredu yn gynnyrch gwaith partneriaeth gymdeithasol sy'n cael ei arwain gan y Fforwm Manwerthu, gyda'r camau gweithredu'n cael eu cytuno a'u perchenogi ar y cyd.

Cafodd y Fforwm Manwerthu ei ddwyn ynghyd i gefnogi cydweithio agos parhaus rhwng manwerthwyr, cynrychiolwyr y sector manwerthu a Llywodraeth Cymru, gyda'r nodau cychwynnol o adeiladu ar y cysylltiadau da a'r cydweithio a welwyd yn ystod Covid-19. Datblygwyd y Weledigaeth i gydnabod yr angen i gefnogi'r sector manwerthu ar ôl covid gan fod newidiadau strwythurol sylweddol iawn i'n prif strydoedd ac ymddygiad siopa defnyddwyr yn arwain at heriau difrifol iawn i siopau a gweithwyr yn y sector.

Gwnaed penderfyniad ymwybodol gan y Fforwm Manwerthu i ddatblygu'r Cynllun Gweithredu i ddarparu pwrpas, cyfeiriad a ffocws ac i ddylanwadu ar sut y byddai pob parti cysylltiedig yn defnyddio'r adnoddau a'r adnoddau sydd ar gael. Nid oedd unrhyw gyllid wedi'i glustnodi na'i neilltuo i gefnogi'r camau gweithredu yn y cynllun.

Mae'r Cynllun Gweithredu yn nodi cyfleoedd i gydweithio a defnyddio'r adnoddau a'r ysgogiadau sydd ar gael ar draws y bartneriaeth gymdeithasol i sicrhau

canlyniadau cadarnhaol a nodwyd ar gyfer y sector manwerthu yng Nghymru. Mae'r Cynllun Gweithredu yn canolbwyntio ar ble gall y partneriaid cymdeithasol godi ymwybyddiaeth a defnyddio mesurau cymorth presennol ar draws Llywodraeth Cymru. Er enghraifft, drwy'r warant i bobl ifanc a defnyddio ein gallu i gynnull partïon, i ddatblygu'r gwaith a nodir yn y Cynllun Gweithredu i gefnogi'r rheini sy'n gweithio yn y sector a'r busnesau manwerthu i chwarae eu rhan yn cyfrannu, er enghraifft, at uchelgeisiau sero net Llywodraeth Cymru.

Manwerthu yw un o gyflogwyr mwyaf y sector preifat yng Nghymru. Mae'r Cynllun Gweithredu yn amlinellu camau i'w cymryd i sicrhau canlyniadau gwell i'r rheini sy'n gweithio yn y sector, sicrhau bod dyfodol i fanwerthu yng nghanol ein trefi a'n dinasoedd a'i fod yn cyfrannu at waith ehangach i symud ymlaen tuag at Sero Net a sicrhau bod Manwerthu'n bwrw iddi i fynd i'r afael â materion yn ymwneud â chydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.

*Dyraniadau i gefnogi busnesau a gweithwyr wrth drosglwyddo i weithredu n Sero Net[fel dyraniadau i gefnogi r dasg o greu swyddi gwyrdd cynaliadwy[a dyraniadau a fydd yn sicrhau y bydd gan weithwyr y sgiliau angenrheidiol ar gyfer y swyddi hyn*

Ym mis Mehefin 2024, fe wnaethom gyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'n hymgynghoriad ar Sgiliau Sector Sero Net, ochr yn ochr â Chrynodebau Sgiliau'r Sector Allyriadau, a oedd yn cryfhau ein dealltwriaeth o'r sefyllfa sgiliau bresennol a'r heriau sgiliau ar gyfer pob sector allyriadau yng Nghymru a darparu sylfaen dystiolaeth newydd.

Yn 2025-26, bydd Llywodraeth Cymru'n darparu cyllid craidd gwerth £143.498m i Medr a fydd yn cwmpasu amrywiaeth o feysydd gwariant. Un o'r rhain yw darparu cyrsiau rhan-amser, sy'n cynnwys ein prif raglen Cyfrif Dysgu Personol i helpu pobl gyflogedig i uwchsgilio ac ailsgilio. Mae rhan o'r rhaglen hon yn cynnwys 'Cyfrif Dysgu Personol Gwyrdd' i lenwi bylchau sgiliau sero net mewn gwasanaethau adeiladu/gwaith adeiladu, ynni, gweithgynhyrchu a pheirianneg ac yn ehangach. Mae'r cap ar gyflogau wedi cael ei ddileu ar gyfer yr elfen hon er mwyn i fwy o bobl allu cael gafael ar y sgiliau a'r cymwysterau sero net gwerthfawr hyn.

Ym mis Mawrth 2024, cymeradwyodd y Prif Weinidog ar y pryd y dylid creu ffrwd Ymyrraeth wedi'i thargedu y Cyfrif Dysgu Personol gwerth £2m (gyda'r cap cyflog yn cael ei ddileu ar gyfer y rheini y mae diswyddiadau yn TSUK yn effeithio arnynt. Nodwyd y gymeradwyaeth hon gan Weinidog yr Economi ar y pryd a hefyd gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg.

Buddsoddwyd £22.5m yn y Cyfrif Dysgu Personol yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf, i helpu pobl gyflogedig i uwchsgilio ac ailsgilio. Yn ystod Peilot TSUK 2023/24 rhwng mis Ebrill a mis Gorffennaf, helpodd PLA 806 o weithwyr yng nghadwyn gyflenwi TSUK/TSUK i gymryd rhan mewn 998 o raglenni ailsgilio neu

uwchsgilio. Bydd y Cyfrif Dysgu Personol yn parhau i fod ar gael ym mlwyddyn academaidd 2024/25 ac mae 44 yn rhagor wedi cofrestru.

Mae Llywodraeth Cymru wedi gweithredu Rhaglen Sgiliau Hyblyg ers 2016. Mae'r Rhaglen yn grant hyfforddi, sydd ar gael i bob cyflogwr yng Nghymru, sy'n dymuno prynu cyrsiau hyfforddi i gwrdd ag amcanion uwchsgilio a'r posibilrwydd o greu a llenwi mwy o swyddi gwyrdd.  Bydd Llywodraeth Cymru'n cyfrannu 50% tuag at y costau hyfforddi. Mae'n cynnwys rhaglenni penodol i gefnogi bylchau sgiliau yn y Sector Peirianneg a Gweithgynhyrchu yn ogystal â datblygu sgiliau i helpu i fynd i'r afael â chyfleoedd Sero Net newydd. Ym mis Tachwedd, fe aethom ati i lansio cronfa Sgiliau Coedwigaeth a Phren newydd yn y Rhaglen Sgiliau Hyblyg. Mae'n rhan o'n hymdrechion i ddiogelu gweithlu'r sectorau at y dyfodol a darparu llwybr i yrfa ym maes coedwigaeth. Yn 2025-26, bydd gan y Rhaglen gyllideb o £7.531m.

Cynlluniwyd y rhaglen ReAct+ i gefnogi pobl 20 oed a hŷn yr effeithiwyd ar eu gallu i ddod o hyd i waith newydd mewn cyfnod mor fyr â phosibl ar ôl i'w swyddi gael eu dileu. Gall y rhaglen ddarparu grant hyfforddiant galwedigaethol gwerth hyd at £1,500 i helpu cyfranogwyr i ennill y sgiliau y mae cyflogwyr sy'n recriwtio yn chwilio amdanynt. Gellir defnyddio'r grant i uwchsgilio neu i ailhyfforddi ar gyfer gwaith mewn sectorau newydd neu rai sy'n dod i'r amlwg. Mae'r rhaglen yn seiliedig ar wybodaeth gadarn am y farchnad lafur ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol. Yn ddiweddar, mae'r rhaglen wedi ariannu cyrsiau mewn gosod cerbydau trydan gwefru, argraffu olion traed carbon a chynaliadwyedd amgylcheddol.

O safbwynt cyngor busnes, nod Busnes Cymru yw adeiladu cwmnïau cryf a chadarn a darparu mynediad at amrywiaeth o gymorth a gwybodaeth, a chyfeirio busnesau yn ogystal â meysydd cynghori arbenigol fel cymorth ar bolisïau gwyrdd, arferion ac effeithlonrwydd adnoddau, ynghyd â gweithdai a chyngor un-i-un. Mae Busnes Cymru yn hyrwyddo ac yn gweithio i wreiddio ystyriaethau datgarboneiddio a newid hinsawdd yn y gwaith o ddarparu gwasanaethau, er mwyn iddynt fod yn ganolog i drafodaethau â busnesau ochr yn ochr â gwaith teg a chynhyrchiant.

Drwy Busnes Cymru, mae Ymgynghorwyr Datgarboneiddio ar gael i helpu busnesau i fabwysiadu neu wella strategaethau amgylcheddol, ac i weithio gyda busnesau i greu busnes cadarn sy'n defnyddio adnoddau'n effeithlon.

Mae cynghorwyr yn darparu cyngor amrywiol megis defnyddio llai o ddeunyddiau crai i leihau'r risg o brinder deunyddiau, sbarduno arloesedd a chadernid, a helpu busnesau i gyrraedd marchnadoedd newydd. Gallant hefyd helpu busnesau i leihau gorbenion a chynyddu proffidioldeb; cydymffurfio â deddfwriaeth iechyd,

diogelwch ac amgylcheddol; gwella delwedd busnes gyda chwsmeriaid, gweithwyr a'r gymuned leol a gwella'r gweithle a'r amgylchedd lleol.

Fel rhan o'n hymrwymiad i'r Cynllun Sero Net, bydd Busnes Cymru yn gweithio gyda busnesau yng Nghymru, yn enwedig busnesau bach a chanolig, i ymgorffori effeithlonrwydd ynni, defnyddio adnoddau'n effeithlon a thechnolegau carbon isel newydd yn eu mannau gwaith a'u cyfleusterau gweithgynhyrchu, a datblygu ffyrdd newydd o weithio. Mae'r cymorth hwn yn cynnwys cyngor i fusnesau ar newid tymor hwy ynghyd ag ymwybyddiaeth o gymorth ariannol i ddatgarboneiddio a chyngor i ddelio ag effeithiau economaidd yr argyfwng ynni. Mae hyn yn cynnwys datblygu'r Addewid Twf Gwyrdd, sy'n helpu busnesau i wireddu manteision ariannol, amgylcheddol a chymdeithasol gweithredu'n fwy effeithlon, cymryd camau ymarferol i leihau ac ailddefnyddio, dod o hyd i gyflenwyr cyfrifol, arloesi ac ennill mwy o fusnes, ochr yn ochr â'r Contract Economaidd ar gyfer busnesau bach a chanolig sy'n cael cefnogaeth gan Reolwr Cysylltiadau.

Mae gan Fanc Datblygu Cymru gynnig 'buddsoddi i arbed' penodol o'r enw'r Cynllun Benthyciadau Busnes Gwyrdd, sy'n helpu busnesau i leihau eu hallyriadau carbon ac i arbed arian ar eu biliau ynni. Bydd y cynllun peilot hwn yn darparu benthyciadau busnes gwyrdd, a fydd yn galluogi busnesau yng Nghymru i fenthyca arian ar gyfraddau gostyngol a chyda thelerau ad-dalu hyblyg, er mwyn iddynt allu buddsoddi mewn mesurau i leihau eu hôl troed carbon yn ogystal â'u biliau ynni. Gall busnesau ddefnyddio'r arian i wella effeithlonrwydd ynni eu hadeiladau, buddsoddi mewn technoleg ynni adnewyddadwy neu uwchraddio eu peiriannau a'u systemau i leihau eu gwastraff a'u defnydd o ddŵr ac ynni. Yn ogystal â'r cynnig o fenthyciad am bris gostyngol, bydd busnesau sy'n defnyddio'r cynllun yn gallu cael gafael ar wasanaeth ymgynghori drwy Busnes Cymru, i'w cefnogi i benderfynu beth i fuddsoddi ynddo.

Mae gwefan a sianeli cyfryngau cymdeithasol Busnes Cymru wedi rhannu negeseuon ac wedi cyhoeddi amrywiaeth o gynnwys sy'n ymwneud ag effeithlonrwydd adnoddau a newid hinsawdd, yn cynnwys digwyddiadau, cyllid a chyngor cymorth busnes.

Mae Busnes Cymru yn cynnig amrywiaeth o weithdai a gweminarau sy'n rhoi cymorth i fusnesau addasu i'r her newid hinsawdd sy'n datblygu. Er enghraifft, gofynnir i'r rheini sy'n dod i'n gweithdai dechrau busnes greu addewid twf gwyrdd i'w helpu i ddeall manteision arferion busnes cynaliadwy.

Gall busnesau gael gafael ar adnodd cyfrifo ôl troed carbon am ddim yn https://www.carbonfootprint.com/calculator.aspx a https://www.carbonindependent.org/.

Ar ben hynny, mae adnoddau sy'n ymwneud â Thechnoleg Dal Carbon a Dulliau Rheoli Tir ar gyfer Sero Net ar gael ar wefan Cyswllt Ffermio.

Mae Llywodraeth Cymru yn neilltuo £0.15m y flwyddyn i ariannu Cymru Sero Net er mwyn arwain trafodaeth a chefnogi datgarboneiddio diwydiannol yn niwydiant Cymru. Mae'n cefnogi Clwstwr Diwydiannol De Cymru (SWIC) ac arweiniodd y cais am gyllid ar gyfer Clwstwr Diwydiannol Gogledd Ddwyrain Cymru (NEW-ID) ac mae'n parhau i ddarparu cymorth." Ac o sefydlu "blaenoriaethau tymor byr i ganolig:

Galluogi'r diwydiant i ystyried cyfleoedd sy'n manteisio ar gryfderau presennol Cymru drwy wneud y canlynol:

- Arwain y byd ym maes gweithgynhyrchu carbon isel.

Cefnogi economi hydrogen ledled Cymru.

- Creu system Dal, Defnyddio a Storio Carbon (CCUS) a chyfleoedd ar gyfer technoleg allyriadau negyddol ar gyfer diwydiant Cymru.
- Cefnogi datblygiad Economi Gylchol yng Nghymru yn y dyfodol.
- Sbarduno ac angori buddsoddiad i greu a chadw swyddi medrus.
- Ymgysylltu â rhanddeiliaid rhanbarthol a chenedlaethol i gefnogi buddsoddiad cyhoeddus a phreifat.
- Sbarduno'r naratif ar gyfer rôl pob busnes, gan gynnwys busnesau bach a chanolig ar y Daith tuag at Sero Net, gan gynnwys Gwastraff, Ynni ac Allyriadau.

## Ymchwil, Datblygu ac Arloesi

*Manylion unrhyw gyllid yn ystod 979 2?9 3 a fwriedir i ariannu pum blaenoriaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer ymchwil[datblygu ac arloesi yng Nghymru-gan gynnwys unrhyw gyllid sy n ceisio sicrhau bod gan Gymru gyfran deg o r cyllid ymchwil[datblygu ac arloesi sydd ar gael[gan gynnwys unrhyw gyllid yn lle cyllid yr UE*

Mae Cymru'n Arloesi, ein Strategaeth Arloesi'n disodli pum blaenoriaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer ymchwil, datblygu ac arloesi yng Nghymru. Mae'r strategaeth hon yn nodi'r weledigaeth o sut gall arloesi gyflawni ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu ar draws pob portffolio. Mae'n mabwysiadu dull gweithredu sy'n seiliedig ar genhadaeth, gan hyrwyddo cydweithio amlddisgyblaethol.

Mae'r Cynllun Cyflawni yn nodi'r nodau yn y meysydd cenhadaeth, y camau y byddwn yn eu cymryd gyda phartneriaid, mesurau tymor byr, tymor canolig a thymor hir. Mae'n dangos sut bydd ein hecosystem yn newid o gyllid uniongyrchol

yr UE tuag at fodel Ymchwil, Datblygu ac Arloesi cystadleuol sy'n cael mwy o ddylanwad.

Nod y rhaglenni hyn yw cefnogi'r ecosystem o sefydliadau yng Nghymru i gymryd rhan mewn gweithgareddau ymchwil, datblygu ac arloesi naill ai yn eu gweithgareddau eu hunain, neu ar y cyd ar draws sectorau a/neu ffiniau.

Dyma rai o'r sbardunau ariannol:

- Cyllid craidd fel ymchwil o safon.
- Cymorth grant uniongyrchol i fudiadau.
- Cyfleoedd caffael drwy gystadlaethau her y sector cyhoeddus.
- Mentrau sgiliau fel Partneriaethau Trosglwyddo Gwybodaeth.
- Cefnogaeth ymgynghorol arbenigol.
- Cyfleoedd i gydweithio'n rhyngwladol.
- Cyllid craidd ar gyfer capasiti staff yn y GIG, sefydliadau academaidd i gyflawni arloesedd.
- Cyllid i alluogi cydweithio rhwng diwydiant.

Y nod yw creu ymdrechion ymchwil, datblygu ac arloesi sy'n dod â budd i ddinasyddion Cymru, yn ogystal â manteision ehangach i'r DU ac yn rhyngwladol, denu buddsoddiad gan Lywodraeth y DU, cyfalafwyr menter a phartneriaid masnachu ar draws y byd yn lle Cyllid Ewropeaidd.

Aeth Llywodraeth Cymru ati hefyd ym mis Hydref 2023 i gyhoeddi cynllun cydweithredol gydag Innovate UK. Nod y cynllun hwn yw cryfhau'r berthynas rhwng y ddau sefydliad er mwyn sicrhau mwy o fuddsoddiad mewn ymchwil, datblygu ac arloesi yng Nghymru. Ar ôl cyhoeddi'r cynllun, mae swyddogion wedi cydweithio i gyflawni mentrau fel y Cynlluniau Lansio ym maes Sero Net a Thechnoleg Amaeth, gan ystyried cyfleoedd i roi hwb i brosiectau drwy gyd-ariannu a rhannu data. Mae Llywodraeth Cymru bellach yn bartner cyflawni yn Rhaglen Twf Busnes Innovate UK, sy'n canolbwyntio ar weithgarwch rhyngwladoli ar gyfer busnesau gan ddefnyddio Rhwydwaith Menter Ewrop. Mae Innovate UK yn darparu cyllid gwerth £0.625m y flwyddyn i Lywodraeth Cymru, i dalu am orbenion, a sicrhawyd tan fis Mawrth 2026. Mae perthnasoedd hefyd yn datblygu gydag Adrannau eraill Llywodraeth y DU sy'n dosbarthu cyllid ymchwil, datblygu ac arloesi gan gynnwys y Swyddfa Eiddo Deallusol, y Cyflymydd Amddiffyn a Diogelwch a'r Cynghorau Ymchwil ehangach sy'n rhan o UKRI.

*Manylion y cyllid ar gyfer ymchwil ac arloesi ar draws Llywodraeth Cymru*

Mae'r amcangyfrifon ar gyfer Gwariant Ymchwil a Datblygu gan Lywodraeth Cymru yn seiliedig ar ffigurau Trysorlys Cymru. Cyfanswm y niferoedd yw'r rhain ac mae angen eu dilysu a'u cwblhau'n derfynol cyn y daw'r manylion llawn yn glir. Bydd data ar gyfer 2023/24 yn cael ei asesu ddechrau 2025, h.y. ar ôl cwblhau'r

gyllideb bresennol. Yn hanesyddol, mae tair adran wedi dominyddu lefelau cyllid Ymchwil, Datblygu ac Arloesi Llywodraeth Cymru. Yn 2022-23 ymrwymodd holl adrannau Llywodraeth Cymru i werth £193.9m o wariant ar gyfer Ymchwil, Datblygu ac Arloesi.

O'r cyfanswm uchod o £193.9 miliwn gan Lywodraeth Cymru, cyfrifwyd bod tua 74% ohono wedi'i ddyfarnu i sector prifysgolion Cymru. Roedd y gweddill wedi'i ymrwymo'n bennaf i fusnesau (drwy Arloesi a Busnes a Rhanbarthau) a gweithgarwch sy'n ymwneud ag iechyd a gofal (drwy Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru). Mae hyn yn debyg i gyfanswm y DU o ran y cyllid ymchwil, datblygu ac arloesi nad yw ar gyfer busnes (h.y. y sector cyhoeddus, elusennau, mudiadau dyngarol) sy'n mynd i brifysgolion, sef 80% (Adolygiad Syr Paul Nurse o'r Dirwedd Ymchwil, Datblygu ac Arloesi Sefydliadol).

## Masnach

### *Manylion gweithredu trefniadau a rhwymedigaethau newydd o dan Gytundeb Masnach a Chydweithredu r DU?UE*

Mae'r tîm Polisi Masnach bellach yn arwain ar waith sy'n ymwneud â Chytundeb Masnach a Chydweithredu (TCA) y DU a'r UE yn Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn cynnwys ymgysylltu â Llywodraeth y DU ar y gwaith o weithredu'r cytundeb, fel ein presenoldeb ar bwyllgorau'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu. Mae'r tîm hefyd yn darparu cyngor ar draws y sefydliad i sicrhau ein bod yn cyflawni ein rhwymedigaethau o dan y Cytundeb Masnach a Chydweithredu. Mae Tîm Allforio Llywodraeth Cymru yn cefnogi busnesau sy'n allforio i'r UE ar hyn o bryd neu sy'n bwriadu allforio i'r UE. Mae'r tîm Polisi Masnach yn rhoi cyngor i gydweithwyr ar allforio o dan y Cytundeb Masnach a Chydweithredu pan fo angen. Mae'r gwaith hwn yn cael ei gyflawni gan adnoddau staff presennol.

### *Manylion am roi Model Gweithredu Targed y FĀn newydd y DU ar waith[gan gynnwys darparu Saąeoedd Rheolaethau r FĀn yng Nghymru*

Nid yw'r cyllid ar gyfer rhaglenni'r Gororau bellach yn rhan o fy nghyfrifoldeb portffolio o fewn Prif Grŵp Gwariant yr Economi, Ynni a Chynllunio. Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid yn yr Hinsawdd a Materion Gwledig sydd bellach yn gyfrifol am raglenni'r Gororau.

### *Manylion gweithredu cytundebau masnach y DU ar ôl Brexit[gan gynnwys deddfwriaeth berthnasol*

Mae'r tîm Polisi Masnach yn arwain y gwaith o ymgysylltu â llywodraeth y DU ar negodi Cytundebau Masnach Rydd (FTA) newydd ac ar roi'r cytundebau hyn ar waith yng Nghymru. Hyd yma, mae llywodraeth y DU wedi defnyddio deddfwriaeth sylfaenol i roi'r cytundebau newydd ar waith, ar ffurf Deddf Masnach

(2021), Deddf Masnach (Awstralia a Seland Newydd) (2023) a Deddf Masnach (Cytundeb Partneriaeth Gynhwysfawr a Blaengar y Môr Tawel) (2024). Roedd y ddwy ddeddf gyntaf yn creu pwerau cydredol i wneud y newidiadau sydd eu hangen i roi'r bargeinion hyn ar waith mewn meysydd datganoledig, roedd y darpariaethau olaf yn cynnwys darpariaethau i wneud y newidiadau hyn yn uniongyrchol (cydsyniodd y Senedd yn rhannol i'r rhain). Yn yr un modd â gwaith ar y Cytundeb Masnach a Chydweithredu, mae'r tîm Polisi Masnach hefyd yn ymgysylltu â llywodraeth y DU ar weithredu'r cytundebau a'n presenoldeb mewn pwyllgorau ac yn gweithio gyda thimau sy'n ymwneud â busnesau i sicrhau bod busnesau sy'n allforio i'r marchnadoedd hyn yn gallu elwa o'r bargeinion hyn os ydynt yn dymuno. Yr adnodd staff presennol yn y tîm sy'n rheoli hyn.

*Y dyraniadau ariannol i gyąawni Cynllun Gweithredu Allforio i Gymru sef Strategaeth Ryngwladol Llywodraeth Cymru[i gynnwys goblygiadau a fydd yn dod i r amlwg ar ôl i r Strategaeth Ryngwladol ddod i ben yn ₉₇₉2*

Rydym wedi dyrannu £3.752m drwyddi draw i gefnogi Allforio, Masnach a Mewnfuddsoddi. Mae'r gyllideb hon yn cynnwys £3.572m i gyflawni Cynllun Gweithredu Allforio Cymru (ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu) a £0.180m i gefnogi ein hymdrechion i hyrwyddo Cymru fel cyrchfan ar gyfer mewnfuddsoddi, ymrwymiad allweddol yn y Strategaeth Ryngwladol a'r Genhadaeth Economaidd.

Mae'r £3.572m o gyllid a ddyrannwyd i gyflawni'r Cynllun yn sicrhau bod gennym ni amrywiaeth o raglenni allforio a ddarperir gan Dîm Allforio Llywodraeth Cymru i helpu busnesau gyda'u taith allforio– o ysbrydoli busnesau i allforio; meithrin y gallu i allforio; dod o hyd i gwsmeriaid tramor; a chyrraedd marchnadoedd tramor. Mae'r dirwedd fasnachu fyd-eang a materion geowleidyddol ehangach yn dal i effeithio ar fasnach ryngwladol. Mae'r ystadegau allforio dros dro diweddaraf yn dangos mai gwerth allforion nwyddau Cymru yw £18.6bn yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mehefin 2024, £1.8 bn (9.0%) yn is na'r flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mehefin 2023. Mae hyn yn dangos pwysigrwydd darparu cymorth cynhwysfawr i fusnesau Cymru i ddatblygu er mwyn sbarduno twf pellach yn allforion Cymru.

Mae'r Prif Weinidog wedi cytuno y caiff oes y Strategaeth Ryngwladol ei hymestyn y tu hwnt i 2025, hyd at ddiwedd tymor y Senedd hon. Bydd yn nodi ei blaenoriaethau cyflawni ar gyfer gweddill tymor y Strategaeth, gan gynnwys y cyfnod estynedig, ddechrau'r flwyddyn nesaf.

# Atodiadau

## Atodiad A – Llinellau Gwariant y Gyllideb – Prif Grŵp Gwariant yr Economi, Ynni a Chynllunio

| Llinell Wariant yn y Gyllideb (Refeniw) | | Cynlluniau yn unol â Chyllideb Derfynol 2024-25 Wedi ailddatgan Medi 2024 | Addasiadau i'r Llinell Sylfaen ar gyfer 2025-26 | Llinell Sylfaen Ddiwygiedig 2025-26 | Newidiadau | Cyllideb Ddrafft 2025-26 Rhagfyr 2024 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd |
| Datblygiad Economaidd Rhanbarthol a Busnes | | 7,382 | 12 | 7,394 | -2,000 | 5,394 |
| Datblygu Economaidd Rhanbarthol a Busnes – Nad yw'n arian parod | | 0 | 0 | 0 | 700 | 700 |
| Busnes Cymru | | 22,426 | 11 | 22,437 | 0 | 22,437 |
| Y Cymoedd Technoleg | | 1,758 | 2 | 1760 | 0 | 1,760 |
| Tasglu'r Cymoedd | | 100 | 2 | 102 | 0 | 102 |
| Allforio, Masnach a Mewnfuddsoddi | | 3,752 | 0 | 3752 | 0 | 3,752 |
| Cam Gweithredu: | Busnes Cymru / Entrepreneuriaeth ac Economi Ranbarthol | 35,418 | 27 | 35445 | -1,300 | 34,145 |
| Cronfeydd Cyllid Busnes - nad yw'n arian parod | | 0 | 0 | 0 | 1,500 | 1,500 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cam Gweithredu: | Cyfanswm Banc Datblygu Cymru | 0 | 0 | 0 | 1,500 | 1,500 |
| Seilwaith Eiddo | | 5,268 | 0 | 5268 | -3,000 | 2,268 |
| Seilwaith Eiddo – nad yw'n arian parod | | 0 | 0 | 0 | 13,600 | 13,600 |
| Prosiect Cydgasglu Band Eang y Sector Cyhoeddus | | 11,500 | 6 | 11,506 | 1,000 | 12,506 |
| Gweithrediadau Seilwaith TGCh | | 868 | 0 | 868 | 0 | 868 |
| Gweithrediadau Seilwaith TGCh - Nad yw'n arian parod | | 2,309 | 0 | 2,309 | 15 | 2,324 |
| Cam Gweithredu: | Datblygu Seilwaith Economaidd | 19,945 | 6 | 19,951 | 11,615 | 31,566 |
| Strategaeth Ddigidol i Gymru | | 4,290 | 44 | 4,334 | 102 | 4,436 |
| Cam Gweithredu: | Cyfanswm Cyflawni'r Strategaeth Ddigidol | 4,290 | 44 | 4,334 | 102 | 4,436 |
| Cymru Iach ar Waith | | 100 | 0 | 100 | 0 | 100 |
| Gwasanaethau a Rhaglenni Corfforaethol | | 512 | 1 | 513 | 0 | 513 |
| Digwyddiadau Busnes Strategol a Chyfathrebu | | 65 | 0 | 65 | 0 | 65 |
| Cam Gweithredu: | Rhaglenni Corfforaethol | 677 | 1 | 678 | 0 | 678 |
| Prentisiaethau | | 143,898 | 4 | 143,902 | 0 | 143,902 |
| Cam Gweithredu: | Prentisiaethau | 143,898 | 4 | 143,902 | 0 | 143,902 |
| Cyflogadwyedd – Gan gynnwys y Warant i Bobl Ifanc | | 102,101 | 448 | 102,549 | 7,308 | 109,857 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyflogadwyedd Gan gynnwys y Warant i Bobl Ifanc - Nad yw'n arian parod | | 1,400 | 0 | 1,400 | 930 | 2,330 |
| Cam Gweithredu: | Cyflogadwyedd – Gan gynnwys y Warant i Bobl Ifanc | 103,501 | 448 | 103,949 | 8,238 | 112,187 |
| Arloesi ym myd Busnes | | 239 | 70 | 309 | 0 | 309 |
| Cam Gweithredu: | Arloesi | 239 | 70 | 309 | 0 | 309 |
| Gwyddoniaeth | | 932 | 6 | 938 | 0 | 938 |
| Cam Gweithredu: | Gwyddoniaeth | 932 | 6 | 938 | 0 | 938 |
| Twristiaeth | | 9,126 | 15 | 9141 | 0 | 9,141 |
| Twristiaeth – Nad yw'n arian parod | | 0 | 0 | 0 | 20 | 20 |
| Digwyddiadau Cymru | | 3,665 | 4 | 3669 | 1,500 | 5,169 |
| Cymru Greadigol | | 5,316 | 0 | 5,316 | 1,220 | 6,536 |
| Cymru Greadigol – Nad yw'n arian parod | | 0 | 0 | 0 | 10 | 10 |
| Cam Gweithredu: | Hyrwyddo a Diogelu Lle Cymru yn y Byd | 18,107 | 19 | 18,126 | 2,750 | 20,876 |
| Cymorth i Raglenni | | 1,707 | 54 | 1,761 | 0 | 1,761 |
| Cam Gweithredu: | Rheoli Cyllid Ewropeaidd | 1,707 | 54 | 1,761 | 0 | 1,761 |
| Maes Awyr Rhyngwladol Caerdydd | | -3000 | 0 | -3000 | 0 | -3000 |
| Cam Gweithredu: | Cyfanswm Maes Awyr Rhyngwladol Caerdydd | -3000 | 0 | -3,000 | 0 | -3,000 |
| Cynllun Trwyddedu Cofrestriadau Statudol | | 0 | 0 | 0 | 200 | 200 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cam Gweithredu: | Cynllun Trwyddedu a Chofrestriadau Statudol | 0 | 0 | 0 | 200 | 200 |
| Ynni Gwyrdd | | 3,297 | 10 | 3,307 | 5,150 | 8,457 |
| Ynni Cymru | | 2,470 | 0 | 2,470 | 0 | 2,470 |
| Cam Gweithredu: | Effeithlonrwydd Ynni | 5,767 | 10 | 5,777 | 5,150 | 10,927 |
| Partneriaethau Cymdeithasol | | 892 | 8 | 900 | 0 | 900 |
| Cam Gweithredu: | Partneriaeth Gymdeithasol | 892 | 8 | 900 | 0 | 900 |
| Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru | | 2,997 | 71 | 3,068 | 1,900 | 4,968 |
| Gwariant Cynllunio a Rheoleiddio | | 1,999 | 6 | 2,005 | 1,841 | 3,846 |
| Cam Gweithredu: | Cynllunio a Rheoleiddio | 4,996 | 77 | 5,073 | 3,741 | 8,814 |
| Cyngor Celfyddydau Cymru | | 30,429 | 64 | 30493 | 1,095 | 31,588 |
| Cyngor Celfyddydau Cymru – Nad yw’n arian parod | | 119 | 0 | 119 | 0 | 119 |
| Amgueddfa Cymru | | 25,504 | 276 | 25,780 | 920 | 26,700 |
| Amgueddfa Cymru – Nad yw'n arian parod | | 2,400 | 0 | 2,400 | 900 | 3,300 |
| Llyfrgell Genedlaethol Cymru | | 11,093 | 129 | 11222 | 400 | 11,622 |
| Llyfrgell Genedlaethol Cymru – Nad yw’n arian parod | | 1,250 | 0 | 1,250 | 1,118 | 2,368 |
| Cymorth i Ddiwylliant a Chwaraeon Lleol | | 6,668 | 12 | 6680 | 1,200 | 7,880 |
| Darlledu a’r Cyfryngau | | 1,100 | 0 | 1,100 | -1,100 | 0 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cam Gweithredu: | Cymorth i Ddiwylliant a'r Celfyddydau | 78,563 | 481 | 79,044 | 4,533 | 83,577 |
| Cadw | | 8,547 | 468 | 9015 | 430 | 9,445 |
| Cadw – Nad yw'n arian parod | | 5,480 | 0 | 5,480 | 0 | 5,480 |
| Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru | | 525 | 0 | 525 | 19 | 544 |
| Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru | | 1,656 | 57 | 1,713 | 60 | 1,773 |
| Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru - Nad yw'n arian parod | | 134 | 0 | 134 | 0 | 134 |
| Cam Gweithredu: | Cymorth i'r Amgylchedd Hanesyddol | 16,342 | 525 | 16,867 | 509 | 17,376 |
| Chwaraeon Cymru | | 20,978 | 65 | 21,043 | 755 | 21,798 |
| Chwaraeon Cymru – Nad yw'n arian parod | | 779 | 0 | 779 | 0 | 779 |
| Cam Gweithredu: | Chwaraeon a Gweithgarwch Corfforol | 21,757 | 65 | 21,822 | 755 | 22,577 |
| MEG: | ECONOMI, YNNI A CHYNLLUNIO | 454,031 | 1,845 | 455,876 | 37,793 | 493,669 |

| Llinell Wariant yn y Gyllideb (Cyfalaf) | | Cynlluniau yn unol â Chyllideb Derfynol 2024-25 Wedi ailddatgan Medi 2024 | Addasiadau i'r Llinell Sylfaen ar gyfer 2025-26 | Llinell Sylfaen Ddiwygiedig 2025-26 | Newidiadau | Cyllideb Ddrafft 2025-26 Rhagfyr 2024 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd |
| Datblygiad Economaidd Rhanbarthol a Busnes | | 64,650 | -36000 | 28650 | 28,000 | 56650 |
| Datblygiad Economaidd Rhanbarthol a Busnes – Ad-daliad | | -2,389 | 2,389 | 0 | -1,157 | -1,157 |
| Busnes Cymru | | 18,500 | 0 | 18,500 | -18,500 | 0 |
| Y Cymoedd Technoleg | | 5,000 | 0 | 5,000 | 0 | 5,000 |
| Cam Gweithredu: | Busnes Cymru / Entrepreneuriaeth ac Economi Ranbarthol | 85,761 | -33,611 | 52,150 | 8,343 | 60,493 |
| Cronfeydd Cyllid Busnes | | 15,000 | -15,000 | 0 | 9,500 | 9,500 |
| Cronfeydd Cyllid Busnes – Ad-daliad | | -33,900 | 33,900 | 0 | -11,000 | -11,000 |
| Cam Gweithredu: | Banc Datblygu Cymru | -18,900 | 18,900 | 0 | -1,500 | -1,500 |
| Seilwaith Eiddo | | 10,000 | 0 | 10000 | 23,379 | 33,379 |
| Seilwaith Eiddo – Ad-daliad | | -365 | 365 | 0 | -365 | -365 |
| Gweithrediadau Seilwaith TGCh | | 27,700 | -7,700 | 20,000 | 0 | 20,000 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cam Gweithredu: | Datblygu Seilwaith Economaidd | 37,335 | -7335 | 30,000 | 23,014 | 53,014 |
| Cyflogadwyedd – Gan gynnwys y Warant i Bobl Ifanc | | 2,000 | 0 | 2000 | 0 | 2000 |
| Cam Gweithredu: | Cyflogadwyedd – Gan gynnwys y Warant i Bobl Ifanc | 2,000 | 0 | 2000 | 0 | 2000 |
| Arloesi ym myd Busnes | | 10,000 | 0 | 10,000 | 0 | 10,000 |
| Cam Gweithredu: | Arloesi | 10,000 | 0 | 10000 | 0 | 10000 |
| Gwyddoniaeth | | 5,000 | 0 | 5000 | 0 | 5000 |
| Cam Gweithredu: | Gwyddoniaeth | 5,000 | 0 | 5,000 | 0 | 5,000 |
| Twristiaeth | | 5,000 | 0 | 5000 | 1000 | 6000 |
| Creadigol | | 5,000 | 0 | 5,000 | 2,000 | 7,000 |
| Cam Gweithredu: | Hyrwyddo a Diogelu Lle Cymru yn y Byd | 10,000 | 0 | 10,000 | 3,000 | 13,000 |
| Maes Awyr Rhyngwladol Caerdydd | | 1,783 | 0 | 1,783 | 0 | 1,783 |
| Cam Gweithredu: | Maes Awyr Rhyngwladol Caerdydd | 1,783 | 0 | 1,783 | 0 | 1,783 |
| Cynllun Trwyddedu a Chofrestriadau Statudol | | 0 | 0 | 0 | 700 | 700 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Cam Gweithredu: Cynllun Trwyddedu a Chofrestriadau Statudol | 0 | 0 | 0 | 700 | 700 |
| Bargeinion Dinesig a Bargeinion Twf | 22,000 | 0 | 22,000 | 88,477 | 110,477 |
| Cam Gweithredu: Bargeinion Dinesig a Bargeinion Twf | 22,000 | 0 | 22,000 | 88,477 | 110,477 |
| Ynni Gwyrdd | 17,200 | -4,800 | 12,400 | 0 | 12,400 |
| Ynni Cymru | 10,000 | 0 | 10,000 | 0 | 10,000 |
| Cam Gweithredu: Effeithlonrwydd Ynni | 27,200 | -4,800 | 22,400 | 0 | 22,400 |
| Cyngor Celfyddydau Cymru | 400 | 0 | 400 | 0 | 400 |
| Amgueddfa Cymru | 5,000 | 0 | 5,000 | 0 | 5,000 |
| Llyfrgell Genedlaethol Cymru | 2,000 | 0 | 2000 | 0 | 2,000 |
| Cymorth i Ddiwylliant a Chwaraeon Lleol | 24,700 | 0 | 24,700 | 8,100 | 32,800 |
| Cam Gweithredu: Cymorth i Ddiwylliant a'r Celfyddydau | 32,100 | 0 | 32,100 | 8,100 | 40,200 |
| Cadw | 10,000 | 0 | 10000 | 6,321 | 16,321 |
| Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru | 200 | 0 | 200 | 0 | 200 |
| Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru | 50 | 0 | 50 | 0 | 50 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cam Gweithredu: | Cymorth i'r Amgylchedd Hanesyddol | 10,250 | 0 | 10,250 | 6,321 | 16,571 |
| Chwaraeon Cymru | | 8,016 | 0 | 8,016 | 2000 | 10,016 |
| Cynllun Benthyciadau Cyfalaf Chwaraeon | | -1,231 | 1,231 | 0 | -500 | -500 |
| Cam Gweithredu: | Chwaraeon a Gweithgarwch Corfforol | 6,785 | 1,231 | 8,016 | 1,500 | 9,516 |
| MEG: | ECONOMI, YNNI A CHYNLLUNIO | 231,314 | -25,615 | 205699 | 137,955 | 343,654 |

# Atodiad B – Sylwadau ar Gamau Gweithredu – MEG yr Economi, Ynni a Chynllunio[1]

## Adnoddau

*Cam Gweithredu Busnes Cymru — Entrepreneuriaeth ac Economi Ranbarthol*

Bu gostyngiad net o £1.3m i'r Cam Gweithredu ers llinell sylfaen ddiwygiedig 2025-26, gan ddod â chyfanswm cyllid 2025-26 i £34.145m. Mae'r gostyngiad net yn ymwneud yn bennaf ag ailflaenoriaethu cyllid ar draws y Prif Grŵp Gwariant i ddarparu buddsoddiad ychwanegol i'n rhaglenni sgiliau. Gostyngiad o £2m o Linell Wariant yn y Gyllideb (BEL) Datblygu Economaidd Rhanbarthol a Busnes 3751, oherwydd newid posibl yn y ffordd y mae rhaglen Arfor yn cael ei darparu. Mae trafodaethau'n cael eu cynnal gyda phartneriaid ynghylch dyfodol y rhaglen a'r cyfleoedd i brif ffrydio'r gwersi a ddysgwyd oddi wrthi. Dyrannwyd £0.700m ychwanegol i BEL Datblygu Economaidd Rhanbarthol a Busnes (nad yw'n arian parod) 3751 sy'n cynnwys costau sy'n gysylltiedig â lesoedd y rhoddwyd cyfrif amdanynt o dan IFRS16, a gafodd eu mabwysiadu o 1 Ebrill 2022 ymlaen a'u rheoli'n flaenorol mewn Cyllidebau Atodol.

BEL Busnes a Datblygiad Economaidd Rhanbarthol

Mae'r cyllid yn y BEL hwn yn cefnogi partneriaethau, gwaith ymgysylltu a mentrau i ddatblygu uchelgeisiau'r Genhadaeth Economaidd, [Y Genhadaeth](), a chyflogadwyedd ar gyfer twf cynhwysol ac adeiladu'r economi i fod yn gynaliadwy yn y tymor hir.

BEL Busnes Cymru

- Mae'r gyllideb yn cefnogi entrepreneuriaeth ieuenctid a'r warant i bobl ifanc, busnesau newydd, microfusnesau, busnesau bach a chanolig, hyrwyddwyr anabledd, mentrau cymdeithasol ac arferion busnes cyfrifol. Mae'r gwasanaethau'n cefnogi'r rheini sydd â

1 Camau gweithredu: Mae Cyflogaeth a Sgiliau, Prentisiaethau, Maes Awyr Rhyngwladol Caerdydd, Effeithlonrwydd Ynni, Partneriaeth Gymdeithasol, Cymorth i'r Diwylliant a'r Celfyddydau, Cymorth i'r Amgylchedd Hanesyddol, Chwaraeon a Gweithgarwch Corfforol i gyd yn cael sylw o dan bapurau tystiolaeth eraill a ddarperir i Bwyllgorau perthnasol.

rhwystrau cudd a bydd cymorth wedi'i dargedu yn parhau i gael ei ddarparu i gefnogi'r unigolion hynny, fel entrepreneuriaid benywaidd ac ifanc a grwpiau Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol.

- Mae'r gyllideb hefyd yn cynnwys darparu £1m ar gyfer yr economi sylfaenol, gan alluogi swyddi wrth galon cymunedau lleol ar draws sectorau fel gofal a gwasanaethau iechyd; bwyd; tai; ynni; twristiaeth; adeiladu a manwerthu.

<u>BEL Y Cymoedd Technoleg</u>

- Mae'r Cymoedd Technoleg yn ymrwymiad gan y Rhaglen Lywodraethu dros ddeng mlynedd (hyd at 2028) i greu 1,500 o swyddi cynaliadwy, cynyddu cyflog wythnosol cyfartalog a gwerth ychwanegol gros sy'n canolbwyntio ar Flaenau Gwent, drwy fanteisio ar gyfleoedd sy'n deillio o'r pedwerydd chwyldro diwydiannol, annog mabwysiadu technolegau digidol, a datblygu technolegau datblygedig gwerth uchel sy'n cefnogi diwydiannau arloesol fel 5G, technoleg batris, ac ymchwil i gerbydau modurol. Mae effaith y buddsoddiad hwn yn cyrraedd holl ardaloedd Cymoedd y De.

<u>BEL Tasglu'r Cymoedd</u>

- Mae'r cyllid yn cynnal cyllideb refeniw flynyddol o £0.1m i helpu'r rhaglen gyfalaf i gyflawni rhaglen Ein Cymoedd, Ein Dyfodol.

<u>BEL Allforio, Masnach a Mewnfuddsoddi</u>

- Mae'n galluogi cyflawni Cynllun Gweithredu Cymru ar gyfer Allforio, i sicrhau twf tymor hir yn allforion Cymru; a, gweithgareddau i gefnogi hybu Cymru fel lleoliad ar gyfer mewnfuddsoddi.

### *Cam Gweithredu Banc Datblygu Cymru*

<u>BEL Cronfeydd Cyllid Busnes - nad yw'n arian parod</u>

- Cyllid ychwanegol o £1.5m yn 2025-26 ar gyfer costau dibrisiant ac amorteiddiad (£1m) a £0.5m arall ar gyfer dibrisiant asedau ar brydles ar gyfer lesoedd y rhoddir cyfrif amdanynt o dan IFRS16.

*Cam Gweithredu Datblygu Seilwaith Economaidd*

Bu cynnydd net o £11.615m yn y Cam Gweithredu o'i gymharu â llinell sylfaen ddiwygiedig 2025-26. Mae'r cynnydd yn bennaf oherwydd cynnydd o £13.6m i'r BEL Seilwaith Eiddo – nad yw'n arian parod a £0.015m i'r BEL Gweithrediadau Seilwaith TGCh – nad yw'n arian parod sy'n cynnwys costau sy'n gysylltiedig â lesoedd y rhoddir cyfrif amdanynt o dan IFRS 16. Dyrannwyd gwerth £1m o gyllid ychwanegol i'r BEL Prosiect Cydgasglu Band Eang y Sector Cyhoeddus. Bydd hyn yn golygu bod modd paratoi llwybr ymadael wedi'i reoli i gontract presennol y Prosiect. Rhoddwyd gostyngiad o £3m ar waith i'r BEL Seilwaith Eiddo sy'n cynnwys addasiadau oherwydd ailddosbarthu cyllidebau sy'n gysylltiedig â'r safon cyfrifyddu ar gyfer lesoedd (IFRS16).

<u>BEL Seilwaith Eiddo</u>

- Mae'r cyllid yn y BEL hwn yn cefnogi'r gwaith o gyflenwi safleoedd ac adeiladau cyflogaeth er mwyn diwallu anghenion busnesau a sicrhau mantais gystadleuol o ran denu, cadw a datblygu busnesau yng Nghymru. Mae'r gyllideb refeniw yn sicrhau bod Gweinidogion Cymru yn cyflawni eu rhwymedigaethau cyfreithiol a statudol fel landlordiaid a pherchnogion tir wrth reoli'r portffolio eiddo datblygu economaidd, gan gynnwys rheoli Sain Tathan a'r taliadau unedol o dan gynllun Menter Cyllid Preifat Rhodfa Lloyd George. Ategir y gyllideb gan incwm arall, yn bennaf derbyniadau rhent ac elw o waredu tir ac adeiladau.

<u>BEL Cydgasglu Band Eang y Sector Cyhoeddus</u>

- Mae'r cyllid yn y BEL hwn ar gyfer Contract Cydgasglu Band Eang y Sector Cyhoeddus sy'n sail i'r gwasanaeth cysylltedd digidol a ddefnyddir gan dros 120 o sefydliadau yn y sector cyhoeddus ar draws Cymru. Mae gan y gwasanaeth rhwydwaith Cydgasglu Band Eang y Sector Cyhoeddus, sy'n hollbwysig i fusnesau, dros 5,000 o gysylltiadau ac fe'i sefydlwyd yn 2007. Dyrannwyd £1m ychwanegol i'r BEL hwn fel rhan o gyllideb 2025-26.

<u>BEL Gweithrediadau Seilwaith TGCh</u>

- Mae’r cyllid yn y BEL hwn yn cefnogi’r gwaith o ddarparu Seilwaith Digidol ar draws Cymru. Mae’r gyllideb refeniw hefyd yn sicrhau bod Gweinidogion Cymru yn gallu adolygu a monitro penderfyniadau polisi Digidol a wneir gan Lywodraeth y DU, i sicrhau bod buddiannau Cymru yn cael eu diogelu.

<u>BEL Gweithrediadau Seilwaith TGCh - Nad yw'n arian parod</u>

- Mae’r cyllid yn y BEL hwn ar gyfer taliadau dibrisiant rhwydwaith Fibrespeed sy’n eiddo i Lywodraeth Cymru yng Ngogledd Cymru. Mae’r £0.015m ychwanegol yn ymwneud â’r costau sy’n gysylltiedig â lesoedd y rhoddir cyfrif amdanynt o dan IFRS 16.

### *Cyflawni’r Strategaeth Weithredu Ddigidol*

Bu cynnydd o £0.102m i’r Cam Gweithredu ers llinell sylfaen ddiwygiedig 2025-26, gan ddod â chyfanswm cyllid ar gyfer y Cam Gweithredu i £4436m. Mae’r cynnydd yn ymwneud â chynnydd i gefnogi dyfarniad cyflog y sector cyhoeddus ar gyfer y Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol.

<u>BEL Strategaeth Ddigidol i Gymru</u>

- Mae’r cyllid yn y BEL hwn yn ymwneud â chyllideb y Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol (CDPS) sy’n sail i Genhadaeth 1 y Strategaeth Ddigidol i Gymru. Mae’r Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol yn gyfrifol am wella gallu digidol ar draws y sector cyhoeddus, darparu safonau ac arweiniad a gweithio gyda sefydliadau eraill i gyflawni trawsnewid digidol.

### *Cam Gweithredu Rhaglenni Corfforaethol*

Ni fu unrhyw newidiadau i’r Cam Gweithredu o’i gymharu â’r llinell sylfaen ddiwygiedig ar gyfer 2025-26. Mae cyfanswm y cyllid ar gyfer y Cam Gweithredu yn parhau ar £0.678m ar gyfer blwyddyn ariannol 2025-26.

<u>BEL Cymru Iach ar Waith</u>

- Mae cyllideb Cymru Iach ar Waith yn darparu’r rhaglen genedlaethol sy’n cefnogi cyflogwyr i greu gweithleoedd a gwaith iachach er budd eu gweithwyr a’r gymuned ehangach. Mae Doeth am Iechyd Cymru yn cael ei ariannu ar y cyd gan y Prif Grŵp Gwariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a Phrif Grŵp Gwariant yr Economi, Ynni

a Chynllunio. Mae swyddogion o'r ddwy adran yn gweithio'n agos i fanteisio i'r eithaf ar fanteision iechyd ac economaidd y rhaglen. Mae £0.100m wedi cael ei gynnal yn 2025-26 i gefnogi'r gweithgarwch hwn.

<u>BEL Gwasanaethau a Rhaglenni Corfforaethol</u>

- Mae cyllideb flynyddol Rhaglenni Corfforaethol yn bennaf yn cyllido'r system rheoli cysylltiadau cwsmeriaid busnes, a oedd yn hanfodol yn ystod y pandemig er mwyn i Lywodraeth Cymru allu prosesu grantiau'r Gronfa Cadernid Economaidd. Mae'r gyllideb hefyd yn cynnwys darpariaeth fach ar gyfer gwerthusiadau. Mae'r gyllideb wedi parhau ar £0.531m o'i gymharu â llinell sylfaen ddiwygiedig 2025-26.

<u>BEL Digwyddiadau Busnes Strategol a Chyfathrebu</u>

- Mae'r gyllideb Cyfathrebu o £0.065m bob blwyddyn yn cefnogi digwyddiadau busnes ac ymgysylltu strategol.

*Cam Gweithredu Arloesi*

£0.309m yw'r gyllideb ar gyfer y cam gweithredu yn 2025-26.

<u>BEL Arloesi ar gyfer Busnes</u>

- Mae'r BEL yn ariannu'r cymorth ariannol ar gyfer cynlluniau Ymchwil, Datblygu ac Arloesi, gan gynnwys y cynllun Cymorth Arloesi Hyblyg SMART, cynllun y Fenter Ymchwil Busnesau Bach (SBRI) a'r Rhaglen Cefnogi Arloesedd ac Ymchwil Gydweithredol (CRISP). Er bod incwm yr UE wedi dod i ben, ein blaenoriaethau o hyd yw:

  - Defnyddio capasiti ymchwil, datblygu ac arloesi i gefnogi ein Rhaglen Lywodraethu, gan ganolbwyntio ar dwf economaidd,
  - Cefnogi ymdrechion i fynd i'r afael ag effaith newid yn yr hinsawdd, sbarduno adferiad amgylcheddol a datgarboneiddio;
  - Cefnogi arloesi ym maes Iechyd a Gwyddorau Bywyd, ochr yn ochr â chyllidebau Arloesi ym maes Iechyd a Gofal;

- Twf a datblygu sgiliau yn y sylfaen ymchwil ac arloesi sefydledig - dileu a disodli gyda. Cefnogi cydweithio trawsffiniol a thraws-sector ar draws y sylfaen ymchwil ac arloesi.

*Cam Gweithredu Gwyddoniaeth*

Ni fu unrhyw newid i'r Cam Gweithredu ac mae'r cyllid yn parhau i fod yn £0.938m o'i gymharu â llinell sylfaen ddiwygiedig 2025-26.

<u>BEL Gwyddoniaeth</u>

- Mae nifer o raglenni cyfoethogi STEM yn cael eu hystyried. Mae hyn yn cynnwys cefnogi cynllun peilot 3 blynedd i gymell rhieni a gofalwyr plant ysgolion cynradd i wella eu sgiliau mathemateg a rhifedd. Mae hyn yn rhan o fenter ehangach, mewn cydweithrediad â chydweithwyr addysg, i gyflawni'r amcan o ymgysylltu â rhieni a gofalwyr ar Gynllun Mathemateg a Rhifedd Llywodraeth Cymru. Mae'r gyllideb hon hefyd yn cyfrannu at hyrwyddo Swyddfa Llywodraeth Cymru dros Wyddoniaeth a'i gweithgareddau ymgysylltu, gan gynnwys seminarau ymgysylltu â rhanddeiliaid, arolygon agweddau'r cyhoedd at Wyddoniaeth, Wythnos Gwyddoniaeth Prydain, Gwyddoniaeth yn y Senedd, Gwobrau CREST, Medalau LSW, adolygiadau perfformiad gwyddoniaeth a gomisiynwyd a hyrwyddo amrywiaeth a chydraddoldeb rhwng y rhywiau yn y meysydd Ymchwil ac Arloesi, a Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg (STEM).

*Cam Gweithredu Hyrwyddo a Diogelu Lle Cymru yn y Byd*

Bu cynnydd o £2.750m i'r Cam Gweithredu ers llinell sylfaen ddiwygiedig 2025-26, gan ddod â chyfanswm cyllid ar gyfer y Cam Gweithredu i £20.876m. Mae'r cynnydd net yn ymwneud â chynnydd o £1.5m yn y cyllid ar gyfer BEL Digwyddiadau Cymru a fydd yn cefnogi'r digwyddiadau mawr rydym wedi'u cynllunio yn 2027 a 2028, a bydd yn ein galluogi i fanteisio i'r eithaf ar fanteision a gwaddol y digwyddiadau hyn, yn enwedig mewn perthynas â phedair prif flaenoriaeth Llywodraeth Cymru. Mae cyllid ychwanegol wedi cael ei ddyrannu i'r BEL Twristiaeth – nad yw'n arian parod (£0.020m) a BEL Cymru Greadigol nad yw'n arian parod (£0.010m) mewn perthynas â dibrisiant asedau sefydlog. Cynyddwyd BEL Cymru Greadigol o £1.220m o'i gymharu â'r llinell sylfaen ddiwygiedig ar gyfer 2025-26 sy'n adlewyrchu cefnogaeth ychwanegol i'r Cyngor Llyfrau (£0.120m) yn dilyn toriadau a wnaed fel rhan o gylch diwethaf y gyllideb a throsglwyddiad o £1.1m o fewn y Prif Grŵp Gwariant i'r BEL o'r BEL Darlledu a'r Cyfryngau i symleiddio cyllid o fewn y Prif Grŵp Gwariant.

BEL Twristiaeth

- Mae'r cyllid yn helpu i ddatblygu twristiaeth ac i fuddsoddi mewn marchnata sy'n cyd-fynd â'n strategaeth gyffredinol – **Croeso i Gymru-Blaenoriaethau i'r Economi Ymwelwyr 2020-2025** – i gynyddu twristiaeth er budd Cymru, gan sicrhau manteision economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol.

BEL Twristiaeth nad yw'n arian parod

- Dyrannwyd gwerth £0.020m o gyllid i'r BEL hwn ar gyfer costau dibrisiant asedau sefydlog.

BEL Digwyddiadau Cymru

- Dyrannwyd £1.5m ychwanegol i'r BEL hwn yn 2025-26 i gefnogi ein rhaglenni digwyddiadau. Cyfanswm y cyllid ar gyfer y BEL yn 2025-26 yw £5.169m

  Yn unol â **Strategaeth Ddigwyddiadau Genedlaethol newydd Cymru ar gyfer 2022 i 2030 | LLYW.CYMRU**, bydd y gyllideb flynyddol yn parhau i gefnogi digwyddiadau ym myd chwaraeon, y celfyddydau a busnes yng Nghymru, yn ogystal ag ystyried y cyfleoedd posibl gyda digwyddiadau rhyngwladol, fel y cais ar y cyd rhwng y DU ac Iwerddon ar gyfer Euros 2028. Byddwn yn buddsoddi i gefnogi digwyddiadau sy'n sicrhau manteision a gwaddol economaidd, cymdeithasol a diwylliannol yn unol â'r strategaeth newydd.

  Byddwn yn parhau i geisio cael amrediad daearyddol a thymhorol llawn o ddigwyddiadau o Fôn i Fynwy. Bydd hyn yn cynnwys cefnogi'r gwaith o ddatblygu seilwaith sy'n berthnasol i ddigwyddiadau, a helpu sector cryf a chynaliadwy i ddatblygu yng Nghymru drwy fuddsoddi mewn sgiliau a datblygu'r gadwyn gyflenwi.

BEL Cymru Greadigol

- Mae'r cyllid yn y BEL hwn wedi cynyddu o £1.220m yn 2025-26 o'i gymharu â llinell sylfaen ddiwygiedig 2025-26. Mae hyn oherwydd

trosglwyddiad o fewn Prif Grŵp Gwariant o'r BEL Darlledu a'r Cyfryngau (£1.1m) a £0.120m i gefnogi'r Cyngor Llyfrau.

Yn unol â themâu'r Flaenoriaeth (fel y nodwyd yn 2020), mae cyllid yn cefnogi'r gweithgareddau datblygu sectorau blaenoriaeth a buddsoddiad marchnata i roi Cymru yn y sefyllfa orau er mwyn i greadigrwydd ffynnu drwy sbarduno twf ar draws y diwydiannau creadigol, adeiladu ar lwyddiant presennol a datblygu talent a sgiliau newydd.

Bydd Cymru Greadigol yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu sgiliau, codi safonau, a hyrwyddo amrywiaeth a chydraddoldeb ar draws y sector, gan weithio i chwalu rhwystrau rhag mynediad a chynyddu cyfleoedd i weithio yn y sector, symleiddio mecanweithiau cyllido a chymryd yr awenau o ran marchnata a hyrwyddo'r diwydiannau creadigol yng Nghymru i'r byd.

<u>BEL Cymru Greadigol Nad yw'n arian parod</u>

- Maint y cyllid yn y BEL hwn ar gyfer 2025-26 yw £0.010m, ar gyfer costau dibrisiant asedau sefydlog.

### *Cam Gweithredu Rheoli Cyllid Ewropeaidd*

Nid oes unrhyw newid wedi bod i'r Cam Gweithredu hwn ers llinell sylfaen ddiwygiedig 2025-26. Mae cyfanswm y cyllid am y flwyddyn yn aros yn £1.761m.

<u>BEL Cymorth i Raglenni</u>

- Mae'r gyllideb flynyddol o £1.761m yn cyflawni gweithrediadau Cymorth Technegol Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru a ariennir gan yr UE.

### *Cam Gweithredu Cynllun Trwyddedu a Chofrestriadau Statudol*

Bu cynnydd o £0.2m yn y Cam Gweithredu o'i gymharu â'r llinell sylfaen ddiwygiedig ar gyfer 2025-26. Nod cyllid a ddyrannwyd yn 2025-26 yw cefnogi'r gwaith o ddatblygu'r system gofrestru, sy'n cael ei harwain gan Awdurdod Cyllid Cymru (ACC) fel rhan o'r Bil Ardoll Ymwelwyr.

BEL y Cynllun Cofrestru a Thrwyddedu Statudol

- Bydd y gyllideb flynyddol o £0.2m yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu'r system gofrestru, sy'n cael ei harwain gan Awdurdod Cyllid Cymru (ACC) fel rhan o'r Bil Ardoll Ymwelwyr.

## Cyfalaf

*Cam Gweithredu Busnes Cymru — Entrepreneuriaeth ac Economi Ranbarthol*

Bu gostyngiad o £18.5m o BEL Busnes Cymru oherwydd ailddyrannu cyllid o BEL Busnes Cymru i'r BEL Eiddo o fewn MEG yr Economi, Ynni a Chynllunio. Defnyddiwyd y cyllid hwn yn 2024-25 i ddarparu cynllun grant untro i gefnogi busnesau yn y sectorau manwerthu, hamdden a lletygarwch, gan helpu busnesau i gryfhau eu sefyllfa fasnachu yn y dyfodol drwy gynyddu proffidioldeb drwy fuddsoddi mewn technoleg ynni adnewyddadwy, gwella adeiladwaith eu hadeiladau, ac uwchraddio systemau neu beiriannau i leihau'r defnydd o ynni. Datblygwyd y cynllun i liniaru'r risgiau sy'n gysylltiedig â lleihau rhyddhad ardrethi annomestig ar gyfer Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch o 70% i 40% yn 2024-25. Roedd y gyllideb yn 2024-25 yn bodloni'r holl alw a oedd yn dod ymlaen drwy geisiadau a'r ffenestr agored estynedig ar gyfer ymgeiswyr. O ganlyniad, a gyda'r sefyllfa o ran rhyddhad ardrethi annomestig yn aros yn sefydlog ar 40% eleni, nid oes cynllun grant pellach wedi'i gynllunio ac ailddyrannwyd y gyllideb. Ar ôl cael ei hailbroffilio bydd y gyllideb yn cael ei defnyddio i fodloni blaenoriaethau Twf Gwyrdd a Swyddi, yn benodol dod â safleoedd ac eiddo sy'n barod ar gyfer buddsoddiad i'r farchnad er mwyn denu buddsoddiad. Cyfanswm y cyllid fesul blwyddyn ar gyfer y Cam Gweithredu yw £60.493m.

BEL Busnes a Datblygiad Economaidd Rhanbarthol

- Mae'r cyllid yn ategu'r cyllid cyfalaf sydd ar gael ar gyfer Cronfa Dyfodol yr Economi a datblygiadau strategol eraill i gynorthwyo busnesau. Mae Banc Datblygu Cymru hefyd yn gwella gallu busnesau yng Nghymru i gael gafael ar gyllid ac mae'n cefnogi'r gwaith o greu a diogelu swyddi gyda Chronfeydd dynodedig sy'n ceisio datgloi potensial yn economi Cymru drwy gynyddu faint o gyllid cynaliadwy ac effeithiol sydd ar gael yn y farchnad.

BEL Busnes a Datblygiad Economaidd Rhanbarthol – Ad-daliad

- Mae Cyllid Ad-daladwy yn ategu'r cyllid cyfalaf sydd ar gael ar gyfer Cronfa Dyfodol yr Economi a datblygiadau strategol eraill i gynorthwyo busnesau.

BEL Y Cymoedd Technoleg

- Mae'r Cymoedd Technoleg yn ymrwymiad gan y Rhaglen Lywodraethu dros ddeng mlynedd (hyd at 2028) i greu 1,500 o swyddi cynaliadwy, cynyddu cyflog wythnosol cyfartalog a gwerth ychwanegol gros sy'n canolbwyntio ar Flaenau Gwent, drwy fanteisio ar gyfleoedd sy'n deillio o'r pedwerydd chwyldro diwydiannol, annog mabwysiadu technolegau digidol, a datblygu technolegau datblygedig gwerth uchel sy'n cefnogi diwydiannau arloesol fel 5G, technoleg batris, ac ymchwil i gerbydau modurol. Mae effaith y buddsoddiad hwn yn cyrraedd holl ardaloedd Cymoedd y De.

*Cam Gweithredu Banc Datblygu Cymru*

Bu gostyngiad net o £1.5m ers llinell sylfaen ddiwygiedig 2025-26. Dyrannwyd gwerth £9.5m o gyllid trafodiadau ariannol cyfalaf ychwanegol i BEL Cronfeydd Cyllid Busnes yn y gyllideb hon i gefnogi'r canlynol:

Bydd £4.5m yn cael ei fuddsoddi mewn Benthyciadau Busnes Gwyrdd i gefnogi busnesau bach a chanolig i annog buddsoddiad mewn gwelliannau effeithlonrwydd ynni a phrosiectau datgarboneiddio.

I barhau i gefnogi microfusnesau sefydledig a busnesau newydd, mentrau bach a chanolig a mentrau cymdeithasol, rydym yn dyrannu £2m arall i Gronfa Micro-fenthyciadau Cymru.

Rydym yn dyrannu £3m i barhau â'n cefnogaeth i fusnesau Cymru drwy ddarparu ffynhonnell amgen o gyllid amgen drwy angylion buddsoddi. Bydd y cyllid yn annog creu busnes newydd a thwf economaidd yng Nghymru.

Mae gostyngiad o £11m i'r BEL Cronfa Cyllid Busnes – Ad-dalu yn ganlyniad i'r ad-daliadau trafodion ariannol diweddaraf sy'n ddyledus. Cyfanswm y cyllid a ddyrannwyd yw £-1.5m yn 2025-26.

BEL Cronfeydd Cyllid Busnes

- Pwrpas y cyllid yn y BEL hwn yw cefnogi Banc Datblygu Cymru, sy’n gwella gallu busnesau yng Nghymru i gael gafael ar gyllid ac yn cefnogi’r gwaith o greu a diogelu swyddi gyda Chronfeydd dynodedig sy’n ceisio datgloi potensial yn economi Cymru drwy gynyddu faint o gyllid cynaliadwy ac effeithiol sydd ar gael yn y farchnad. Mae Banc Datblygu Cymru mewn sefyllfa dda i helpu busnesau Cymru drwy’r pandemig a’r adferiad, ac i gael gafael ar y cyllid sydd ei angen arnynt i ddechrau, i gryfhau ac i ddatblygu. Mae’n gallu darparu benthyciadau o £0.001m hyd at £10m, yn ogystal â chyllid mesanîn ac ecwiti; ac mae’n helpu busnesau i ddod o hyd i’r partner cyllid iawn i gael gafael ar gyllid preifat gyda'i gyllid bwlch ei hun pan fydd angen.

<u>BEL Cronfeydd Cyllid Busnes – Ad-daliad</u>

- Mae cyllideb ad-dalu o £-11m wedi cael ei dyrannu fel rhan o gyllideb 2025-26. Mae’r ad-daliadau’n ymwneud â phroffiliau ad-dalu y cytunwyd arnynt mewn perthynas â benthyciadau a roddwyd mewn blynyddoedd blaenorol

*Cam Gweithredu Datblygu Seilwaith Economaidd*

Bu cynnydd net o £23.014m o’i gymharu â llinell sylfaen ddiwygiedig 2025-26. Mae’r dyraniad ychwanegol o £23.379m i’r BEL Seilwaith Eiddo yn sgil trosglwyddiad o BEL Busnes Cymru (£8.5m) a dyraniad ychwanegol o £4.5m i gefnogi’r gwaith o ddarparu seilwaith eiddo i gefnogi swyddi a thwf gwyrdd. Dyrannwyd £0.379m ar gyfer costau sy’n gysylltiedig â lesoedd y rhoddir cyfrif amdanynt o dan IFRS 16. Cyflwynwyd gostyngiad o £0.365m i’r BEL Seilwaith Eiddo – Ad-dalu oherwydd yr ad-daliadau ar y trafodiadau ariannol cyfalaf. Cyfanswm y cyllid ar gyfer y Cam Gweithredu yw £53.014m.

<u>BEL Seilwaith Eiddo</u>

- Mae’r gyllideb gyfalaf yn cael ei hategu gan dderbyniadau gwerthu tir ac eiddo. Mae hyn yn golygu bod modd darparu safleoedd ac adeiladau modern sy’n gallu bodloni amserlenni deiliadaeth cwmnïau er mwyn rhoi mantais gystadleuol wirioneddol i Gymru dros leoliadau eraill. Bydd yr holl brosiectau masnachol adeiladu uniongyrchol a gyflawnir yn anelu at gyrraedd safon carbon sero net o

ran defnydd a bydd Polisi Adeiladau Cynaliadwy Llywodraeth Cymru yn berthnasol i brosiectau a gyflwynir mewn partneriaeth ag eraill.

BEL Seilwaith Eiddo – Ad-daliad

- Dechreuodd ad-daliadau trafodiadau ariannol Seilwaith Eiddo yn 2022-23 a byddant yn parhau tan 2038-39.

- Mae'r ad-daliadau'n ymwneud ag £8.95m o gyllid a roddwyd rhwng 2015-16 a 2018-19. Rhoddwyd £2.750m o gyllid o dan y Gronfa Datblygu Eiddo yn 2015-16, a dyfarnwyd £6.2m i Gyngor Abertawe at ddibenion manwerthu a hamdden (£5.5m yn 2017-18 a £0.7m yn 2018-19).

BEL Gweithrediadau Seilwaith TGCh

- Mae'r gyllideb cyfalaf yn cefnogi cynlluniau i adeiladu ac i ddarparu seilwaith digidol i gysylltu cartrefi a busnesau ar draws Cymru. Er nad yw'r cyfrifoldeb dros fynd i'r afael â materion telathrebu yng Nghymru wedi'i ddatganoli i Weinidogion Cymru, mae'r cymorth a ddarperir gan Lywodraeth Cymru yn golygu bod cartrefi a busnesau yn gallu cael band eang cyflym a dibynadwy cyn gynted â phosibl.

*Cam Gweithredu Arloesi*

Ni fu unrhyw newid i'r cyllid cyfalaf a ddyrannwyd o fewn y Cam Gweithredu hwn o'i gymharu â'r llinell sylfaen ddiwygiedig ar gyfer 2025-26. Cyfanswm y cyllid yw £10m yn 2025-26.

BEL Arloesi ar gyfer Busnes

- Mae'r BEL yn ariannu'r cymorth ariannol ar gyfer cynlluniau Ymchwil, Datblygu ac Arloesi, gan gynnwys y cynllun Cymorth Arloesi Hyblyg SMART, cynllun y Fenter Ymchwil Busnesau Bach (SBRI) a'r Rhaglen Cefnogi Arloesedd ac Ymchwil Gydweithredol (CRISP). Er bod incwm yr UE wedi dod i ben, ein blaenoriaethau o hyd yw:

    - Defnyddio capasiti ymchwil, datblygu ac arloesi i gefnogi ein Rhaglen Lywodraethu, gan ganolbwyntio ar dwf economaidd,

- Cefnogi ymdrechion i fynd i'r afael ag effaith newid yn yr hinsawdd, sbarduno adferiad amgylcheddol a datgarboneiddio;
- Cefnogi arloesi ym maes Iechyd a Gwyddorau Bywyd, ochr yn ochr â chyllidebau Arloesi ym maes Iechyd a Gofal;
- Twf a datblygu sgiliau yn y sylfaen ymchwil ac arloesi sefydledig - dileu a disodli gyda. Cefnogi cydweithio trawsffiniol a thraws-sector ar draws y sylfaen ymchwil ac arloesi.

*Cam Gweithredu Gwyddoniaeth*

Nid oes unrhyw newid wedi bod ers llinell sylfaen ddiwygiedig 2025-26. Mae £5m o gyllid wedi'i gadw ar gyfer blwyddyn ariannol 2025-26.

<u>BEL Gwyddoniaeth</u>

- Mae prosiect ARTHUR wedi bod yn asesu dichonoldeb adeiladu a gweithredu cyfleuster cynhyrchu radioisotopau meddygol newydd yng Ngogledd Cymru (Technoleg Radioisotopau Uwch ar gyfer Adweithydd Cyfleustodau Iechyd ARTHUR). Byddai'r cyfleuster yn cynhyrchu radioisotopau meddygol, a ddefnyddir i roi diagnosis a thrin canserau a chlefydau eraill, o'i Adweithydd Ymchwil ei hun a'u cyflenwi i ddarparwyr Gwasanaeth Iechyd (y GIG yn bennaf) ledled y DU ac yn rhyngwladol. Mae trafodaethau ynghylch cyfleoedd posibl i ddatblygu'r cyfleuster hwn yn dal i fynd rhagddynt, ond y nod yw creu cyflenwad diogel o radioisotopau meddygol ar gyfer y Gwasanaeth Iechyd Gwladol ar adeg (2030 ymlaen) pan fydd cau'r cyfleusterau cynhyrchu Ewropeaidd presennol yn bygwth y cyflenwad byd-eang o radioisotopau meddygol a therapïau a diagnosteg clefydau yn sgil hynny. Mae'n bosibl hefyd y bydd y gyllideb gyfalaf yn cael ei defnyddio tuag at sefydlu Swyddfa Trosglwyddo Technoleg beilot, a all fod ar y cyd â Medr fel ffordd newydd o gymell trosglwyddo technoleg o ymchwil tuag at fudd cymdeithasol ac economaidd, rhywbeth nad yw wedi cael ei wneud yn dda yn y gorffennol.

*Cam Gweithredu Hyrwyddo a Diogelu Lle Cymru yn y Byd*

Bu cynnydd o £3m i'r Cam Gweithredu hwn o'i gymharu â'r llinell sylfaen ddiwygiedig ar gyfer 2025-26. Mae £1m yn ymwneud â'r BEL Twristiaeth a'r

£2m yn ymwneud â'r BEL Cymru Greadigol a fydd yn cefnogi ein diwydiannau digwyddiadau a thwristiaeth. Cyfanswm y cyllid ar gyfer y Cam Gweithredu ar gyfer blwyddyn ariannol 2025-26 yw £13m.

<u>BEL Twristiaeth</u>

- Cynnydd o £1m, gan ddarparu buddsoddiad cyfalaf wedi'i gynllunio o £6m mewn prosiectau twristiaeth strategol, cronfa y Pethau Pwysig ar gyfer gwelliannau ar raddfa fach i'r seilwaith twristiaeth, a chronfa lliniaru effeithiau'r tywydd i ymateb i bryderon a godwyd gyda ni gan atyniadau ymwelwyr am effaith tywydd gwael ar eu busnesau. Mae'r dyraniad hwn ar gael ochr yn ochr â Chronfa Buddsoddi mewn Twristiaeth Cymru sy'n werth £50m, sy'n cael ei darparu mewn partneriaeth â Banc Datblygu Cymru.

<u>BEL Cymru Greadigol</u>

- Nod y buddsoddiad cyfalaf blynyddol arfaethedig o £7m yw sicrhau bod y prosiectau datblygu sector allweddol hynny a gefnogwyd yn 2025-26 yn cael eu cyflawni'n llwyddiannus a pharhau i ddarparu cyllid ar gyfer prosiectau newydd gan gynnwys sgrin, digidol, cerddoriaeth, seilwaith stiwdio, sy'n cyflawni blaenoriaethau Cymru Greadigol ac yn cefnogi twf parhaus y diwydiannau creadigol yng Nghymru yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf.

*Cam Gweithredu Cynllun Trwyddedu a Chofrestriadau Statudol*

Bu cynnydd o £0.7m yn y Cam Gweithredu o'i gymharu â'r llinell sylfaen ddiwygiedig ar gyfer 2025-26.

<u>BEL y Cynllun Cofrestru a Thrwyddedu Statudol</u>

- Bydd y gyllideb flynyddol o £0.7m yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu'r system gofrestru, sy'n cael ei harwain gan Awdurdod Cyllid Cymru (ACC) fel rhan o'r Bil Ardoll Ymwelwyr.

*Cam Gweithredu Bargeinion Dinesig a Bargeinion Twf*

Bu cynnydd o £88.477m yn y Cam Gweithredu o'i gymharu â'r llinell sylfaen ddiwygiedig ar gyfer 2025-26. Mae'r cynnydd yn ganlyniad i gyllid ychwanegol a dderbyniwyd gan Drysorlys Ei Mawrhydi i gefnogi ein

bargeinion dinesig a'n bargeinion twf. Cyfraniad Llywodraeth Cymru yw £22m. Cyfanswm y cyllid ar gyfer y Cam Gweithredu yw £110.5m.

<u>BEL Bargeinion Dinesig a Bargeinion Twf</u>

- Mae pedwar cytundeb twf dinesig a rhanbarthol yng Nghymru, Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, Bargen Ddinesig Dinas-Ranbarth Bae Abertawe, Bargen Twf Gogledd Cymru a Bargen Twf Canolbarth Cymru. At ei gilydd, mae Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i fuddsoddi £791m yn y pedwar cytundeb dros 10-15 mlynedd. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i fuddsoddi dros £795m dros 15-20 mlynedd.

- Cyfanswm y cyllid ar gyfer y BEL ym mlwyddyn ariannol 2025-26 yw £110.5m.

Llywodraeth Cymru

# Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

## Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2025-26

15/01/2025

Mae'r papur hwn yn darparu tystiolaeth i Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig ar y cynigion ar gyfer Materion Gwledig a amlinellwyd yng Nghyllideb Ddrafft 2025-26 ar gyfer y Prif Grŵp Gwariant (MEG) Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, a gyhoeddwyd ar 10 Rhagfyr 2024.

Mae'r papur hwn yn cynnwys cynlluniau gwariant ar gyfer 2025-26, ac mae hefyd yn darparu diweddariad ar y meysydd penodol sydd o ddiddordeb i'r Pwyllgor. Mae Atodiad A yn darparu manylion y ffigurau perthnasol yn y Gyllideb Ddrafft ar gyfer maes Materion Gwledig y MEG Newid Hinsawdd a Materion Gwledig fesul Cam Gweithredu a Llinell Wariant yn y Gyllideb (BEL).

## Cefndir

Mae’r Gyllideb Ddrafft yn cynnwys y cynlluniau gwario ar gyfer 2025-26. Mae’r papur hwn yn darparu tystiolaeth i’r Pwyllgor ar y cynigion yn y gyllideb ar gyfer rhaglenni yn y dyfodol mewn perthynas â’r cyllidebau o fewn y portffolio Materion Gwledig a Swyddfa’r Prif Filfeddyg o fewn y MEG Newid Hinsawdd a Materion Gwledig fel yr amlinellwyd yn y Gyllideb Ddrafft a gyhoeddwyd ar 10 Rhagfyr 2024.

Mae Atodiad A yn darparu manylion y ffigurau perthnasol yn y Gyllideb Ddrafft fesul Cam Gweithredu a Llinell Wariant yn y Gyllideb (BEL).

Llywodraeth Cymru

# Cynnwys


**1. Y Dyraniadau Materion Gwledig yn y Gyllideb............................4**

**2. Meysydd polisi penodol ............................................................. 15**

**3. Deddfwriaeth ........................................................................... 19**

**4. Atodiad A: Manylion y Camau Gweithredu fesul gweithgaredd BEL 23**

# 1. Y Dyraniadau Materion Gwledig yn y Gyllideb

Crynodeb o'r Newidiadau yng Nghyllideb 2025-26

1. Mae'r tablau isod yn darparu trosolwg o'r cynlluniau a grynhowyd ar lefel uchel fesul maes busnes ar gyfer y portffolio Materion Gwledig a gyhoeddwyd yng Nghyllideb Ddrafft 2025-26.

Adnoddau

2. Yn 2025-26, mae'r gyllideb Adnoddau'n cynyddu £7.810m yn erbyn llinell sylfaen ddiwygiedig 2025-26. Er gwybodaeth, mae'r llinell sylfaen ddiwygiedig yn cynnwys dyraniadau yn 24-25 ar gyfer SCAPE a'r bwlch cyflog yn y sector cyhoeddus. Mae cyfanswm y gyllideb adnoddau wedi'i grynhoi yn Nhabl 1 isod:

| Trosolwg o'r Gyllideb Adnoddau Materion Gwledig | | | £'000 | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Cam gweithredu | Rhif y BEL | Disgrifiad o'r BEL | Llinell Sylfaen Ddiwygiedig 2025-26 | Newid £'000 | Cyllideb Ddrafft 2025-26 Rhagfyr 2024 |
| Tystiolaeth Strategol, Ffiniau a Chysylltiadau Rhynglywodraethol | 2816 | Tystiolaeth Strategol, Monitro, Ffiniau a Chysylltiadau Rhynglywodraethol | 2,639 | - | 2,639 |
| Datblygu a Darparu Polisi a Rhaglenni Cynhwysfawr mewn Amaethyddiaeth | 2829 | Strategaeth Amaethyddol | 500 | - | 500 |
| | 2831 | Cyllid Fframwaith Awdurdodau Lleol | 100 | - 100 | - |
| | 2860 | Polisi, Tystiolaeth, Cyflawni ac Ymgysylltu ym maes Amaeth | 350 | 5,890 | 6,240 |
| | 2861 | Prosiect Sir, Plwyf, Daliad | 500 | - 500 | - |
| | 2861 | Prosiect Sir, Plwyf, Daliad – Heb fod yn arian parod | 594 | - 594 | - |
| | 2862 | EIDCymru | 2,659 | - 2,659 | - |
| | 2863 | Adnabod Da Byw | 1,647 | - 1,647 | - |
| | 2864 | Gwasanaethau Cyngor Technegol | 358 | - 358 | - |
| | 2866 | Deddf Tiroedd Comin | 433 | - 433 | - |
| | 2240 | Ymchwil a Gwerthuso | 520 | - 520 | - |
| Taliadau Sylfaenol a Gweinyddu | 2787 | Cynllun y Taliad Sylfaenol | 238,000 | - | 238,000 |
| | 2790 | Gweinyddu TGC | 3,694 | 100 | 3,794 |
| | 2790 | Gweinyddu TGC – Heb fod yn arian parod | 9,649 | 594 | 10,243 |
| Buddsoddiadau Gwledig | 2833 | Cynlluniau Buddsoddi Gwledig | 44,720 | 5,500 | 50,220 |
| Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru: Darparu'r Rhaglenni yn y Cynllun Datblygu Gwledig 2014-20 | 2949 | Cynllun Datblygu Gwledig 2014-20 | 1,500 | - | 1,500 |
| Pysgodfeydd a Dyframaethu gan gynnwys Gorfodaeth Pysgodfeydd Cymru | 2870 | Pysgodfeydd | 3,605 | - | 3,605 |
| | 2870 | Pysgodfeydd – Heb fod yn arian parod | 574 | - | 574 |
| Datblygu a Marchnata Bwyd a Diod Cymru | 2970 | Hybu Bwydydd Cymreig a Datblygu'r Diwydiant | 4,790 | 570 | 5,360 |
| Cefnogi a Darparu'r Rhaglen / Strategaeth Iechyd a Lles Anifeiliaid | 2270 | Y Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid | 1,108 | 802 | 1,910 |
| Rheoli a Darparu Dileu TB a Chlefydau Endemig Eraill | 2271 | Yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion | 18,281 | 2,019 | 20,300 |
| | 2272 | Taliadau Difa TB - Costau a Derbyniadau | 13,810 | 502 | 14,312 |
| | 2273 | Dileu TB | 8,310 | 1,000 | 9,310 |
| Rheolaethau'r Ffin | 3730 | Rheolaethau'r Ffin | 6,456 | - 2,356 | 4,100 |
| | | CYFANSWM Adnoddau | 364,797 | 7,810 | 372,607 |

## Cyfalaf

3. Mae'r dyraniad cyfalaf yn y gyllideb o £108m yn gynnydd o £48.157m ar gyfer 2025-26.

Mae cyfanswm y gyllideb gyfalaf wedi'i grynhoi yn Nhabl 2 isod:

| Trosolwg o'r Gyllideb Gyfalaf Materion Gwledig | | | £'000 | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Cam Gweithredu | Rhif y BEL | Disgrifiad o'r BEL | Llinell Sylfaen Ddiwygiedig 2025-26 | Newid £'000 | Cyllideb Ddrafft 2025-26 Rhagfyr 2024 |
| Datblygu a Darparu Polisi a Rhaglenni Cynhwysfawr mewn Amaethyddiaeth, Bwyd a'r Môr | 2860 | Polisi, Tystiolaeth, Cyflawni ac Ymgysylltu ym maes Amaeth | 1,000 | 2,050 | 3,050 |
| Taliadau Sylfaenol a Gweinyddu | 2789 | TGCh Taliadau Gwledig | 6,000 | 2,200 | 8,200 |
| Buddsoddiadau Gwledig | 2833 | Cynlluniau Buddsoddi Gwledig | 53,000 | 13,952 | 66,952 |
| Pysgodfeydd a Dyframaethu gan gynnwys Gorfodaeth Pysgodfeydd Cymru | 2870 | Pysgodfeydd | - | 1,000 | 1,000 |
| Rheolaethau'r Ffin | 3730 | Rheolaethau'r Ffin | - | 28,955 | 28,955 |
| | | CYFANSWM Cyfalaf | 60,000 | 48,157 | 108,157 |

## Blaenoriaethau'r Gyllideb

4. Fy mwriad yw sicrhau bod ein hadnoddau naturiol yn cael eu rheoli mewn modd cynaliadwy ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. I gyflawni hyn, mae'r gyllideb yn caniatáu i mi weithredu ar y blaenoriaethau a ganlyn:

- Mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd i feithrin dyfodol tecach a mwy diogel a sicrhau swyddi gwyrdd.
- Gweithredu i warchod ac adfer natur yng Nghymru a chysylltu pobl â'r byd naturiol.
- Creu dyfodol cynaliadwy ar gyfer bwyd, pysgodfeydd a ffermio yng Nghymru.

- Gwella iechyd a lles anifeiliaid, a thrwy hynny hefyd warchod iechyd a llesiant pobl a'r amgylchedd a rhoi sail gadarn i'n masnach.
- Gwella iechyd a llesiant ein cymunedau drwy leihau gwastraff a llygredd, a defnyddio dulliau rheoleiddio i sbarduno arloesedd, creu marchnadoedd a chadw pobl yn ddiogel.

5. Rwyf wedi blaenoriaethu cefnogi'r gwaith o drosglwyddo'r sector amaeth i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy, y mae disgwyl iddo gael ei gyflwyno yn 2026, drwy gynnal terfyn uchaf Cynllun y Taliad Sylfaenol ar £238m. Rwyf wedi ymrwymo i barhau â'r cymorth ariannol hwn i ffermwyr oherwydd maent wrth galon cymunedau ledled Cymru, a gan gydnabod bod y sector amaeth yn mynd drwy newidiadau arwyddocaol. O'r herwydd, mae Gweinidogion Cymru'n parhau i ddiogelu cyllideb Cynllun y Taliad Sylfaenol er mwyn parhau â'r cymorth wrth i'r trosglwyddiad i fywyd y tu hwnt i'r Cynllun fynd rhagddo.

6. Rwyf hefyd yn darparu cyllid refeniw a chyfalaf ychwanegol o hyd at £118m i gefnogi'r Cyfnod Paratoi ar gyfer 2025 a chynlluniau buddsoddi gwledig ehangach fel:

   - y Cynllun Buddsoddi mewn Rheoli Maethynnau sy'n darparu cymorth ariannol i wella perfformiad economaidd ac amgylcheddol ffermydd drwy fuddsoddi mewn seilwaith fel cyfarpar a pheiriannau i fynd i'r afael ag effaith llygredd ar ffermydd.
   - y cynllun Grantiau Bach Gorchuddio Iardiau sy'n darparu cymorth ar gyfer gwelliannau i seilwaith ffermydd ac amrywiaeth o grantiau bach sy'n darparu cyfle i ffermwyr fuddsoddi mewn cyfarpar neu greu nodweddion newydd neu gynnal rhai sy'n bodoli eisoes fel gwrychoedd, waliau cerrig, etc.
   - Cynllun Cynefin Cymru i gefnogi'r gwaith o reoli cynefinoedd pwysig ledled Cymru a mynd i'r afael â'r argyfwng natur.
   - y Grant Creu a Chynllunio Coetir i ddarparu buddsoddiad mewn coed i gefnogi atafaelu carbon ac amrywiaeth eang o fanteision amgylcheddol eraill.
   - Cronfa her Technoleg Bwyd-Amaeth newydd ar draws y gadwyn gyflenwi ehangach a fydd yn cefnogi arloesedd ac ymchwil i helpu i ddatblygu atebion i broblemau ar draws yr holl gadwyn gyflenwi.

- y Cynllun Arloesedd Strategol i gefnogi datblygiad technegol o fewn y diwydiant bwyd a diod yng Nghymru drwy weithgareddau fel y Rhaglen Helix.

**7.** Drwy'r Cyllidebau Bwyd a Diod, rwyf hefyd wedi buddsoddi £0.5m yn ychwanegol ar gyfer cymorth broceriaeth Blas Cymru i hybu allforion a mewnfuddsoddi i Gymru.

**8.** Yn ystod Broceriaeth Blas Cymru 2023, croesawodd Cymru 276 o brynwyr masnach, gan gynnwys prynwyr rhyngwladol o 11 o wledydd, a 122 o fusnesau bwyd a diod o Gymru, gan gynnwys 15 o Sêr y Dyfodol. Cynhaliwyd tua 2100 o gyfarfodydd masnach wedi'u trefnu rhwng prynwyr masnach a busnesau bwyd a diod o Gymru, a gynhyrchodd gwerth tua £38 miliwn mewn gwerthiannau sicr a phosibl. Datblygwyd tua 203 o gynhyrchion newydd ar gyfer manwerthu a gwasanaethau bwyd. Bydd y digwyddiad broceriaeth nesaf yn cael ei gynnal ar 22-23 Hydref 2025 yng Nghanolfan Gynadledda Ryngwladol Cymru, gyda thargedau uwch ar gyfer nifer y cyfranogwyr a gwerthiannau.

**9.** Rwyf wedi dyrannu cyllid ychwanegol i gefnogi mentrau ar draws portffolio'r Prif Filfeddyg. Mae hyn yn cynnwys buddsoddiad ychwanegol i barhau i rannu ein dyhead am safonau iechyd a lles anifeiliaid uchel yng Nghymru, y rhaglen dileu TB mewn gwartheg a'n gwaith parhaus i drechu ymwrthedd gwrth-ficrobaidd.

## Monitro Cyllidebau

**10.** Mae'r holl gyllidebau'n parhau i gael eu monitro a'u herio bob mis, er mwyn ystyried y rhagolygon diweddaraf ac unrhyw symudiadau yn y gyllideb yn ôl y gofyn. Rwy'n derbyn diweddariadau ariannol rheolaidd am y rhagolygon ar gyfer y MEG i sicrhau bod y cyllidebau'n parhau i fod ar y trywydd cywir i gyflawni fy mlaenoriaethau. Rydym yn parhau i fonitro hyn yn agos i sicrhau bod arian yn cael ei fuddsoddi lle mae ei angen fwyaf wrth gefnogi ein blaenoriaethau.

## Y goblygiadau i'r gyllideb ddrafft sy'n ymwneud â'r adferiad o bandemig Covid-19

**11.** Mae'r gadwyn fwyd gyfan yn parhau i gael trafferth llenwi swyddi, o ofynion llafur tymhorol a lenwyd yn flaenorol gan weithwyr mudol mewn amaethyddiaeth a gweithgynhyrchu bwyd, i swyddi parhaol ar bob lefel sgiliau ar draws y sectorau gweithgynhyrchu bwyd a lletygarwch. Mae

gweithgynhyrchwyr bwyd wedi crynhoi ystod eu cynhyrchion ac wedi cwtogi'r wythnos waith mewn ymateb i'r argyfwng llafur. Mae gan y DU broblem sylweddol lle mae niferoedd mawr o'r grŵp oedran 50+ wedi gadael y gweithlu yn ystod y pandemig Covid ac mae'r gronfa lafur ehangach yn bwysig iawn i'r adferiad economaidd.

## Trefniadau pontio'r UE yn dilyn ymadawiad y DU â'r UE

**12.** Mae ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd yn parhau i effeithio ar Gymru, sydd wedi arwain at feysydd gwaith newydd hanfodol ar gyfer Llywodraeth Cymru. Roedd rhai wedi'u disgwyl, fel paratoi ein ffiniau, ond mae effaith newidiadau eraill ar draws y portffolio i'w phennu o hyd. Mae'r cyd-destun yn parhau i esblygu.

**13.** Mae angen i ni barhau i addasu ac ymateb i'r ffyrdd newydd hyn o weithio i Gymru, o ran ein rôl yn y DU a'n hymgysylltiad â'r UE a gwledydd masnachu eraill. Mae angen cynnal cyfathrebu rhynglywodraethol effeithiol ar gyfer hyn. Er enghraifft, rwy'n rhan o grŵp Rhyng-Weinidogol gyda Llywodraeth y DU (Defra), Llywodraeth yr Alban a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon, ac mae gennym bellach egwyddorion o'r newydd y cytunwyd arnynt ar gyfer gweithio ledled y pedair gwlad gan gynnwys ar gyfer trafod materion lle ceir gwahaniaeth barn er mwyn cytuno sut y byddwn yn cydweithio i ddatblygu ein hamcanion polisi unigol.

**14.** Mae cyfres o fframweithiau cyffredin yn cefnogi'r gwaith hwn, sy'n cael eu diweddaru yn sgil gwaith craffu gan y pwyllgorau perthnasol. Mae'r rhain yn pennu trefniadau ynghylch sut rydym yn dod ynghyd ledled y DU mewn meysydd pwnc. Rydym yn disgwyl y bydd y rhain wedi'u gorffen yn 2025. Ymhellach, mae'r peirianwaith sy'n sail i gytundeb masnach a chydweithredu'r UE yn parhau i gael ei ddatblygu ac mae angen ystyriaeth ac ymdrech i sicrhau ein bod yn parhau i ymgysylltu'n effeithiol. Mae angen dealltwriaeth o'r amgylchedd masnachu sy'n datblygu ac unrhyw effeithiau posibl, nid yn unig o ran cytundeb masnach a chydweithredu'r UE, ond hefyd gan ystyried cytundebau masnachu newydd â gwledydd eraill.

## Rhaglen Lywodraethu 2021-2026

15. Mae'r dyraniadau yn y gyllideb ar gyfer y MEG Newid Hinsawdd a Materion Gwledig yn sicrhau ei fod yn blaenoriaethu fy ymrwymiadau yn y Rhaglen Lywodraethu, nid yn unig yn y portffolio Materion Gwledig, ond ar draws y Llywodraeth. Er enghraifft, mae nifer o'r ymrwymiadau penodol ar gyfer Newid Hinsawdd yn y Rhaglen Lywodraethu'n cael eu cefnogi gan

fuddsoddiad o'r MEG Newid Hinsawdd a Materion Gwledig. Er enghraifft, mae'r cynllun Buddsoddi mewn Rheoli Maethynnau'n cefnogi buddsoddiadau sy'n gwella'r gwaith o reoli maethynnau ar ffermydd, yn gwarchod a gwella ansawdd y dŵr, y pridd a'r aer, ac yn gwella arbedion effeithlonrwydd adnoddau, perfformiad technegol, a'r defnydd o dechnoleg i wella penderfyniadau rheoli ar ffermydd.

16. Mae potensial i'r Strategaeth Bwyd Cymunedol gyflawni nifer o fanteision sy'n cyfrannu at nodau Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Er mai 'bwyd' yw'r ffactor cyffredin, gallai'r manteision cymdeithasol fod yn eang. Bydd y Strategaeth yn galluogi ac yn annog rhanddeiliaid a phartneriaid i chwarae rhan lawn yn y broses o wella'r ffocws ar faterion bwyd, a chynllunio a chyflawni ar draws cyrff cyhoeddus a byrddau gwasanaethau cyhoeddus lle mae bwyd yn berthnasol. Mae strwythurau i ddatblygu bwyd cymunedol eisoes ar waith, gan fod Llywodraeth Cymru wedi rhoi cyllid ysgogi i Bartneriaethau Bwyd Lleol drwy grant untro i'w sefydlu ledled Cymru.

Gwariant Ataliol

**17.** Mae'r cynigion hyn yn y gyllideb yn adlewyrchu fy ymrwymiad parhaus i ddiogelu a blaenoriaethu buddsoddiad sy'n cefnogi mesurau ataliol cyn belled ag y bo modd. Mae gwerth am arian ac eglurder ynghylch sut y defnyddiwn ein hadnoddau'n effeithiol yn ganolog i gyflawni ein blaenoriaethau. Unwaith y bydd y gwariant wedi'i gynllunio yn unol â'n blaenoriaethau, mae gennym brosesau cyflawni a monitro ar waith sydd wedi'u sefydlu'n dda i sicrhau y defnyddir adnoddau at y dibenion y'u bwriadwyd ar eu cyfer.

**18.** Rwyf hefyd wedi blaenoriaethu'r cyllid ar gyfer cynlluniau Buddsoddi Gwledig sy'n ataliol, fel targedu gwelliannau amaeth-amgylcheddol drwy Gynllun Cynefin Cymru; gwella cynhyrchiant a hyfywedd busnesau a grantiau buddsoddi wedi'u targedu, creu ac adfer coetiroedd; a chyflawni nifer o gynlluniau eraill. Mae'r Cynllun Sbarduno Busnesau Bwyd yn cynnig grantiau cyfalaf i gefnogi twf cynaliadwy mewn gweithgynhyrchu bwyd a gwelliannau cynhyrchiant.

**19.** Mae rhaglenni cyllid cyfalaf Cynlluniau Buddsoddi Gwledig wedi'u dylunio yn y fath fodd i hybu arferion cynaliadwy ac ysgogi gostyngiad mewn allyriadau carbon (ac felly maent yn gweithio i helpu i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd). Er enghraifft, mae'r cynllun Tyfu er mwyn yr Amgylchedd yn cefnogi tyfu a defnyddio cnydau, a allai arwain at welliannau ym mherfformiad amgylcheddol busnes fferm. Amcanion y cynllun yw cefnogi

ffermwyr i leihau allyriadau carbon a nwyon tŷ gwydr, addasu i newid yn yr hinsawdd a meithrin mwy o wytnwch mewn busnesau fferm, gwella ansawdd dŵr a lleihau'r perygl o lifogydd, a chyfrannu at wyrdroi'r dirywiad ym mioamrywiaeth frodorol Cymru.

20. Bydd y cyllid sylweddol o dros £118m yn cefnogi ein ffermwyr, coedwigwyr, rheolwyr tir a busnesau bwyd i hybu'r gwaith o gynhyrchu bwyd yn gynaliadwy a chefnogi'r economi wledig ar y llwybr i Gymru sero net a natur-bositif. Mae'r arian yn cynnwys ffocws ar goetir a choedwigaeth, ar welliannau amgylcheddol ar ffermydd, rheoli tir yn gynaliadwy, cynhyrchiant ac arallgyfeirio. Rydym hefyd yn targedu rheoli tir ar raddfa tirwedd a chadwyni cyflenwi bwyd a ffermio, i baratoi ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy o 2026.

**21.** Mae safonau iechyd a lles anifeiliaid uchel yn helpu i ddiogelu rhag brigiadau o achosion o glefydau. Mae anifeiliaid iach yn helpu i warchod lefelau cynhyrchiant a chynhyrchu ffermwyr, yn lleihau colledion cyfalaf, yn lleihau effeithiau negyddol ar fasnach yn ogystal â lleihau llygredd ac allyriadau CO2. Ar gyfer yr economi, gall effeithiau economaidd enfawr fod yn gysylltiedig â brigiad o achosion o glefyd. Er enghraifft, amcangyfrifwyd bod effeithiau'r achosion o glwy'r Traed a'r Genau yn 2001 ar amaeth, y diwydiant bwyd a'r sector cyhoeddus yn y DU yn £3.1 biliwn.

**22.** Mae cyllidebau sy'n ymwneud â TB yn gyllidebau buddsoddi i arbed. Bydd methiant i fuddsoddi mewn dileu TB yn arwain at gynnydd cyfatebol mewn costau digolledu o ganlyniad i anifeiliaid heintiedig. Rwyf wedi gallu buddsoddi £1m yn ychwanegol yn 25-26.

## Llunio polisïau yn seiliedig ar dystiolaeth

23. Mae'r dystiolaeth a ddefnyddiwyd yn cynnwys ymrwymiadau polisi seiliedig ar dystiolaeth yn y Rhaglen Lywodraethu sydd â'r nod o fynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a natur.

24. Mae'r dystiolaeth yn deillio o brofiadau dros nifer o flynyddoedd o gyflawni cynlluniau cymorth Polisi Amaethyddol Cyffredin yr UE, gan gynnwys y Rhaglenni Datblygu Gwledig, a ddaeth i ben ym mis Rhagfyr 2023.

25. Ers i ni ymadael â'r UE, rydym wedi adolygu sut rydym yn monitro, adrodd am a gwerthuso cymorth amaethyddol Llywodraeth Cymru. Mae Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023 yn nodi fframwaith ac amserlenni adrodd ar sail pedwar amcan Rheoli Tir yn Gynaliadwy:

1. cynhyrchu bwyd a nwyddau eraill mewn modd cynaliadwy,
2. lliniaru ac addasu i newid yn yr hinsawdd,
3. cynnal a gwella gwytnwch ecosystemau a'r manteision maent yn eu darparu, a
4. cadw a gwella cefn gwlad ac adnoddau diwylliannol a hyrwyddo mynediad y cyhoedd iddynt a'u hymgysylltiad â hwy, a chynnal y Gymraeg a hyrwyddo a hwyluso ei defnydd.

**26.** Cynhelir asesiad Rheoli Tir yn Gynaliadwy i sicrhau bod Gweinidogion Cymru yn arfer swyddogaethau mewn perthynas ag amaethyddiaeth, neu weithgareddau eraill a gynhelir ar dir a ddefnyddir ar gyfer amaeth a gweithgareddau ategol sy'n cyfrannu orau at yr amcanion Rheoli Tir yn Gynaliadwy. Nid yw'r pedwar amcan hyn yn hierarchaidd a rhaid eu hystyried gyda'i gilydd.

**27.** Bydd y cymorth amaethyddol presennol ac arfaethedig yn cael ei amlinellu yn y Cynllun Cymorth Amlflwyddyn, a gyhoeddir cyn diwedd eleni, gydag adroddiad blynyddol yn cael ei gyhoeddi wedi hynny yn amlinellu'r gwariant ariannol a gweithgarwch.

**28.** Bydd ymgynghoriad ar y dangosyddion a'r targedau Rheoli Tir yn Gynaliadwy yn cael ei gynnal yn gynnar yn 2025, gyda datganiad yn amlinellu'r dangosyddion a'r targedau y cytunwyd arnynt erbyn mis Rhagfyr 2025. Mae disgwyl i'r adroddiad Rheoli Tir yn Gynaliadwy cyntaf gael ei gyhoeddi ym mis Rhagfyr 2026, a fydd yn nodi'r cynnydd a wnaed. Bydd yr adroddiad effaith dros 5 mlynedd yn defnyddio technegau gwerthuso dibynadwy i ganfod effeithiolrwydd effaith y buddsoddiad.

**29.** Rydym yn defnyddio'r gwersi a ddysgwyd o'r rhaglenni datblygu gwledig blaenorol, sy'n bennaf yn rhai'r UE, i sicrhau cysondeb mewn dulliau adrodd a'r defnydd effeithlon o adnoddau, a bwriedir mai'r adroddiadau Rheoli Tir yn Gynaliadwy fydd cyfraniad y sector i hysbysu'r adroddiadau Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy yn uniongyrchol drwy'r adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol.

**30.** Bydd yr holl adroddiadau a amlinellir yn Neddf 2023 yn cael eu cyhoeddi ac yn ychwanegu at y sail dystiolaeth bresennol i bennu lle bydd angen targedu buddsoddiadau yn y dyfodol i sicrhau'r gwerth gorau am arian i ddiwallu'r anghenion cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd ar gyfer Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

31. Ym mis Mai, cyhoeddais y bwriad i greu Bord Gron Weinidogol y Cynllun Ffermio Cynaliadwy sy'n cynnwys ffermwyr, sefydliadau cynrychioliadol fel yr Undebau Ffermio, cyrff anllywodraethol amgylcheddol a rhanddeiliaid eraill sydd â diddordeb mewn sicrhau diwydiant amaeth cynaliadwy yng Nghymru.

32. Rwyf hefyd wedi cadarnhau y bydd Cynllun Taliad Sylfaenol 2025 yn parhau heb ei newid, i ddarparu cymaint o sicrwydd â phosibl heb wybod y sefyllfa gyllidebol yn y dyfodol.

33. Ers hynny, rwyf wedi cyhoeddi cyfnod paratoi'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy ar gyfer 2025/26 gyda disgwyl cyhoeddiadau pellach yn gynnar yn y flwyddyn newydd i fuddsoddi yn yr economi wledig.

34. Bydd y cam hwn yn darparu cyngor a chefnogaeth i ffermwyr cyn cyflwyno'r Cynllun, gan gynnwys

- Cynllun Cynefin Cymru 2025
- Cytundeb Tiroedd Comin Cynllun Cynefin Cymru - estyniadau.
- Taliad Cymorth Organig 2025
- Estyn y rhaglen Cyswllt Ffermio.
- Cynllun Adnoddau Naturiol Integredig newydd
- Tyfu er mwyn yr Amgylchedd
- Grantiau Bach – Yr Amgylchedd
- Grantiau Bach – Effeithlonrwydd
- Grantiau Bach – Dechrau Busnes Garddwriaeth
- Y Cynllun Garddwriaeth ac Arallgyfeirio Amaethyddol

35. Oherwydd y penderfyniad Gweinidogol i barhau â Chynllun Taliad Sylfaenol 2025 heb ei newid a darparu cyfnod paratoi cyn cyflwyno'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn 2026, ceir proffil cost diwygiedig ar gyfer gweithredu'r Ddeddf Amaethyddiaeth. Bydd yr Asesiad Effaith Integredig wedi'i ddiweddaru, a fydd yn cefnogi penderfyniad terfynol yn 2025 ar gyflwyno'r Cynllun, yn nodi manylion y costau hyn.

## Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

**36.** Mae fy mharatoadau ar gyfer y gyllideb ddrafft yn dangos sut rwyf wedi ceisio adlewyrchu fframwaith Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r amcanion Rheoli Tir yn Gynaliadwy yn Neddf Amaethyddiaeth (Cymru) wrth bennu ein blaenoriaethau gwario. Gwnaethom adolygu'r tueddiadau presennol a'r rhagolygon ar gyfer y dyfodol a'r effeithiau posibl yn y tymor byr, canolig a hwy. Gwnaethom hyn i sicrhau, cyn belled â phosibl, nad yw'r ymatebion tymor byr yn cael effeithiau niweidiol yn y tymor hwy.

**37.** Bydd angen i'r holl gyllid ar gyfer datblygu gwledig alinio â'r amcanion Rheoli Tir yn Gynaliadwy a'n blaenoriaethau ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Mae'r blaenoriaethau hyn wedi'u fframio o gwmpas y ffyrdd y gall adnoddau naturiol gefnogi ein nodau llesiant a mynd i'r afael â'r peryglon i'r amgylchedd a'r manteision cymdeithasol ac economaidd y maent yn eu darparu.

## Cydraddoldeb, y Gymraeg ac asesu hawliau plant

38. Mae canlyniadau'r asesiadau effaith yn dangos nad oes unrhyw effeithiau anghymesur ar y grwpiau a nodwyd yn sgil y penderfyniadau cyllidebol hyn.

# 2. Meysydd polisi penodol

Datblygu a gweithredu polisi amaethyddol gan gynnwys y Cynllun Ffermio Cynaliadwy arfaethedig i Gymru;

**39.** Nid yw ein huchelgais ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy i gefnogi diwydiant amaeth cynaliadwy a chynhyrchiol yng Nghymru wedi newid. Cyhoeddwyd Amlinelliad o'r Cynllun wedi'i ddiweddaru ar 25 Tachwedd 2024, ac yna cafwyd datganiad yn y Senedd ar 25 Tachwedd.

**40.** Mae'r Amlinelliad o'r Cynllun yn nodi'r cynnydd sylweddol a wnaed gennym drwy gydweithio. Mae pob aelod o'r Ford Gron, Gweithgor y Swyddogion a'r Panel Adolygu Tystiolaeth Atafaelu Carbon wedi cyfrannu'n sylweddol at gynnwys yr Amlinelliad.

**41.** Mae'r Ford Gron wedi cytuno y bydd yr Amlinelliad o'r Cynllun a gyhoeddwyd yn cael ei ddefnyddio i gynnal dadansoddiad economaidd ac asesiad effaith wedi'u diweddaru dros y misoedd nesaf i bennu'r effeithiau ar amrywiaeth o agweddau amaethyddol, amgylcheddol a chymdeithasol.

**42.** Rydym wedi datblygu Cynllun sydd wedi'i ddylunio i gefnogi pob ffermwr yng Nghymru drwy Daliad Sylfaenol Cyffredinol, ar sail cwblhau cyfres o Weithredoedd Cyffredinol.

43. Bydd cymorth pellach yn bosibl drwy'r Gweithredoedd Opsiynol a Chydweithredol a lle bo'n briodol. Tan hynny, byddwn yn parhau i gynnig y cymorth refeniw a chyfalaf presennol, tra bod y gweithredoedd yn cael eu datblygu.

**44.** Bydd yr Amlinelliad o'r Cynllun bellach yn cael ei ddefnyddio i ategu'r dadansoddiad economaidd a'r asesiad effaith newydd cyn y bydd y Gweinidogion yn gwneud y penderfyniadau terfynol yr haf nesaf. Bydd y Ford Gron Weinidogol yn parhau i fod yn rhan bwysig o'r broses hon.

Datblygu polisi pysgodfeydd, gan gynnwys darparu Cynlluniau Rheoli Pysgodfeydd;

45. Wrth bennu Dull Gweithredu Strategol ar gyfer Pysgodfeydd a Dyframaethu yng Nghymru, ystyriwyd y blaenoriaethau yn erbyn yr ymrwymiadau ehangach yn y Rhaglen Lywodraethu, y Cyd-ddatganiad Pysgodfeydd ac ymrwymiadau'r Cynlluniau Rheoli Pysgodfeydd (o dan Ddeddf Pysgodfeydd

2020). Mae'r gyllideb a'r adnoddau staffio sydd ar gael a ffactorau perthnasol eraill, gan gynnwys ffocws clir ar gyflawni, wedi'u hystyried hefyd.

46. Bydd ein cyfeiriad yn y dyfodol yn parhau i ganolbwyntio ar gyflawni dulliau rheoli cynaliadwy, a bydd ffocws ar gyflawni Cynlluniau Rheoli Pysgodfeydd a mesurau rheoli addasol. Mae hyn oll wedi'i gefnogi gan wyddoniaeth a thystiolaeth ac ymgysylltiad â rhanddeiliaid.

47. Byddwn yn parhau i gyflawni yn unol â'n dyletswyddau statudol ac yn chwilio am gyfleoedd a mentrau i gefnogi'r diwydiant i ddatblygu a thyfu. Bydd ein cylchoedd cyllido rheolaidd drwy Gynllun Môr a Physgodfeydd Cymru yn cael eu dylunio i ategu'r holl flaenoriaethau er mwyn helpu i gyflawni'r canlyniadau rydym oll am eu gweld.

48. Bydd cyhoeddi a gweithredu'r Cynlluniau Rheoli Pysgodfeydd fel offeryn allweddol i gyflawni dulliau rheoli cynaliadwy yn sicrhau buddion pwysig. Fodd bynnag, maent yn creu gwaith ychwanegol sylweddol ar draws yr Is-adran Pysgodfeydd, yn enwedig yn y maes Gwyddoniaeth a Pholisi. Rydym yn cydnabod bod diffyg data ynghylch rhai stociau heb gwota ac felly, ar gyfer y stociau hyn, wrth weithredu'r cynlluniau, byddant yn edrych gyntaf ar fynd i'r afael â'r bylchau mewn tystiolaeth i wella ein dealltwriaeth o stociau cyn newid y dull rheoli. Bydd cyllideb yn cael ei dyrannu ar gyfer yr asesiadau a'r cyngor gofynnol.

## Dileu TB buchol a dulliau eraill o reoli clefydau anifeiliaid megis ffliw adar a'r tafod glas;

49. Mae rhaglen Swyddfa'r Prif Filfeddyg yn cynnwys blaenoriaethau, rhai statudol a rhai seiliedig ar alw, ar gyfer iechyd a lles anifeiliaid, dileu clefydau a digolledu, gan gynnwys diogelu iechyd y cyhoedd. Mae ein cyllid yn caniatáu cyflawni meysydd polisi fel;

- Parhad y gwaith o ddileu TB, gan gynnwys mannau problemus lle y mae'r achosion yn cynyddu (e.e. Ynys Môn). Mae hyn yn cynnwys cyflawni'r Rhaglen i Ddileu TB dros 5 mlynedd, sy'n amlinellu cyfres o fesurau sydd â'r nod o leihau TB yng Nghymru.

- Paratoi ar gyfer ac ymateb i ddigwyddiadau a brigiadau o achosion o glefydau mewn anifeiliaid e.e. ffliw adar a'r Tafod Glas, a lle bo'n angenrheidiol, yr angen i ni gyflawni'r rhwymedigaeth statudol i dalu tâl digolledu am unrhyw anifeiliaid sy'n cael eu difa.

- Datblygu conglfaen iechyd a lles anifeiliaid y Cynllun Ffermio Cynaliadwy, gan gynnwys y Cylch Gwella Iechyd Anifeiliaid.
- Cyflawni ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu mewn perthynas ag iechyd a lles anifeiliaid a Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru dros 10 mlynedd.
- Gwarchod yn erbyn peryglon i iechyd cyhoeddus a chymdeithas yn sgil Ymwrthedd Gwrthficrobaidd.
- Y gallu i baratoi ar gyfer ac ymateb i unrhyw bandemig a chlefyd yn y dyfodol sy'n tarddu o anifeiliaid, sy'n bygwth iechyd pobl a'r amgylchedd.

### Datblygu a gweithredu strategaeth bwyd a diod, gan gynnwys y Strategaeth Bwyd Cymunedol;

**50.** Mae Rhaglen Lywodraethu 2021 – 2026 yn cynnwys ymrwymiad, sef 'Datblygu Strategaeth Bwyd Cymunedol Cymru i annog cynhyrchu a chyflenwi bwyd lleol yng Nghymru'.

**51.** Gweledigaeth y Strategaeth Bwyd Cymunedol yw creu elfen leol a llawr gwlad gref, fywiog a mwy amlwg i'r system fwyd, sydd wedi'i gwreiddio mewn cymunedau ac yn elwa ar weithgarwch a chysylltedd cyflenwi bwyd yn lleol i ysgogi'r angen am alw am fwyd.

**52.** Dull Datblygu'r Strategaeth Bwyd Cymunedol:

- Canolbwyntio ar ffurfio ffyrdd newydd o weithio drwy greu dull partneriaeth cydgysylltiedig parhaus ar draws Llywodraeth Cymru a chyda'r cyfranogwyr lleol allweddol, gan gynnwys awdurdodau lleol, cyrff cyhoeddus a sefydliadau'r trydydd sector.
- Darparu atebion galluogi a fydd yn cefnogi pennu cyfeiriad a gweithredu ar lefel leol. Bydd y Strategaeth yn osgoi dull cyfarwyddol 'o'r brig i lawr' ac yn hytrach yn ysgogi creu mentrau lleol sydd wedi'u cynllunio i fynd i'r afael ag anghenion lleol.
- I flaenoriaethau a nodau'r Strategaeth gael eu datblygu a'u hadnewyddu drwy broses barhaus o ymgysylltu a chydweithio i sicrhau bod y ffocws a'r cyfeiriad yn parhau i fod yn bragmatig a pherthnasol.

**53.** O fewn y Strategaeth, bydd arian yn cael ei ddarparu i gefnogi'r rhwydwaith o Bartneriaethau Bwyd Lleol i gyflawni newid gwirioneddol ar lawr gwlad. Sefydlwyd y Partneriaethau ym mhob rhanbarth Awdurdod Lleol (gyda dwy bartneriaeth yn cwmpasu Powys) drwy gyllid cychwynnol o'r MEG Cyfiawnder Cymdeithasol yn 2022-23. Bydd y rhwydwaith hwn yn dod â chapasiti ar gyfer arweinyddiaeth a chydgysylltu lleol, a'r gallu i gysylltu gweithgareddau ar lefel gymunedol â gwaith cynllunio a darparu gwasanaethau ar lefel cyrff cyhoeddus.

**54.** Ar gyfer 25-26, bydd hyd at £1m o arian refeniw a £230,000 o arian cyfalaf yn cael eu tynnu o Gyfnod Paratoi'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy. O gofio bod y gwaith cyflenwi o gwmpas y Strategaeth Bwyd Cymunedol yn ymestyn ar draws sawl portffolio, bydd hyn yn cyfateb i'r arian arfaethedig ychwanegol ar gyfer y Partneriaethau Bwyd Lleol o'r MEG Cyfiawnder Cymdeithasol (refeniw yn unig).

## Y wybodaeth ddiweddaraf am y trafodaethau â Llywodraeth y DU ynghylch cyllid yn y dyfodol ar gyfer cymorth i amaethyddiaeth.

**55.** Safbwynt Llywodraeth Cymru fu y dylai Llywodraeth y DU ddarparu trosglwyddiad sylfaenol o gyllid disodli i ffermydd sydd ar yr un lefel o leiaf â'r swm a gawsom yn y flwyddyn ariannol bresennol ar gyfer 2025-26 ynghyd â chyllid Bew. Yn 2024-25, gwnaethom dderbyn £339.6m. Cyn Cyllideb yr Hydref, ysgrifennodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg at y Canghellor i'r perwyl hwn.

**56.** Cynhaliwyd cyfarfod o'r Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol ar Gyllid ar 3 Hydref. Archwiliodd y cyfarfod gyfleoedd i gydweithio i wneud cynnydd ar gyfres o faterion etifeddol, gan gynnwys ar ddyfodol cyllid yn lle cyllid yr UE.

**57.** Mae'n egwyddor hirsefydlog datganoli na ddylid clustnodi cyllideb Llywodraeth Cymru at ddibenion penodol. Gweinidogion Cymru, gyda chymeradwyaeth y Senedd, ddylai benderfynu sut i ddyrannu cyllideb Llywodraeth Cymru i adlewyrchu'r amgylchiadau a'r blaenoriaethau yng Nghymru.

# 3. Deddfwriaeth

Taliadau amaethyddol parhaus cyn trosglwyddo i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy newydd – y Cynllun Taliad Sylfaenol a chynlluniau newydd interim megis Cynllun Cynefin Cymru, Taliad Cymorth Organig a'r Cynllun Adnoddau Naturiol Integredig.

58. Bydd cymorth ar gyfer y sector Amaeth yn parhau gan ddefnyddio Cyfraith yr UE a Gymhathwyd, a ddiwygiwyd yng Nghymru yn 2022 cyn lansio'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy newydd – mae hyn yn cynnwys Cynllun y Taliad Sylfaenol a chynlluniau newydd interim fel Cynllun Cynefin Cymru, y Taliad Cymorth Organig a'r Cynllun Adnoddau Naturiol Integredig.

Y broses o drosglwyddo i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy newydd, fel cynnal cynllun peilot, allgymorth, e.e. cymorth ar gyfer Cyswllt Ffermio, trefniadau gweinyddol ac ymchwil a datblygu.

59. Bydd is-ddeddfwriaeth newydd yn cael ei chyflwyno yn 2025 i roi effaith i adrannau 10 a 12 o Ddeddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023, a fydd yn rheoli'r holl gymorth amaethyddol yn y dyfodol, gan ddechrau gyda lansio'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy newydd yn 2026.

60. Yn ogystal â'r cymorth uniongyrchol sydd ar gael i ffermwyr a amlinellwyd yng nghyfnod paratoi'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy, rydym yn gweithio gyda:

- ffermwyr i sicrhau bod ein gwaith mapio yn gywir ar gyfer cynefinoedd a nodweddion tirwedd eraill.
- Cyfoeth Naturiol Cymru i benderfynu ar y ffordd orau o gyflawni cynlluniau rheoli safleoedd dynodedig
- Cynlluniau sicrwydd fferm a milfeddygon i beilota'r Cylch Gwella Iechyd Anifeiliaid.

Y Rhaglen Dileu TB Buchol (gan gynnwys y cynllun cyflawni, profi ac iawndal);

61. Bydd angen diwygio Gorchymyn TB (Cymru) 2010 ymhellach i weithredu newidiadau i daliadau digolledu a Phrynu Gwybodus. Bydd hyn yn digwydd yn dilyn ymgynghoriad pellach â'r diwydiant a gwaith datblygu polisi priodol, gan gynnwys asesiadau effaith.

Gweithredu, gorfodi ac adolygu Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) 2021;

62. Mae arian wedi'i roi i'r neilltu o Linell Wariant yn y Gyllideb (BEL) 2860 i adolygu a gweithredu rheoliadau domestig, i gyflawni rhwymedigaethau statudol a rhyngwladol, gan gynnwys mewn perthynas â'r Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol; y Rheoliadau Asesu Effeithiau Amgylcheddol; y Panel Cynghori ar Amaethyddiaeth Cymru; y Gorchmynion Cyflogau Amaethyddol; a datblygu'r rheoliadau sylfaenol ehangach sy'n ategu'r cynlluniau rheoli tir.

Cymorth ariannol parhaus i'r sectorau morol, pysgodfeydd a dyframaethu ar ôl i Gronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop ddod i ben;

**63.** Mae Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop wedi'i disodli gan Gynllun y Môr a Physgodfeydd Cymru a ariennir yn ddomestig. Mae hwn yn gynllun cyllido i gefnogi twf sy'n gynaliadwy yn amgylcheddol ac yn economaidd yn y diwydiant bwyd môr yng Nghymru ac annog cymunedau arfordirol yng Nghymru i ffynnu. Mae'r cynllun wedi'i deilwra i gefnogi buddiannau Cymru yn y cyd-destun newydd o fewn y DU ac yn rhyngwladol, ac mae cydbwysedd wedi'i sicrhau rhwng parhad â'r gorffennol, elfen o gysondeb â Gweinyddiaethau eraill y DU ac edrych ymlaen at fanteisio ar gyfleoedd newydd. Yn weithredol, mae'r cynllun yn hyblyg i alluogi Llywodraeth Cymru i addasu i flaenoriaethau sy'n newid wrth wneud cynnydd o ran ein hamcanion strategol.

**64.** Bydd Cynllun y Môr a Physgodfeydd Cymru yn parhau i gefnogi sectorau'r môr, pysgodfeydd a dyframaethu yn 2025 gyda chylch Cyllid Cyffredinol sy'n eang o ran natur ac sydd â'r amcanion a'r nodau strategol canlynol:

- Cyfrannu at amgylchedd morol yng Nghymru sy'n wydn a chynaliadwy yn erbyn effeithiau newid yn yr hinsawdd.
- Cyfrannu at gael y wyddoniaeth a'r dystiolaeth yng Nghymru i lywio penderfyniadau yn y dyfodol yn sector môr, pysgodfeydd a dyframaethu Cymru, o ddata ar rywogaethau i gydfodolaeth y sectorau morol.
- Cyfrannu at sicrhau bod gan Gymru amgylchedd morol bioamrywiol ac ecosystem gynaliadwy sy'n ffynnu.

- Cyfrannu at sector bwyd môr cynaliadwy, proffidiol ac amrywiol yng Nghymru sydd â marchnad ddomestig gryf ynghyd â marchnad fyd-eang sy'n ehangu.

**65.** Yn ogystal â Chynllun y Môr a Physgodfeydd Cymru, mae cymorth pellach yn cael ei gyflwyno drwy Ysgogwr Pysgodfeydd i Gymru. Bydd hyn yn darparu cymorth i bysgodfeydd a busnesau dyframaethu i nodi a chael mynediad at gyllid grant gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn ehangach, a lle bo'n berthnasol, bydd yr ysgogwr yn gyswllt rhwng y diwydiant a pholisi Llywodraeth Cymru i gryfhau'r berthynas a chyd-ddatblygu mentrau cymorth ar gyfer y sector.

Polisïau allweddol sydd wedi'u cynnwys yng Nghynllun Lles Anifeiliaid newydd Cymru 2021-26;

66. Mae ein Cynllun Lles Anifeiliaid Cymru yn amlinellu sut y byddwn yn integreiddio ystod eang o waith polisi parhaus ar les anifeiliaid, gan gynnwys canllawiau statudol ar gyfer Rheoliadau presennol, trwyddedu arddangosfeydd anifeiliaid, microsglodynnu cŵn a chathod, lles anifeiliaid sy'n cael eu cludo, a Chodau Ymarfer. Bydd angen adolygu'r ddeddfwriaeth lles anifeiliaid bresennol ar gyfer hyn, ynghyd â chynnal ychydig o hyblygrwydd pe bai angen camau gweithredu polisi newydd.

Polisi adnabod a symud da byw

**67.** Mae angen dirymu a disodli Rheoliadau Adnabod Gwartheg (Cymru) 2007, fel y'u diwygiwyd, i weithredu newidiadau cofrestru a symud ynghyd â chyflwyno system electronig i adnabod da byw buchol yng Nghymru. Ymgynghorwyd ar y cynigion polisi yn 2021 ac rydym wedi parhau i ymgysylltu â'r diwydiant drwy gydol y broses o ddatblygu polisi.

Polisi goruchwylio ffiniau

68. Er bod Llywodraeth y DU yn bwriadu ceisio cytundeb milfeddygol neu gytundeb mesurau iechydol a ffytoiechydol y Cynllun Taliad Sengl mwy cynhwysfawr â'r UE, y Model Gweithredu Targed y Ffin yw'r polisi mewn bod o hyd. Felly, mae'r gyllideb hon wedi'i nodi i wella ein parodrwydd ar gyfer gweithredu. Bydd yn cynnwys galluogi cwblhau'r gwaith o adeiladu'r Safle Rheolaethau'r Ffin yng Nghaergybi a gwariant hanfodol ar drosglwyddo'r safle, y mae disgwyl iddo ddigwydd yn ystod gwanwyn 2025. Mae'r gyllideb

hefyd yn cwmpasu costau staffio cyfyngedig, o fewn Llywodraeth Cymru ac Awdurdodau Lleol Ynys Môn a Sir Benfro.

69. Byddwn yn parhau i weithio gyda gweinyddiaethau eraill y DU ynghylch union natur y cytundeb a beth y mae hyn yn ei olygu ar gyfer rheolaethau'r Cynllun Taliad Sengl a bioddiogelwch y DU yn y cyfnod interim ac yn y tymor hwy. Bydd ein cynlluniau gwario'n cael eu hadolygu wrth i ganlyniad y gwaith hwn ddod i'r amlwg.

70. Mae'r gyllideb yn cynnwys cyfraniad Trysorlys Ei Fawrhydi ar gyfer y costau adeiladu yn unig o £28,955k o arian cyfalaf a £357k o arian refeniw. Rydym yn cynnal ein safbwynt y dylai Llywodraeth y DU ariannu'r holl gostau refeniw ar gyfer gweithredu unrhyw drefn ffiniau wedi Brexit ac nid y gwaith adeiladu'n unig.

# 4. Atodiad A: Manylion y Camau Gweithredu fesul gweithgaredd BEL

Manylion cyllideb ddrafft 2025-26, fesul Maes  y Rhaglen Wariant, Cam Gweithredu a Llinell Wariant yn y Gyllideb (BEL), ar gyfer gwariant refeniw a chyfalaf.

# Cam Gweithredu: Tystiolaeth Strategol, Ffiniau a Chysylltiadau Rhynglywodraethol

| Disgrifiad o'r BEL | Cyllideb Adnoddau £'000 | Cyllideb Cyfalaf £'000 |
|---|---|---|
| 2816 – Tystiolaeth Strategol, Monitro, Ffiniau a Chysylltiadau Rhynglywodraethol | 2,639 | 0 |

71. Mae BEL 2816 yn cefnogi'r Is-adran Tystiolaeth Strategol, Ffiniau a Chysylltiadau Rhynglywodraethol (SEBIR - yr Uned Ymadael â'r UE a'r Strategaeth ar gyfer yr Amgylchedd a Materion Gwledig gynt). Crëwyd yr is-adran i gydgysylltu a chefnogi ein hymadawiad â'r UE, ac mae bellach yn helpu i gydgysylltu ac ymwreiddio gweithgareddau pontio mewn busnes arferol. Yn sgil cwblhau'r Cytundeb Masnachu a Chydweithredu rhwng y DU a'r UE, mae'r is-adran yn cefnogi gweithrediad effeithiol swyddogaethau a strwythurau trawsbynciol newydd sy'n deillio o ymadael â'r UE, y cydgysylltu ar draws fframweithiau cyffredinol a rheoli cysylltiadau rhynglywodraethol ar gyfer y portffolio. Mae'r datblygiadau yn parhau i esblygu ac mae angen adnoddau ac ymdrech o hyd i sicrhau ymgysylltiad a dylanwad effeithiol ledled nifer o adrannau Llywodraeth y DU.

72. Mae'r is-adran yn gweithio ar draws y portffolios Newid Hinsawdd, Cynaliadwyedd Amgylcheddol a Materion Gwledig i hwyluso, cydgysylltu a darparu tystiolaeth strategol, gwaith modelu a'u gweithrediad ymarferol i gefnogi gwaith llunio polisi ehangach y portffolios, gan gynnwys:

- rheoli contract hirdymor y Rhaglen Monitro a Modelu'r Amgylchedd a Materion Gwledig,
- datblygu technolegau Arsylwi'r Ddaear,
- Rhaglen Tystiolaeth Amgylcheddol â ffocws, a
- gweithgareddau ymgysylltu academaidd

Mae'r rhain oll yn canolbwyntio ar gefnogi datblygu polisi, cyflawni a gwerthuso ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu.

# Cam Gweithredu: Datblygu a darparu polisi a rhaglenni cynhwysfawr mewn Amaethyddiaeth

| Disgrifiad o'r BEL | Cyllideb Adnoddau £'000 | Cyllideb Cyfalaf £'000 |
|---|---|---|
| 2829 Strategaeth Amaethyddol | 500 | 0 |
| 2860 Polisi, Tystiolaeth, Cyflawni ac Ymgysylltu ym maes Amaeth | 6,240 | 3,050 |

- BEL 2860 Polisi, Tystiolaeth, Cyflawni ac Ymgysylltu ym maes Amaeth
- BEL 2829 Strategaeth Amaethyddol

73. Mae'r Gwasanaethau Cyngor Technegol yn cefnogi cyflawni amrywiaeth o ddyletswyddau statudol, gwaith datblygu polisi  a gwasanaethau cymorth mewn perthynas ag amaethyddiaeth a'r amgylchedd gan gynnwys, ond heb ei gyfyngu i, brisiadau TB, Rheoliadau Asesu'r Effeithiau Amgylcheddol Amaethyddiaeth, Dosbarthiad Tir Amaethyddol, iechyd planhigion, Tribiwnlysoedd Tir Amaethyddol, Cyflogau Amaethyddol, Panel Cynghori ar Amaethyddiaeth Cymru  a'r Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol.

74. Mae cyllid yn cael ei ddyrannu i Awdurdodau Lleol Cymru drwy'r Penaethiaid Safonau Masnachu i gyflawni gweithgareddau gorfodi iechyd a lles anifeiliaid wedi'u targedu a rhai ychwanegol drwy Gynllun Datblygu Partneriaeth ac wedi'i gytuno gydag awdurdodau lleol.

75. Y gyllideb hon yw'r prif ddull ar gyfer cyfathrebu ac ymgysylltu â chwsmeriaid sy'n ffermio a'r diwydiant ehangach ynghylch cynlluniau, polisïau a mentrau a weinyddir gan Lywodraeth Cymru, gan gynnwys cynhyrchu diweddariadau copi caled i holl hawlwyr y Cynllun Taliad Sengl a chefnogi ffermwyr i gydymffurfio â'r Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol.

76. Mae'r gyllideb yn cwmpasu cyllid uniongyrchol i Gymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru yn ogystal â Chymdeithasau sioeau ledled Cymru.

77. Mae'r dyraniad yn ariannu'r Prosiect Sir, Plwyf, Daliad, sy'n rhesymoli a glanhau'r dirwedd Sir, Plwyf, Daliad yng Nghymru. Bydd y gyllideb a

ddyrannwyd (£200,000) yn sicrhau bod Taliadau Gwledig Cymru yn parhau i weinyddu a chynnal y platfform TG presennol ac mae angen y £300,000 arall i gefnogi canlyniad yr adolygiad annibynnol sy'n cael ei gynnal ar hyn o bryd, ac unrhyw waith achos a chostau eraill sy'n gysylltiedig â newid rhifau daliadau. EIDCymru yw'r gronfa ddata symudiadau defaid ar gyfer ffermwyr Cymru, sy'n bodloni'r safonau a nodir yn Rheoliad Cyngor Ewrop 21/2004 lle y mae gofyniad i'r aelod-wladwriaethau sefydlu sail ar gyfer system Ewropeaidd i adnabod a chofnodi symudiadau defaid, geifr a cheirw. Gallai methu â chydymffurfio â'r rheoliadau hyn arwain at dor-cyfraith a chael effaith ar gytundebau masnachu ar ôl ymadael â'r UE yn y dyfodol. Mae EIDCymru'n gwella olrheiniadwyedd, gan helpu i liniaru'r gost sylweddol i'r llywodraeth a'r diwydiant pe bai brigiad o achosion o glefyd defaid.

78. Mae'r BEL hwn yn ariannu gweithgarwch ymchwil a gwerthuso pwysig mewn perthynas ag amaethyddiaeth yng Nghymru. Mae dwy ffrwd i hyn:

- Mae'r Arolwg o Fusnesau Ffermio yn arolwg blynyddol o fusnesau ffermio yng Nghymru. Fe'i cynhelir gyda'r prif ddiben o gasglu data corfforol ac ariannol manwl am sefyllfa economaidd busnesau ffermio ledled Cymru. Yr arolwg yw'r brif ffynhonnell wybodaeth am ddata economaidd busnesau ffermio. Mae'r arolwg yn darparu tystiolaeth ar lefelau incwm mewn sectorau amaethyddol gwahanol yng Nghymru, perfformiad ariannol, a sefyllfa ariannol ffermydd (asedau, dyledion, gwerth net). Er enghraifft, yr Arolwg o Fusnesau Ffermio yw ffynhonnell y ffigur a glywn yn aml: ar gyfartaledd, mae 80% o incwm ffermwyr Cymru'n dod o'r Taliad Fferm Sylfaenol.

# Cam Gweithredu: Taliadau Sylfaenol a Gweinyddu

| Disgrifiad o'r BEL | Cyllideb Adnoddau £'000 | Cyllideb Cyfalaf £'000 |
|---|---|---|
| 2787 – Cynllun y Taliad Sylfaenol | 238,000 | 0 |
| 2790 – Gweinyddu TGC | 3,794 | 0 |
| 2790 – Gweinyddu TGC – heb fod yn arian parod | 10,243 | 0 |
| 2789 – TGCh Taliadau Gwledig | 0 | 8,200 |

79. Mae Cynllun y Taliad Sylfaenol yn Gymorth Uniongyrchol y mae 100% ohono'n cael ei ariannu'n ddomestig, sydd wedi'i gadw o'r Polisi Amaethyddol Cyffredin o dan gyfraith yr UE a ddargedwir. Gwneir y taliadau'n uniongyrchol i ffermwyr sy'n defnyddio'r arian i dalu treuliau busnes neu dreuliau eraill. Gwneir y taliadau ym mis Hydref (ymlaen llaw) a mis Rhagfyr (balansau). Deddf Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr (Parhad Deddfwriaethol) 2020 (c.2).

80. Mae systemau TGCh Taliadau Gwledig yn BEL 2790 yn cynnwys tair prif elfen:

- CAPIT: System dilysu ceisiadau a thalu ar sail rheolau.
- Scheme Editor: System Adnabod Parseli Tir seiliedig ar System Gwybodaeth Ddaearyddol a ddefnyddir i fapio'r holl dir a ffermir a ddefnyddir yng Nghymru i hawlio Cynllun y Taliad Sylfaenol neu Glastir.
- TGC Ar-lein: Porth ar-lein ar gyfer ffermwyr (hawlwyr) i wneud cais ar gyfer cynlluniau amrywiol PAC a'r Cynllun Datblygu Gwledig a hawlio odanynt. Mae'r system hon yn cefnogi gwasanaeth digidol 100% o fewn TGC.

81. Mae'r tair system yn hollbwysig i ddarparu'r holl gynlluniau cymorth gwledig yn effeithlon ac mae'n hanfodol eu bod yn parhau i weithredu a chael eu datblygu er mwyn:

- Cynnal trywydd archwilio cadarn a chadw cofnodion ar gyfer pob taliad.
- Darparu cynlluniau cymorth domestig fel rhan o gyfnod paratoi'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy.

- Cefnogi'r gwaith o ddarparu a gweithredu'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn 2026 a'r pontio o Gynllun y Taliad Sylfaenol wedi hynny.

# Cam Gweithredu: Cynlluniau Buddsoddi Gwledig

| Disgrifiad o'r BEL | Cyllideb Adnoddau £'000 | Cyllideb Cyfalaf £'000 |
|---|---|---|
| 2833 – Cynlluniau Buddsoddi Gwledig | 50,220 | 66,952 |

82. Diben y BEL hon yw paratoi'r sector ar gyfer cyflwyno'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy o 2026, drwy ddarparu buddsoddiad gwledig amrywiol yn ôl y galw a chynlluniau i baratoi ar gyfer y cynllun. Mae'r cynlluniau'n adeiladu ar y dros £200m o gynlluniau buddsoddi gwledig trosiannol a ddarperir i ffermwyr a rheolwyr tir rhwng 2021 a 2025 gan ddefnyddio cyllid yn lle cyllid yr UE, cyn cyflwyno'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Bydd y gwaith monitro, adrodd a gwerthuso ar gyfer y cymorth hwn fel yr amlinellir yn Neddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023.

# Cam Gweithredu: Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru: Darparu'r rhaglenni yn y Cynllun Datblygu Gwledig 2014-20

| Disgrifiad o'r BEL | Cyllideb Adnoddau £'000 | Cyllideb Cyfalaf £'000 |
|---|---|---|
| 2949 – Cynllun Datblygu Gwledig 2014-20 | 1,500 | 0 |

83. BEL 2949 - Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru - roedd Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020 yn rhaglen fuddsoddi dros 7 mlynedd i gefnogi amrywiaeth eang o weithgareddau a ddaeth i ben ym mis Rhagfyr 2023. Mae cyllid 20025 wedi'i gyfyngu i'r ymrwymiadau creu coetir amlflwyddyn sy'n weddill, i dalu incwm blynyddol a ildiwyd a hawliadau cynnal a chadw.

# Cam Gweithredu: Pysgodfeydd a dyframaethu gan gynnwys gorfodaeth Pysgodfeydd Cymru

| Disgrifiad o'r BEL | Cyllideb Adnoddau £'000 | Cyllideb Cyfalaf £'000 |
|---|---|---|
| 2870 – Pysgodfeydd | 3,605 | 1,000 |

84.Mae BEL 2870 yn cwmpasu'r cyllid ar gyfer yr hyn a ganlyn;

- Gwyddor a Thystiolaeth Pysgodfeydd – Cyflawni amrywiaeth o ymrwymiadau statudol ac anstatudol ar wyddor pysgodfeydd, sy'n ategu'r gwaith o reoli pysgodfeydd a datblygu polisi.
- Cynllun y Môr a Physgodfeydd Cymru – Hwn yw'r cynllun sy'n disodli Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop a dyma'r cyfrwng ar gyfer buddsoddi yn y sectorau pysgodfeydd a dyframaethu.
- Systemau Digidol Pysgodfeydd – Mae systemau digidol i reoli pysgodfeydd yn cynnwys amrywiaeth o systemau TG i gofnodi'r pysgod sy'n cael eu dal, monitro llongau, cofnodi archwiliadau o drwyddedi morol a physgodfeydd, cofnodion o werthiannau pysgod a systemau iechyd a diogelwch ar gyfer swyddogion gorfodi.
- Polisi Pysgodfeydd Domestig - Byddwn yn parhau i fodloni'r rhwymedigaethau statudol i reoli pysgodfeydd a ganiateir a chyflawni Cynlluniau Rheoli Pysgodfeydd. Bydd y gwaith hwn yn sicrhau bod ein pysgodfeydd yn gynaliadwy drwy warchod yr amgylchedd gan gynyddu ar yr un pryd fanteision economaidd a chymdeithasol pysgodfeydd i Gymru.
- Masnach Forol a Physgodfeydd - gan gynnwys cyllid craidd ar gyfer Cymdeithas Pysgotwyr Cymru
- Rheoli a Gorfodi – Mae'n cwmpasu'r holl gostau gweithredu o gwmpas Rheoli a Gorfodi, gan gynnwys costau Llongau Patrôl Pysgodfeydd, fel costau cynnal a chadw, tanwydd ac yswiriant.

# Cam Gweithredu: Datblygu a Marchnata Bwyd a Diod Cymru

| Disgrifiad o'r BEL | Cyllideb Adnoddau £'000 | Cyllideb Cyfalaf £'000 |
|---|---|---|
| 2970 – Hybu Bwydydd Cymreig a Datblygu'r Diwydiant | 5,360 | 0 |

85. Mae BEL 2970 yn cefnogi gweithgareddau i hybu diwydiant bwyd a diod Cymru a datblygu'r sector. Yr amcan yw creu diwydiant bwyd a diod cryf a llewyrchus yng Nghymru sydd ag enw da am ragoriaeth, gydag un o'r cadwyni cyflenwi mwyaf cyfrifol yn amgylcheddol a chymdeithasol yn y byd. Mae'r amcanion a'r camau gweithredu cyffredinol wedi'u hamlinellu yn '**Gweledigaeth ar gyfer y Diwydiant Bwyd a Diod o 2021'.**

86. Mae'r gweithgareddau allweddol a gyflawnir o BEL 2970 yn cynnwys:

- y rhaglen Datblygu Masnach sy'n cefnogi cynhyrchwyr i gael mynediad at gyflenwi manwerthwyr a chyfanwerthwyr cadwyn ac annibynnol,
- digwyddiad broceriaeth BlasCymru. Cynhyrchodd y digwyddiad diwethaf gwerth dros £35 miliwn o gontractau ar gyfer busnesau bwyd a diod yng Nghymru a gweithgareddau i hybu allforion a mewnfuddsoddiad i Gymru. Mae'r gweithgarwch yn cyflenwi'r gweithgarwch a ariennir gan BEL 2833 Cynlluniau Buddsoddi Gwledig, sy'n cyflawni'r Cynllun Arloesedd Strategol (gan gynnwys Prosiect Helix, a'r rhaglenni Sgiliau a Menter).

# Cam Gweithredu: Cefnogi a Darparu'r rhaglen / strategaeth Iechyd a Lles Anifeiliaid

| Disgrifiad o'r BEL | Cyllideb Adnoddau £'000 | Cyllideb Cyfalaf £'000 |
|---|---|---|
| 2270 – Y Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid | 1,910 | 0 |

**87.** Mae'r gyllideb hon yn cwmpasu ystod o wariant y Llywodraeth ar iechyd a lles anifeiliaid, atal a rheoli clefydau, yn ogystal â gwyliadwriaeth a gwaith rheoli rhagweithiol/cynllunio wrth gefn ar gyfer clefydau egsotig. Mae'n cynnwys cymorth parhaus i Grŵp Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru a'r Grŵp Cyflawni ar Ymwrthedd Gwrthficrobaidd Anifeiliaid a'r Amgylchedd. Mae hyn yn ein galluogi i weithio mewn partneriaeth gyda'r diwydiant i wella safonau iechyd a lles anifeiliaid, hybu'r defnydd cyfrifol o wrthfiotigau a chymryd camau effeithiol i reoli brigiadau o achosion o glefydau anifeiliaid.

# Cam Gweithredu: Rheoli a darparu Dileu TB a Chlefydau Endemig eraill

| Disgrifiad o'r BEL | Cyllideb Adnoddau £'000 | Cyllideb Cyfalaf £'000 |
|---|---|---|
| 2271 – Yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion | 20,300 | 0 |
| 2272 – Taliadau Difa TB – Costau a Derbyniadau | 14,312 | 0 |
| 2273 – Dileu TB | 9,310 | 0 |

**88.** Mae BEL 2271 yn cefnogi gwasanaethau a gweithgareddau statudol, y mae'r mwyafrif ohonynt yn cael eu darparu gan yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion yng Nghymru. Mae'r cyllid yn helpu i ddiogelu iechyd a lles anifeiliaid yn ogystal ag iechyd y cyhoedd, bywoliaethau a masnach gwledig ac yn gwella diogelwch bwyd drwy ymchwil, gwyliadwriaeth ac archwiliadau.

**89.** Darperir cyllid hefyd ar gyfer y gwaith statudol a wneir gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd a chyllid i gwmpasu'r taliadau digolledu TSE statudol pe bai eu hangen.

**90.** Mae cyfran fawr o weithgarwch yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion yn gweithredu gofynion statudol a pholisi Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud â'r Rhaglen Dileu TB (yn ychwanegol at BEL 2273), yn ogystal â gweithredu rheolaethau i ddiogelu iechyd pobl a'r gadwyn fwyd ddynol.

**91.** Mae'r cyllid yn sicrhau ein bod yn gallu ymateb i ymlediadau a brigiadau o achosion clefydau anifeiliaid gan gynnwys ffliw adar a'r Tafod Glas. Rydym wedi cynnwys, lle bo'n angenrheidiol, ein hangen i fodloni'r rhwymedigaeth statudol i ddigolledu am unrhyw anifeiliaid sy'n cael eu difa. Oherwydd y nifer gynyddol o achosion o firysau H5 HPAI sy'n cael eu canfod mewn adar gwyllt mewn gwahanol rannau o Brydain a chychwyn y tymor mudo, mae'r perygl o ymlediad HPAI ymysg adar gwyllt a dofednod wedi cynyddu. Rhagwelir y bydd y lefelau risg yn cynyddu ymhellach dros y gaeaf gan danlinellu pwysigrwydd bod pob ceidwad adar yn cynnal safonau bioddiogelwch a hylendid uchel i warchod heidiau. O gofio ein bod yn y tymor mudo adar, mae'r lefelau risg yn newid a byddant yn cael eu hasesu'n rheolaidd.

**92.** Mae'r gyllideb yn ei lle i liniaru:

- y perygl sy’n codi yn sgil brigiadau o achosion o glefyd egsotig mewn anifeiliaid, sy'n cael effaith ehangach o gofio bod gan Lywodraeth Cymru atebolrwydd dibynnol (ariannol) ar gyfer costau heb eu cyllidebu yn yr amgylchiadau hynny e.e. amcangyfrifwyd bod y gost i’r Llywodraeth yng Nghymru yn tua £100m yn ystod y Clwy Traed a’r Genau pan oedd yn fater heb ei ddatganoli. Yn nhermau heddiw, gallai’r gost honno fod yn sylweddol fwy heb amcangyfrif y niwed i ddiwydiant, masnach a thwristiaeth yng Nghymru, lle y byddai effaith niweidiol ddifrifol ar incymau.

- gallai’r methiant i arddangos rheolaeth effeithiol o glefyd mewn anifeiliaid danseilio negodiadau yn y dyfodol ar farchnad sengl lle y byddai’r gofynion ar gyfer gweithredu rheolaethau clefydau anifeiliaid sydd o leiaf yn cyfateb i rai Aelod-wladwriaethau eraill o bosibl yn rhywbeth a fydd yn cael ei bwysleisio’n drwm fel rhan o unrhyw gytundeb masnach â’r Undeb Ewropeaidd.

**93.** Bydd gostyngiadau yn y lefelau o reolaethau clefydau anifeiliaid yn effeithio ar negodiadau masnach y DU nawr ac yn y dyfodol oherwydd bydd disgwyl i’r DU allu arddangos lefelau o reolaeth sydd o leiaf yn cyfateb i rai’r Aelod-wladwriaethau Ewropeaidd.

**94.** Mae BEL 2272 yn gyllideb ‘seiliedig ar alw’ ac mae gan Lywodraeth Cymru ddyletswydd statudol i dalu taliadau digolledu TB. Mae nifer yr anifeiliaid a gaiff eu difa ac felly'r pwysau ar y gyllideb hon wedi’u cysylltu’n anorfod â chynnydd Dileu TB a chyllideb y Rhaglen Dileu TB (BEL 2273). Gallai unrhyw ymyrraeth â’r polisïau dileu arwain at ledaenu’r clefyd, sydd yn ei dro’n debygol o arwain at wariant uwch ar daliadau digolledu TB. Os bydd gorwario’n digwydd, yna byddai goblygiadau o ran cyllidebau ehangach Swyddfa’r Prif Filfeddyg a Llywodraeth Cymru, oherwydd mae’n bosibl y bydd galw ar y rhain i wrthbwyso unrhyw orwariant a welwyd mewn blynyddoedd blaenorol.

95. Mae BEL 2273 yn cwmpasu ymrwymiad statudol i Gynllun Dileu TB y DU. Mae’r BEL hwn yn ategu’r gweithgarwch a wneir gan ein partner cyflenwi, yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion, i gyflawni polisïau TB, gan gynnwys profion blynyddol, a mentrau a phrosiectau fel Cymorth TB a gwaith epidemiolegol i helpu i ategu tystiolaeth a dull gweithredu’r Rhaglen Dileu TB. Ariennir y gwaith hwn yn rhannol gan y BEL hon a hefyd gan BEL 2271 (Darparu a Thaliadau Iechyd a Lles Anifeiliaid).

# Cam Gweithredu: Rheolaethau'r Ffin

| Disgrifiad o'r BEL | Cyllideb Adnoddau £'000 | Cyllideb Cyfalaf £'000 |
|---|---|---|
| 3730 Rheolaethau'r Ffin | 4,100 | 28,955 |

96. Mae'r is-adran yn arwain ar gydgysylltu'r cyngor polisi ar gyfer gweithredu'r Model Gweithredu Targed y Ffin a gweithrediad Fframwaith Windsor, fel y mae'n berthnasol i Gymru. Mae'r is-adran hefyd yn arwain ar agweddau gweithredol cyfleusterau ac adeiladau ffisegol rheolaethau'r ffin. Yn benodol ar gyfer Ynys Môn, mae hyn yn ymwneud â sut y bydd adeilad Safle Rheolaethau'r Ffin yn cael ei reoli a'i gynnal gan Lywodraeth Cymru unwaith y bydd yr adeilad wedi'i gwblhau a'i drosglwyddo gan y contractwyr.